# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 20FED MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**


Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 14 Mawrth 2024)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Dafydd Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gill German | Cyngor Sir Ddinbych |
| Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Mared Eastwood | Cyngor Sir y Fflint |
| Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| d Beca Brown | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Manon Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Paul Smith | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Noel Fitzgerald | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwyr |
| Jennie Downes | Cynrychiolydd Eglwys yng Nghymru |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Marc Berw Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwern ap Rhisiart | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Bethan Eleri Roberts | GwE |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |

## Sylwedydd

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2023 fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB GWE 2023/2024 - ADOLYGIAD 3YDD CHWARTER** 11 - 15

I ddiweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.

**6. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GWE 2023/2024 - MONITRO CHWARTER 3** 16 - 65

Cyflwyno adroddiad monitro chwarter 3 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**7. DYFODOL GWELLA YSGOLION YNG NGOGLEDD CYMRU** 66 - 82

I ganiatáu i aelodau'r Cyd-bwyllgor wneud penderfyniadau gwybodus am ddyfodol gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru.

**8. CYLLIDEB GWE 2024/2025 (CYLLIDEB SYLFAENOL)** 83 - 88

I ystyried yr adroddiad a mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2024/25 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1.

**9. CALENDR CYFARFODYDD 2024-25** 89 - 91

I wneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar galendr cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**CYD-BWYLLGOR GWE – 06/12/2023**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Beca Brown (Cyngor Gwynedd), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint) a Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais:** Dylan Davies (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd)

**Swyddogion Heb bleidlais:** Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Clare Scanlon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Debbie Anne Jones (Cyngor Gwynedd)

**Swyddogion yn bresennol:**

**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad) a Meleri H Roberts (Cyfieithydd)

**Cyngor Gwynedd (Yr Awdurdod Lletyol) –** Dewi Morgan (Pennaeth Adran Cyllid), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd) a Ffion Elain Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 5 & 6:** Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Ar ddechrau'r cyfarfod, bu i'r Cadeirydd, ar ran y Cydbwyllgor, gydymdeimlo gyda Clare Homard ar ei phrofedigaeth diweddar. Nodwyd hefyd bod Garem Jackson, cyn Bennaeth Addysg Cyngor Gwynedd, wedi gadael. Diolchwyd iddo am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd a dymunwyd pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych).

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

   Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 12fed o Orffennaf 2023, yn gywir.

5. **ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO 2023 GWE**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi na fyddai'r Cynllun Archwilio yn cael ei gyflwyno i'r un cyfarfod â'r cyfrifon fel arfer ond oherwydd i gyfarfod diwethaf Cydbwyllgor GwE gael ei ohirio, fe'i gyflwynir yn y cyfarfod yma. Eglurwyd bod y cynllun yn edrych ychydig yn wahanol i'r rhai y mae Archwilio Cymru wedi'u paratoi yn y gorffennol a bod hyn o ganlyniad i newidiadau yn y safonau archwilio rhyngwladol. Atgoffwyd y Cyd-bwyllgor nad yw'r un archwiliad yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod y cyfrifon wedi'u datgan yn gywir a bod yr archwilwyr yn gweithio i lefel faterol.

Nodwyd bod y newidiadau yn y safonau archwilio rhyngwladol yn golygu bod archwilwyr yn gorfod gwneud llawer mwy o waith ar y risgiau rŵan a thynnwyd sylw at y risgiau sydd wedi'u trafod yn yr adroddiad. Eglurwyd bod risg o wrthwneud gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob corff ac felly'n bresennol ym mhob cynllun archwilio yng Nghymru ac nad oedd gan yr archwilwyr unrhyw reswm i gredu bod rheolwyr yn gwneud hyn yng nghyfrifon GwE. Nodwyd bod yr ail risg yn gyffredinol ei natur hefyd ac felly wedi ei gynnwys yn y mwyafrif o gynlluniau archwilio. Yn ogystal, esboniwyd bod y drydedd risg wedi'i chynnwys oherwydd addasiadau a wnaed i gyfrifon 22/23 yng nghyd-destun triniaeth arian grant.

Tynnwyd sylw at y ffi a godwyd am y gwaith gan nodi ei fod oddeutu 15% yn uwch na'r ffi llynedd a bod hynny oherwydd chwyddiant a newidiadau yn y trefniadau archwilio.

Holodd aelod am sefyllfa'r gronfa bensiwn ac a fyddai GwE mewn sefyllfa i dynnu arian allan o'r gronfa. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y gronfa yn endid ar wahân i unrhyw un o'r awdurdodau a'r Cyd-bwyllgor a'i bod yn cael ei hail-brisio bob 3 mlynedd. Eglurwyd bod yr ailbrisiad diweddaraf wedi digwydd yn Ebrill 2023 ac oherwydd bod lefel ariannu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn iach bu i gyfraniadau pob un o'r cyflogwyr yn y gronfa ostwng yn gyffredinol. Cadarnhawyd nad yw tynnu arian yn ôl yn rhan o bolisi Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r hyn sy'n cael ei wneud yn lle yw gostwng y cyfraniadau.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a chymeradwyo Cynllun Archwilio 2023.**

6. **CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad barn di-amod ar y cyfrifon eleni. Yn dilyn hynny, mae angen i GwE baratoi llythyr ymateb yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Byddai rhaid i Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor a'r Swyddog Cyllid arwyddo'r llythyr cynrychiolaeth a'i gyflwyno i'r archwilwyr.

Tynnwyd sylw at un cywiriad sydd wedi'i nodi yn adroddiad yr archwilwyr. Eglurwyd bod sefyllfa anarferol a digynsail wedi codi pan gyflwynwyd y cyfrifon drafft yn ôl ym mis Gorffennaf. Nodwyd bod y sefyllfa yn un dechnegol a digynsail ac nad oedd arweiniad clir am sut i ddelio gyda sefyllfa o'r fath. Yn sgil hyn, bu i'r swyddogion cyllid gysylltu gydag Archwilio Cymru am arweiniad ond cymerodd hi gryn dipyn o amser i'r archwilwyr weld beth oedd y driniaeth gywir. Eglurwyd felly bod y newid yn

deillio o'r cyfarwyddyd gwahanol a gafwyd yn ddiweddarach am sut i ddelio gyda'r sefyllfa a bod y mater wedi ei ddatrys bellach.

Cyfeiriwyd at baragraff chwech yr adroddiad sy'n nodi bod gwaith heb ei gwblhau. Cadarnhawyd bod y gwaith wedi'i gwblhau erbyn hyn ac nad oedd mater arall wedi codi. Esboniwyd bod y ffaith nad oedd unrhyw faterion eraill wedi codi yn adlewyrchiad da iawn o'r trefniadau sydd mewn lle i baratoi'r cyfrifon.

Diolchwyd i'r tîm yn Archwilio Cymru ac i'r tîm yn Adran Cyllid Cyngor Gwynedd am eu gwaith caled a'u cydweithrediad. Ategwyd bod y cyfrifon yn rhywbeth i ymfalchïo ynddynt a'u bod yn rhoi sicrwydd i'r aelodau bod y blaenoriaethau yn y lle cywir a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn briodol.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2022/23 ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cydbwyllgor.**

**7. CYLLIDEB GWE 2023/2024 ADOLYGIAD HYD AT DDIWEDD MEDI 2023**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro ei fod yn nodi'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'u bod yn rhagweld gorwariant net o £36,614 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Nodwyd mai'r prif bennawd sy'n gorwario yw gweithwyr a bod strwythur staffio presennol y gwasanaeth dan adolygiad ar hyn o bryd. Eglurwyd bod swyddi gwag o fewn y gwasanaeth ar hyn o bryd a bod hynny'n mynd ychydig o'r ffordd i leihau'r gwariant ond y byddai'n debygol i'r arbedion orfod dod o'r strwythur staffio.

Tynnwyd sylw at y tanwariant sy'n erbyn y gyllideb cludiant a nodwyd mai dyma'r flwyddyn ariannol llawn gyntaf ble mae lefelau teithio staff yn debycach i lefelau cyn y pandemig. Amlygwyd y byddai'n fuddiol ystyried a yw'r ffordd newydd o weithio yn arwain at leihau costau teithio yn y tymor hir ac y byddai'n fater i'w adolygu yn y dyfodol.

Eglurwyd bod gan GwE gronfa tanwariant yn sgil tanwariant mewn blynyddoedd blaenorol ac mai'r argymhelliad fyddai defnyddio'r gronfa hon er mwyn ariannu'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cynigodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y dylid ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Awgrymodd y byddai'r grŵp yn gallu adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor ar y gwahanol opsiynau gan roi cyfle i'r Cydbwyllgor drafod pa opsiwn fyddai orau wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

a) **Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.**
b) **Ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar yr opsiynau cyllidol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.**

## 8. CYNLLUN BUSNES GWE 2023/2024 – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1 & 2

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yr adroddiad gan nodi ei fod yn addas bod y cynllun busnes yn dilyn yr adroddiadau ar y gyllideb oherwydd bod y cynllunio gofalus sy'n digwydd wrth lunio'r cynllun busnes yn priodi gyda'r gofynion cyllidebol. Canolbwyntiwyd ar 'Amcan 1 – Gwella Ysgolion' yn y cyfarfod hwn ac eglurodd bod newid diwylliant wedi bod yn GwE dros y 5/6 mlynedd ddiwethaf. Nododd bod hyn yn dwyn ffrwyth bellach a bod ganddynt berthynas agos gyda staff yn yr ysgolion er mwyn gallu adnabod blaenoriaethau.

Aethpwyd ymlaen i nodi fod cylch arolygu'r chwe awdurdod wedi dod i ben a bod yr adran ar wella ysgolion wedi dod allan yn gryf. Eglurwyd nad oedd argymhelliad am sut y gellid gwella'r gwasanaeth gwella ysgolion. Yn sgil hyn, nodwyd bod angen parhau gyda'r natur gadarnhaol ac y byddai'n rhaid bwydo'r wybodaeth sy'n deillio o ganfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen i'r cam nesaf.

Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith bod y cyfnod diweddar wedi bod yn drwm o ran rheoleiddio ond bod yr adroddiadau yn gyson gadarnhaol. Golyga hyn bod sicrwydd allanol bod GwE yn mynd i'r cyfeiriad cywir a bod y cydweithio yn ddilyffethair. Pwysleisiwyd bod hyn yn allweddol i lwyddiant y gwasanaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd am yr adroddiad a chanmolwyd y gefnogaeth a'r holl waith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth.
- Gofynnwyd am allu rhannu'r adborth sy'n cael ei dderbyn ar draws y rhanbarth gyda'r Cydbwyllgor gan ei bod hi'n bwysig gweld sut mae ysgolion yn teimlo ar draws y rhanbarth fel y gellid cymharu gydag ysgolion o fewn yr awdurdodau unigol.
- Mynegwyd pryder am adolygu'r graddau cyflogau er nad oedd sylw i hyn yn yr adroddiad nac yn y Cynllun Busnes. Mewn ymateb, eglurwyd bod GwE fel gwasanaeth yn edrych am gysondeb a thegwch a'i bod hi'n debygol y byddai'n rhaid ail-strwythuro er mwyn sicrhau bod y strwythur priodol yn ei lle er mwyn symud ymlaen. Nodwyd bod hyn yn drafodaeth i godi gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen a fyddai'n yn edrych ar y sefyllfa gyllidol yn ei chyfanrwydd.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.**

## 9. ADOLYGU'R GOFRESTR RISG

Cyflwynwyd y gofrestr risg gan egluro ei bod yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu'n gyson a'i bod yn cael ei chyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt. Eglurwyd bod lefel y risg wedi cael ei uchafu gyda rhai risgiau. Nodwyd mai un risgiau i'r aelodau'n unigol ac i'r Cyd-bwyllgor yn ei gyfanrwydd yw sut mae sicrhau'r gefnogaeth briodol lefel ysgol gyda chyllideb fydd yn lleihau, a chyda llai o bobl i wneud y gwaith hynny. Nodwyd bod angen ystyried sut mae cael y model yn gywir a sicrhau cydbwysedd o ran beth mae'r gyllideb yn gallu gwneud. Ategwyd bod y risgiau unigol yn gallu arwain at risg gyfansawdd i enw da'r cynghorau unigol, y Cyd-bwyllgor ac ysgolion.

Ategwyd bod y ddogfen hon yn ddogfen fyw ac y byddai'n rhaid dod yn ôl ati, yn enwedig yng nghyd-destun y Grŵp Tasg a Gorffen gan y byddai'n rhaid ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad ar y darlun mawr.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Nodwyd y bydd cynnydd mewn arolygiadau Estyn y flwyddyn nesaf a mynegwyd pryder am yr holl amser sy'n cael ei ddefnyddio i fwydo gwahanol arolygwyr. Mynegwyd bod angen calendr arolygu fwy cytbwys er mwyn osgoi dyblygu a bod angen canolbwyntio ar wella'r gwasanaethau yn hytrach na bwydo arolygwyr.
- Eglurodd Cadeirydd y Cydbwyllgor ei bod wedi gofyn i Weinidog Addysg Cymru gynnal cyfarfod gyda holl Aelodau Cabinet Addysg awdurdodau lleol Cymru er mwyn trafod y gyllideb. Awgrymodd y gallai'r aelodau holi am y cynnydd mewn arolygiadau Estyn yn y cyfarfod hwnnw.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod tudalen goll yn y fersiwn Saesneg o'r adroddiad a gwnaethpwyd gais am gopi o'r dudalen honno.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr addasiadau diweddaraf i'r Gofrestr Risg.**

## 10. CEFNOGAETH DYSGU PROFFESIYNOL GWE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro fod y Cynnig Dysgu Proffesiynol yn cael ei ddarparu ar dair haen:

1. Y cynnig generig o raglenni dysgu proffesiynol neu'r hyfforddiant sydd ar gael i bawb ar draws y rhanbarth.
2. Y gefnogaeth dysgu broffesiynol sy'n hyrwyddo cydweithio mewn clystyrau cynradd ac yn y cynghreiriau uwchradd yn ogystal â'r rhwydweithiau dysgu proffesiynol sy'n cefnogi yn yr uwchradd, yn yr ysgolion arbennig ac yn y cynradd.
3. Y cynnig dysgu proffesiynol penodol sydd ar gael i bob ysgol yn unigol trwy eu cynllun cefnogaeth hwy.

Amlygwyd bod y gefnogaeth dysgu broffesiynol yn wahanol ac ar wahân i'r gwaith gwella ysgolion. Esboniwyd bod y cynnig dysgu proffesiynol generig yn eang a chynhwysfawr a'i fod yn deillio o'r blaenoriaethau mwyaf cyffredin ymhlith ysgolion y rhanbarth. Awgrymwyd y byddai modd dadlau bod y cynnig yn rhy eang ond amlygwyd bod y gwasanaeth yn gwasanaethu oddeutu 12,000 o staff dysgu a bod ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod rhywbeth sy'n gweddu i bawb.

Nodwyd bod angen gwneud yn siŵr fod y neges am hyfforddiant yn glir a bod angen cydweithio a chefnogi athrawon ac ymarferwyr. Yn ei dro, eglurwyd bod angen ymrwymiad gan y staff y byddent yn rhoi'r hyn maen nhw'n dysgu ar waith yn y dosbarth a bod y sesiynau hyfforddiant yn gyfle da i athrawon gydweithio a rhannu arferion da.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau'r sylwadau canlynol:

- Nododd yr aelodau eu bod yn gyfforddus ac yn fodlon gyda'r ddarpariaeth yn gyffredinol.
- Mynegwyd pryder am y modd y noda'r adroddiad nad oes goblygiadau ariannol yn deillio o'r cynnig gan ei bod hi'n amhosibl gwneud rhywbeth masnachol heb fuddsoddi arian ac adnoddau dynol.
- Yn gysylltiedig â hynny, nodwyd ei bod hi'n bwysig edrych y tu allan i'r ysgolion yng nghyd-destun creu incwm gan fod yr ysgolion dan bwysau ariannol enfawr yn barod.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu ac esblygu'r Cynnig Dysgu Proffesiynol i'r dyfodol.**

**11. YMGYNGHORIAD ESTYN AR DREFNIADAU AROLYGU AR GYFER GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU GWELLA YSGOLION**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan esbonio bod Estyn yn cyflwyno trefniadau arolygu newydd ar gyfer darparwyr addysg yng Nghymru o fis Medi 2024 ymlaen. Nodwyd bod Estyn wedi cynnal ymgynghoriad er mwyn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar sut orau y gall Estyn ddatblygu canllawiau a dulliau arolygu o 2024 ymlaen. Eglurwyd bod ymateb wedi'u lunio ar ran Cydbwyllgor GwE ar y 27ain o Dachwedd a'i fod yn cael ei gyflwyno heddiw er mwyn i'r cynnwys gael ei nodi'n ffurfiol.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi'n ffurfiol gynnwys ymateb y Cydbwyllgor i ymgynghoriad Estyn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11.35yb.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2023/24**<br><br>**Adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023 ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld gorwariant net o £59,531 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Rhagfyr 2023: gorwariant £46,173** *Medi 2023: gorwariant £51,984*

Fel y soniwyd yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Medi, roedd targed arbedion o £102,112 wedi ei osod ar GwE eleni, uwchlaw hyn roedd cynnydd mewn costau rhent o £13,125 i'w weld yn dilyn i GwE rentu mwy o ofod swyddfa yn swyddfa Penrallt, Caernarfon. Fe benderfynwyd i wneud toriad ar y gyllideb staffio yn y flwyddyn er mwyn cwrdd â rhain. Mae'r pennawd gweithwyr yn gorwario, ond fod y gorwariant yn cael ei leihau o ganlyniad i drosiant staff, yn bennaf, dwy swydd barhaol sydd heb eu llenwi.

2.2 **Cludiant:**

**Rhagfyr 2023: tanwariant (£16,495)** *Medi 2023: tanwariant (£15,370)*

Dim newid o sylwedd i'r hyn a adroddwyd yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Medi. Gyda ffyrdd newydd o weithio wedi ei ddatblygu yn ystod y cyfnod Covid, rhagwelwn y bydd hyn yn arwain at danwariant parhaol yn erbyn y gyllideb.

2.3 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

**Rhagfyr 2023: gorwariant £22,738** *Medi 2023: niwtral*

Rhagwelir gorwariant ar y pennawd hwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae costau adnewyddu offer T.G wedi taro GwE eleni, mae elfen o'r gronfa tanwariant wedi ei bennu i'r pwrpas yma, gyda GwE yn cyfrannu swm i'r gronfa yn flynyddol.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £298,632.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £239,102 ar ddiwedd 2023/24, yn dilyn cyllido'r gorwariant a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2023/24 – Adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllideb 2023/24 : Adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023

| | Cyllideb Adolygiad hyd at ddiwedd Medi £ | Addasiadau £ | Cyllideb Adolygiad hyd at ddiwedd Rhagyfr £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net at ddiwedd Rhagyfr £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | |
| Cyflogau | | | | | |
| - Rheolaeth, Comisiynu, Safonau a Gweinyddiaeth | 880,986 | 115,237 | 996,223 | 896,419 | (99,803) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 4,205,354 | (133,888) | 4,071,466 | 4,164,431 | 92,964 |
| - Staff ar Secondiad | 296,944 | (26,327) | 270,617 | 270,617 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (2,051,145) | 23,614 | (2,027,531) | (1,973,590) | 53,942 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 47,384 | | 47,384 | 46,454 | (930) |
| | | | | | |
| Adeilad | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 205,880 | | 205,880 | 212,108 | 6,228 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (65,458) | | (65,458) | (65,458) | 0 |
| | | | | | |
| Cludiant | | | | | |
| Costau Teithio | 152,722 | 373 | 153,095 | 136,600 | (16,495) |
| | | | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 81,199 | 18,354 | 99,553 | 122,291 | 22,738 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 18,354 | (18,354) | 0 | 0 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 12,744 | | 12,744 | 12,744 | 0 |
| | | | | | |
| Comisiynu | 321,211 | 350 | 321,561 | 321,561 | 0 |
| | | | | | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | |
| Cyfreithiol | 6,371 | | 6,371 | 6,371 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 10,924 | | 10,924 | 10,924 | 0 |
| Cyllid | 47,237 | | 47,237 | 47,237 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 52,245 | | 52,245 | 52,245 | 0 |
| | | | | | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 |
| | | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 9,856,982 | 102,614 | 9,959,596 | 9,959,596 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,145,400 | | 1,145,400 | 1,145,400 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | 100,000 | 101,529 | 1,529 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 186,067 | | 186,067 | 185,426 | (641) |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 658,964 | 226,152 | 885,116 | 885,116 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg (Siarter Iaith) | 207,720 | | 207,720 | 207,720 | 0 |
| Ein Llais Ni | 210,900 | (52,527) | 158,373 | 158,373 | 0 |
| Prosiect Taith | 0 | 31,056 | 31,056 | 31,056 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,058,932** | **286,654** | **17,345,586** | **17,405,117** | **59,531** |

| | Cyllideb Adolygiad hyd at ddiwedd Medi £ | Addasiadau £ | Cyllideb Adolygiad hyd at ddiwedd Rhagyfr £ | Incwm Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net at ddiwedd Rhagyfr £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (22/23: 10.14% - 23/24: 10.09%) | (443,336) | | (443,336) | (443,336) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (22/23: 17.59% - 23/24: 17.53%) | (770,232) | | (770,232) | (770,232) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (22/23: 15.26% - 23/24: 15.17%) | (666,666) | | (666,666) | (666,666) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (22/23: 15.48% - 23/24: 15.51%) | (681,484) | | (681,484) | (681,484) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (22/23: 22.67% - 23/24: 22.79%) | (1,001,422) | | (1,001,422) | (1,001,422) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (22/23: 18.86% - 23/24: 18.91%) | (831,077) | | (831,077) | (831,077) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (9,848,461) | (101,714) | (9,950,175) | (9,950,175) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,145,400) | | (1,145,400) | (1,145,400) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | (100,000) | (100,000) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (186,067) | | (186,067) | (186,067) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (658,964) | 118,152 | (540,812) | (540,812) | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,720) | | (207,720) | (207,720) | 0 |
| Ein Llais Ni | (210,900) | 52,527 | (158,373) | (158,373) | 0 |
| Prosiect Taith | 0 | (31,056) | (31,056) | (31,056) | 0 |
| Incwm Secondiadau | (296,944) | 26,327 | (270,617) | (270,617) | 0 |
| Incwm Arall | (10,260) | (6,586) | (16,846) | (16,846) | 0 |
| Cyfraniad o Gronfa (ANG) | 0 | (344,304) | (344,304) | (344,304) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,058,932)** | **(286,654)** | **(17,345,586)** | **(17,345,586)** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **59,531** | **59,531** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2023** | **(298,632)** |
| Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2023/24 | 59,531 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2024** | **(239,102)** |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**20 MAWRTH 2024**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE – Adroddiad monitro chwarter 3

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad monitro chwarter 3 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, a'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

**2.2** Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru.

**2.3** Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r Arweinydd Craidd.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 3

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol chwarter 3

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon na fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Atodiad 1





# Cynllun Busnes GwE

# 2023 – 2024

# Chwarter 3

# Adroddiad Cynnydd

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

CYNNWYS

1. **Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2023 – 2024**

    - **Y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau awdurdod lleol - Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 3**

2. **Atodiad: Data Rhanbarthol**

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2023 - 2024**

**Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 3**

| **AMCAN 1 – GWELLA YSGOLION**<br>**Blaenoriaethau:**<br>**1.1 - Sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi i werthuso yn fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol.**<br>**1.2 - Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau a dyheadau uchel i bawb.**<br>**1.3 - Cefnogi'r arweinyddiaeth mewn ysgolion i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn barod at eu gweithredu.**<br>**1.4 - Cryfhau dulliau amlasiantaethol o weithio gydag ysgolion sy'n destun pryder**<br>**1.5 - Cryfhau gweithio partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol.** |
|---|
| **GWELLA YSGOLION** |
| **Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant**<br>**Gwella ansawdd arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu a darpariaeth**<br>**Cryfhau dulliau gweithredu amlasiantaethol a'r 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder**<br>**Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol**<br>Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) Cyswllt yn parhau i gefnogi ysgolion gyda'u prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r gwaith hwn yn ddilyniant i'r gweithdai a gynhaliwyd i benaethiaid ac aelodau UDA. Mae'r adborth gan ysgolion yn dal yn galonogol, gyda llawer yn nodi eu bod wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o ofynion a disgwyliadau'r Canllaw Gwella Ysgolion (CGY) newydd. Fodd bynnag, mae peth anghysondeb o hyd yn ansawdd cynllunio gwelliant, ac yn benodol, miniogrwydd geiriad blaenoriaethau a deilliannau disgwyliedig. Ar gais ysgolion, mae'r YCG yn cefnogi arweinwyr i roi sylw i'r anghysondebau hyn.<br><br>Mae Cynlluniau Cymorth yn weithredol yn y mwyafrif o ysgolion. Er hynny, mae cyfyngiadau 'gweithredu yn brin o streic' wedi arwain at leiafrif o ysgolion cynradd ddim yn ymgysylltu.<br><br>Mae bron pob ysgol yn ymwneud ag ystod helaeth o brosesau gwerthuso effeithiol, ac mae'r farn arfarnol yn y rhan fwyaf o ysgolion yn drylwyr, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gynnydd disgyblion ac yn tynnu ar wybodaeth ansoddol a meintiol helaeth. Parheir i dargedu cymorth ychwanegol i ysgolion lle bo pryderon o hyd am rymuster prosesau a manwl gywirdeb canfyddiadau.<br><br>Mae'r mwyafrif helaeth o YCG Cyswllt yn cael eu cynnwys mewn ymarferion craffu yn eu hysgolion. Mae cyfyngiadau 'gweithredu yn brin o streic' wedi golygu nad yw lleiafrif o ysgolion cynradd wedi gwahodd eu YCG Cyswllt i gymryd rhan.<br><br>Mae gwaith yr YCG cyswllt ac agendâu rhwydweithiau/fforymau yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod prosesau gwerthuso ysgolion yn rhoi pwyslais canolog ar gynnydd a safonau dysgwyr. Mae'r maes hwn yn dal yn ffocws allweddol i waith yr YCG ac mae hefyd yn biler ganolog y cydweithio clwstwr/cynghrair.<br><br>Mae'r YCG Cyswllt yn cynnal ymweliadau i werthuso effaith a chynnydd mewn 4 maes allweddol: Arweinyddiaeth, Addysgu, Cwricwlwm a Darpariaeth a Safonau a Chynnydd. Bydd yr adroddiadau hyn yn bwydo Adroddiad Cynnydd Blynyddol yr ALl a rennir â'r pwyllgor craffu. I leiafrif o ysgolion cynradd, ni ellir cwblhau adroddiadau oherwydd cyfyngiadau 'gweithredu yn brin o streic'.<br><br>Mae llawer o ysgolion yn parhau i wneud defnydd effeithiol o waith ymgysylltu â chymheiriaid yn eu prosesau hunanwerthuso. Rhydd hyn gyfleoedd gwerthfawr i herio gwirionedd a chywirdeb canfyddiadau craffu. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd mewn ychydig o glystyrau/cynghreiriau. Mae pob clwstwr/cynghrair yn gweithio gyda'u |

YCG ar gynlluniau gweithredu gan edrych yn benodol ar gydweithio i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o safonau a chynnydd. Disgwylir i bob clwstwr/cynghrair arddangos arfer lwyddiannus yn y gynhadledd ranbarthol yn Venue Cymru yn ystod mis Mehefin 2024.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen o benaethiaid rhanbarthol a staff GwE wedi datblygu canllawiau a deunyddiau enghreifftiol i ysgolion ar y gofyniad i gyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau hunanarfarnu, cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol y Cynllun Gwella Ysgol (CGY), blaenoriaethau gwella lefel uchel ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Cynhaliwyd pedair sesiwn rithiol yn ystod oriau gwyll, ac roedd recordiadau ar gael i'r ysgolion hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Bydd hyn yn parhau yn ffocws allweddol yng ngwaith yr YCG am y ddau dymor nesaf.

Mae canllawiau gweithredol 2023-24 i Arweinwyr Craidd (AC) ac YCG Cyswllt wedi'u rhannu a'u trafod ag aelodau'r tîm er mwyn sicrhau gwell cysondeb mewn dulliau gweithredu ac ansawdd y gwaith. Mae'r Arweinwyr Craidd yn rhan weithredol o brosesau sicrhau ansawdd a sefydlwyd Is-Grŵp Sicrhau Ansawdd o fewn GwE i sicrhau trylwyredd a chysondeb gweithredu. Yn ogystal, gwahoddwyd sampl o YCG Cyswllt i rannu agweddau ar eu gwaith gyda UDA GwE.

Cryfhawyd prosesau a systemau i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder ac i adnabod yn gynnar ysgolion sy'n dirywio. Mae templedi diwygiedig i AC adrodd i grwpiau ansawdd ALl Lefel 1 a Lefel 2 yn weithredol. Nododd Swyddogion Awdurdodau Lleol, sydd yn ffurfio rhan o Grŵp Gorchwyl yr ALl/GwE, fod y templed adrodd wedi arwain at drafodaethau miniocach ynghylch pryderon ac ar gytuno ar y camau nesaf.

Mae'r proffil presennol ar gyfer pob sector yn nodi bod: 9 ysgol mewn categori statudol [3 uwchradd /6 cynradd]; 13 ysgol arall yn achosi pryder [0 uwchradd / 13 cynradd] a 44 ysgol sydd dan adolygiad [23 uwchradd / 21 cynradd].

**Cydweithio trwy glystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd**

Mae gweithio clwstwr a chynghrair yn gryfder ar draws rhanbarth GwE. Un o'r prif elfennau eleni yw'r pwyslais ar gefnogi arweinwyr ysgolion i baratoi at ofynion y Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (FfGY), a fydd yn statudol ym mis Medi 2024. Bu hyn yn gyfle i GwE gydweithio ag ysgolion i fireinio a chysoni amryw o brosesau, a gweithio tuag at leihau'r llwyth gwaith ar bob lefel yn y system.

Eleni, bydd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar sicrhau bod systemau a gweithdrefnau cadarn a phwrpasol ar waith i gydnabod y disgwyliadau a nodir yn y FfGY. Yn rhan o'r gofynion yn y FfGY, nodir yr angen i arweinwyr ysgolion fod yn dangos arweinyddiaeth ar draws y system a sut y cyflawnir hyn. Mae’r cyllid wedi’i ddosbarthu i glystyrau a chynghreiriau ac mae'n cael ei ddefnyddio i:

1. Gryfhau ymhellach ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws y system.
2. Datblygu sgiliau arweinwyr a gwella ymhellach y prosesau a'r systemau ar gyfer gwaith hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a mesur effaith yn effeithiol.
3. Hyrwyddo ymhellach gydweithio effeithiol, sy'n cynnwys adolygu gan gymheiriaid, ar lefel clwstwr a chynghrair er mwyn bodloni gofynion y FfGY.
4. Hyrwyddo Dysgu Proffesiynol - er enghraifft, clystyrau i adnabod ysgolion neu weithgareddau i rannu arferion llwyddiannus o fewn y clwstwr a'r tu hwnt.

**AMCAN 2 – CWRICWLWM AC ASESU**

**Blaenoriaethau:**

**2.1 - Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru**

**2.2 – Asesu, cynnydd ac atebolrwydd**

**DATBLYGU CWRICWLWM A RHWYDWEITHIAU (CiG)**

**Cefnogi efo dealltwriaeth a dulliau gweithio ysgolion ac UCD yng nghyd-destun y CiG, a thrwy gylch adolygu cwricwlwm parhaus o dan y CiG.**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol, gyda dysgu ac addysgu effeithiol a chyflawni'r Pedwar Diben yn ganolog i'w llwyddiant. Mae GwE wedi gofalu bod pob cymorth cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau ac egwyddorion Y Daith i 2022 a fframwaith diwygiedig y Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, darparwyd cymorth i bob ysgol a lleoliad fodloni'r gofynion statudol newydd o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae'n hanfodol bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau i gefnogi efo cyfnod pontio dysgwyr.

**Rhwydweithiau CiG Rhanbarthol**

I hwyluso deialog broffesiynol, darparodd GwE rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi datblygu, a rhannu, arfer effeithiol wrth ddadbacio potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a dyluniad cwricwlwm ysgol gyfan ac asesu, a hynny dan arweiniad ac adborth rheolaidd gan yr Athro Graham Donaldson. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi cefnogaeth effeithiol i arweinwyr baratoi at Y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru, ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn bodloni amrywiol anghenion ysgolion yn ystod y pandemig. Roedd gan y proffesiwn strwythur ar draws y rhanbarth ar gyfer rhannu a thrafod arferion sy'n dod i'r amlwg o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Rhannodd y rhwydweithiau rhanbarthol ffrwyth eu llafur ag ysgolion trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE, gan ddarparu cyfle i ymarferwyr raeadru negeseuon rhanbarthol a rhannu arferion lleol. Dan arweiniad y rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i arweinwyr ysgolion ar ddylunio cwricwlwm, asesu a chynnydd ac egwyddorion cynllunio. Mae ysgolion wedi nodi bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu Dyluniad Cwricwlwm lefel uchel i gynnwys gweledigaeth, egwyddorion ac ymgorffori'r pedwar diben. Mae pob ysgol wedi defnyddio'r gweithdai hyn, trwy naill ai recordiad byw neu drafodaethau diweddarach efo'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt.

Cynhaliwyd digwyddiad ar 22/06/2023 i ddathlu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws y system addysg. Roedd yn ddigwyddiad i arweinwyr ysgolion rhanbarthol, staff a rhanddeiliaid eraill. Cynhaliodd aelodau o'r Rhwydwaith CiG Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill weithdai a stondinau ar y cyd i rannu arferion, a chafwyd areithiau hefyd gan siaradwyr gwadd. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddathlu ac i rannu arferion, fel gall ymarferwyr gyfrannu at yr arferion gorau sy'n dod i'r amlwg o fewn y system ac ar draws y Rhanbarth, a datblygu gwell dealltwriaeth o sut i gyflawni'r CiG yn effeithiol.

Nododd nifer o'r rhai oedd yn bresennol eu bod wedi elwa'n fawr iawn ar ystod eang y ddarpariaeth. Yn ogystal, bu i bobl elwa ar y rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i gyfnewid profiadau ac adnoddau. Cafwyd adborth cadarnhaol a sylwadau adeiladol ar gyfer datblygiad pellach. Nododd bron yr holl ymatebwyr y camau nesaf yn dilyn y digwyddiad. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn nodi y byddant yn addasu/mireinio'r hyn maent eisoes yn ei wneud mewn ysgolion gan eu bod wedi dysgu mwy, neu wedi cael ysbrydoliaeth o'r syniadau yn yr amrywiol sesiynau. Bu'r gweithdai yn boblogaidd. Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi gweld enghreifftiau o ysgolion er mwyn datblygu eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar y cyflwyniadau, gan ystyried eu dulliau i'r dyfodol.

Mae'n fwriad esblygu ac adolygu'r strwythur hwn, a fydd yn sicrhau ein bod yn hwyluso ac yn datblygu Rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol sy'n bodloni'r galw a'r angen mewn ysgolion er mwyn annog cydweithio, arferion llwyddiannus a rhannu gwybodaeth ymhlith addysgwyr a staff. Mae’n fwriad gennym i barhau â’r gynhadledd flynyddol i rannu arferion sy’n dod i’r amlwg i dynnu sylw at waith effeithiol a llwyddiannus.

Mae GwE hefyd yn darparu cymorth gyda'r cwricwlwm newydd ar dair lefel:

1. Cymorth pwrpasol i ysgolion unigol.
2. Cymorth lleol trwy glystyrau, cynghreiriau a rhwydweithiau.
3. Cynnig Dysgu Proffesiynol cyffredin rhanbarthol.

**Rhwydweithiau CiG Trawsranbarthol**

Mae pob grŵp YCG MDaPh Rhanbarthol wedi cynnal diwrnod o hyfforddiant yn Hydref/Tachwedd 2023, gyda’r bwriad o gynnal sesiwn ddilynol yn Mehefin/Gorffennaf 2024. Mae adborth o’r sesiynau yma yn gyffredinol bositif:

- 94% yn cytuno/cytuno’n gryf bod y sesiynau wedi diwallu’r gofynion
- 87% yn nodi y byddent yn argymell y Dysgu Proffesiynol yma i eraill

- 85% yn nodi bod y sesiwn/sesiynau wedi rhoi sgiliau a gwybodaeth newydd iddynt i fod yn gymorth i arwain gwelliannau pellach.

Mae pob grŵp MDaPh hefyd yn cyfarfod o leiaf bob hanner tymor gyda'r grŵp Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn hwyluso'r cyfarfodydd hyn. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle hefyd i rannu arferion llwyddiannus o'r gwahanol Ranbarthau ar draws Cymru.

Mae bron pob un sydd wedi mynychu unrhyw sesiwn/sesiynau uchod wedi adnabod camau nesaf er mwyn datblygu eu darpariaeth ymhellach.

**Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL**

**Sicrhau cymorth gydag egwyddorion ac arferion dylunio cwricwlwm**
Mae ystod eang o adnoddau a chyflwyniadau wrth law i ymarferwyr ar wefan GwE er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol yn effeithiol yn eu lleoliad, er enghraifft:

- Dadbacio'r Ystyriaethau sy'n benodol i Ddisgyblaethau
- Cynnydd ar draws y disgyblaethau
- Arferion Datblygol yn y Celfyddydau Mynegiannol
- Arferion Datblygol - Celfyddydau Mynegiannol a MDaPh eraill

Llwythwyd rhagor o ddogfennau a thystiolaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg i'r adran Celfyddydau Mynegiannol ar wefan GwE i bob ymarferydd eu defnyddio.

Bydd gan bron pob ymarferydd a fydd wedi defnyddio'r adnoddau hyn wybodaeth a sgiliau cadarn, a phrofiadau posib i wireddu MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol yn eu lleoliadau. Byddant hefyd wedi magu mwy o hyder i gyflwyno'r Celfyddydau Mynegiannol trwy ddull amlddisgyblaethol.

Adnabuwyd 5 Ymarferydd Uwchradd a 3 Ymarferydd Ysgol Arbennig Uwchradd i fod yn rhan o ddau weithgor bach ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol. Cynhaliwyd cyfarfod â'r Ymarferwyr Uwchradd i amlinellu brîff y cydweithio, a rhoddwyd cyllid i bob ysgol. Maent oll wrthi'n anfon dogfennau perthnasol a thystiolaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg o safbwynt yr uchod fel proses barhaus i uwch lwytho ar wefan GwE i bob ymarferydd ar draws y rhanbarth gael mynediad atynt.

**Sefydlu Rhwydweithiau Celfyddydau Mynegiannol ar gais ysgolion/clystyrau/cynghreiriau/YCG/Arweinwyr Craidd.**
Cynhaliwyd dau gyfarfod yn nhymor yr Hydref 27/11/23 drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ar 28/11/23 drwy gyfrwng y Saesneg. Cafodd y rheiny a fu'n bresennol wybodaeth am negeseuon allweddol, adnoddau, cyfle i wneud cysylltiadau ag asiantaethau allanol (Cyngor Celfyddydau Cymru) a chydweithio, trafod a rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg.

**IECHYD A LLES**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UCD i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**
Darperir cymorth pwrpasol i ysgolion ar draws y rhanbarth, gan roi cymorth naill ai ar gyfer lles ysgol gyfan neu gwricwlwm MDaPh Iechyd a Lles.

Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio gyda'u hysgolion cyswllt i sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau, gyda phwyslais penodol ar baratoi at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru. Mae Rhwydweithiau newydd i hwyluso cydweithio, hyfforddiant a chymorth, rhannu negeseuon allweddol ac arferion da wrthi'n cael eu sefydlu yn ogystal.

Cynhaliwyd Rhwydwaith Arweinwyr Lles a Rhwydwaith Arweinwyr Iechyd a Lles ym mis Tachwedd. Wrth symud ymlaen, bydd gan bob rwydwaith ffocws neilltuol yn seiliedig ar ganfyddiadau holiaduron ar flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Lluniwyd newyddlen Iechyd a Lles a ddosbarthwyd ar draws pob ysgol yn y rhanbarth a staff yr Awdurdodau Lleol sydd yn gyfrifol am Iechyd a Lles. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am newyddlen Tymor yr Hydref. Rhennir newyddlen Tymor y Gwanwyn ym mis Chwefror â phob ysgol a staff ALl sydd yn gyfrifol am Iechyd a Lles.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Asesu ar gyfer Cynnydd mewn Iechyd a Lles' - cynhaliwyd ail gyfarfod, yn ffocysu ar asesu ysgol gyfan gyda phwyslais ar MDaPh Iechyd a Lles. Arweiniodd hyn at drafodaeth a rhagor o geisiadau am gydweithio Ysgol i Ysgol.

Astudiaethau Achos Cefnogi Dysgwyr Bregus - cynhaliwyd ymweliadau â'r ysgolion uwchradd sydd wedi cofrestru, gyda'r camau cyntaf wedi'u cwblhau yn barod i gofnodi'r daith fel podlediad ym mis Mawrth. Bydd yr adroddiad ysgrifenedig terfynol yn cynnwys sut y caiff effaith ei mesur.

**Y DYNIAETHAU**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UCD i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**
Datblygwyd holiaduron i athrawon Dyniaethau uwchradd i gasglu gwybodaeth am sut y mae ysgolion yn ymateb i'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Nododd yr holiadur hefyd yr arferion da ac anghenion dysgu proffesiynol athrawon wrth i ni baratoi ar gyfer y Gynhadledd Dyniaethau Uwchradd ar 19 Tachwedd 2023.

Ar 31 Rhagfyr 2023, cafwyd 40 ymateb gan athrawon ar draws y chwe awdurdod lleol. Roedd yr athrawon yn gyfrifol am addysgu Daearyddiaeth, Hanes a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Daeth 90% o'r ymatebion gan athrawon sydd â chyfrifoldeb am gynllunio ac addysgu cwricwlwm Blwyddyn 7 ar gyfer y Dyniaethau, neu gyfrifoldeb am ddisgyblaeth Dyniaethau. Dyma'r prif negeseuon:

- Mae Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol wedi'u cynnwys yng nghynllunio Blwyddyn 7 mewn 38% o ysgolion.
- Mae 45% o ysgolion yn cynnig cwricwlwm Dyniaethau integredig i ddisgyblion Blwyddyn 7, mae 40% yn addysgu gwersi disgyblaethol ac mae 15% yn cynnig cyfuniad o wersi disgyblaethol ac integredig.
- Mae llawer yn hyderus bod y Pedwar Diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu yn y Dyniaethau yn cael dylanwad ar eu gwaith cynllunio.
- Nododd rai athrawon eu bod wedi cyfrannu at drafodaethau lleol ar y Dyniaethau e.e. edrych ar lyfrau, dyddiau pontio, sgyrsiau rhagarweiniol.
- Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o athrawon y Dyniaethau o'r farn bod eu cynllunio disgyblaethol a'u darpariaeth ar gyfer profiadau dysgu gwerthfawr yn gweithio'n dda.
- Nid yw mwyafrif yr athrawon wedi cael unrhyw ddysgu proffesiynol i gefnogi eu gwaith cynllunio yn y Dyniaethau, a buasent yn hoffi cymorth pellach, e.e. cynllunio ar gyfer cynnydd yn y Dyniaethau, gweld enghreifftiau o gynlluniau gwaith, gweithio gyda phartneriaid allanol.
- O'r holiadur, darparodd chwe ysgol enghreifftiau o'u harferion cynnar yn y Gynhadledd Dyniaethau ar 16 Tachwedd 2023.

**Cynhadledd Cwricwlwm i Gymru (Dyniaethau) i Athrawon Uwchradd 16 Tachwedd 2023**
Bu'r gynhadledd yn gyfle i athrawon glywed siaradwyr gwadd yn siarad am Cynefin ac Amrywiaeth, gwrando ar arferion datblygol chwe ysgol yn y rhanbarth a chydweithio o fewn ALl a disgyblaethau.

Gweithgaredd Marchnad: Roedd partneriaid allanol o 10 asiantaeth yn bresennol. Rhoddwyd cyfle i athrawon drafod sut gallai'r asiantaethau hyn weithio gydag ysgolion i gyfoethogi'r cynnig cwricwlaidd.

Cynrychiolwyd 30 o ysgolion uwchradd y rhanbarth yn y gynhadledd.
Cwblhaodd 22 o'r 33 aelod oedd yn bresennol ffurflen werthuso lefel 1:

- Barnodd 100% fod y gynhadledd yn dda neu'n dda iawn

Rhoddodd yr aelodau sylwadau cadarnhaol ar

- Ansawdd y cyflwyniadau
- Y cyfle i rannu syniadau â chydweithwyr
- Clywed gan athrawon yn rhannu eu profiadau

Gofynnwyd i ysgolion gyfrannu at Rwydwaith Digidol y Dyniaethau. Ar hyn o bryd, mae 36 o athrawon yn rhan o'r rhwydwaith hwn.

**IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU (ILlCh)**

**SAESNEG A LLYTHRENNEDD**
**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UauCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau**

**perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**

**Cynradd ac Uwchradd/Cymraeg, Saesneg, ITM - cydweithio/pontio**

- ***Cariad@ddarllen / Reading for Pleasure (RfP)*** - Rhwydwaith parhaus yn sgil diwrnod 3 *Rhaglen Cariad@Ddarllen, Gwanwyn 2023.* Digwyddiad dychwelyd cyntaf: Ar 5 Rhagfyr, mynychodd 23 ysgol y cyfarfod rhwydwaith Cariad@Ddarllen dilynol, rhai gyda mwy nag un aelod. Dychwelwyd 17 holiadur, 8 ohonynt gan ysgolion yn dychwelyd ac yn rhoi manylder lefel 2 ar gynnydd ac effaith eu gwaith ers tymor y Gwanwyn 2023. Rhannodd ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg arferion effeithiol. Gwnaed amryw o ymholiadau newydd i fynd i'r cyfarfod rhwydwaith nesaf ar 13 Mawrth, o'r ddau sector a'r ddau gyfrwng iaith.
- **Cynnig DPP Trawsranbarthol ar gyfer ILlCh** - Cymerodd 4 ysgol ran yn y cyflwyniadau cenedlaethol traws-ranbarthol - rhannwyd cyflwyniadau diweddar ar Gynllunio ar gyfer Cynnydd, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Nigwyddiad Marchnad GwE ym mis Mehefin 2023, ar draws y MDaPh ILlCh (21.11.23).

**Cynradd:**
**Cymorth unigryw i ysgolion:** Bodlonwyd pob atgyfeiriad am gymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder/sydd angen gwneud gwelliannau penodol mewn llythrennedd a Saesneg, gyda chymorth naill ai wedi'i gwblhau neu'n parhau.

**Dysgu proffesiynol a chydweithio:**

- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg (efo sgiliau trawsgwricwlaidd) -** Digwyddiad sgiliau trawsgwricwlaidd tri diwrnod drwy Wyddoniaeth a Thechnoleg, carfan 1 - bu'r YCG Llythrennedd yn cymryd rhan yn niwrnod 1, ochr yn ochr â chydweithwyr rhifedd a digidol. Y bwriad yw corffori sgiliau llythrennedd mewn cyd-destun fel bod cynnydd mewn pynciau.
- **Llythrennedd Digidol -** Digwyddiad sgiliau llythrennedd a digidol tri diwrnod, carfan 1 - bu'r YCG Llythrennedd yn cymryd rhan yn niwrnod 1, ochr yn ochr â chydweithwyr uwchradd a digidol. Y bwriad yw ymestyn a gwella sgiliau llythrennedd a digidol cyd-destunol, yn targedu arweinwyr digidol a llythrennedd.
- **AagD ar gyfer Ysgrifennu 8-11 oed, Shirley Clarke -** un digwyddiad i gefnogi ymhellach AagD a datblygiadau ysgrifennu i ddysgwyr mewn dosbarthiadau ar gyfer 8-11 oed.
- **Digwyddiadau agored DP mewn ysgolion:** yn canolbwyntio ar **Sgiliau Llythrennedd Sylfaenol** mewn cyd-destun a **thaith Cariad@Ddarllen.** 26 ysgol yn bresennol.

**Uwchradd:**

- **Cymorth unigryw i ysgolion:** Bodlonwyd pob atgyfeiriad am gymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder/sydd angen gwneud gwelliannau penodol mewn llythrennedd a Saesneg, gyda chymorth naill ai wedi'i gwblhau neu'n parhau. Mae'r tîm wedi cefnogi ysgolion a oedd arnynt angen cymorth unigol gyda Saesneg a Llythrennedd.
- **Penaethiaid Saesneg 13.11.23 -** Cynhaliwyd rhwydwaith rhanbarthol ble roedd 33 o ysgolion yn bresennol. Lansiodd Shirley Clarke ein ffocws ar Asesu Ffurfiannol wedi iddi fod yn siaradwr gwadd yn y rhwydwaith ym mis Mehefin - cafwyd sylwadau calonogol o'r sesiwn. Rhoddodd 78% sgôr o 5/5 am y Dysgu Proffesiynol (DP). Dyfarnodd 19% sgôr o 4/5. Rhoddwyd cymorth unigryw dilynol i rai ysgolion. Cynhelir sesiwn ddilynol yn lleol ym mis Chwefror pan fydd cyfle i ysgolion ddatblygu grŵp gorchwyl a gorffen i gyfuno'r sesiynau a datblygu adnoddau i'w rhannu.
- **Arweinwyr Llythrennedd 17.10.23 -** Cynhaliwyd rhwydwaith rhanbarthol i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ble roedd 20 ysgol yn bresennol. Roedd ffocws y diwrnod ar ddatblygu strategaeth, cynnydd mewn sgiliau a datblygu gweithgorau. Dyfarnodd 77% o'r aelodau 5/5 i'r DP yn eu gwerthusiadau.
- Dyfarnodd 23% o'r aelodau 4/5 i'r DP yn eu gwerthusiadau. Mynegodd bob un o'r aelodau bod y DP wedi bod yn ddefnyddiol, a dewisodd bawb un o nodweddion y DP i lywio'r camau nesaf yn eu hysgolion, ar sail y llinyn llythrennedd y mae'r ysgol wedi'i flaenoriaethu i fod yn ffocws cychwynnol i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Bydd sesiwn monitro effaith yn cael ei chynnal ym mis Ionawr.

**Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD**

**Arweinyddiaeth**

Yn ystod Chwarter 3:

- cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg GwE ar gyfer yr arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith.
- cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg YCS GwE ar gyfer yr arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg iaith.
- yn ystod ac yn dilyn y cyfarfodydd rhwydwaith uchod trefnwyd i arweinwyr gyfarfod fesul Cynghrair yn ystod Chwarter 4. Bydd ffocws y cyfarfodydd hyn yn nwylo'r arweinwyr (mewn ymgynghoriad ag YCG Y Gymraeg) a'r pwyslais ar ddatblygu'r ddeialog broffesiynol rhwng Arweinwyr y Gymraeg ar draws y rhanbarth er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd.
- bu adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cefnogi ei gilydd trwy Rwydwaith Ysgolion Cefnogol a bydd gwaith y rhwydwaith hwn yn parhau yn ystod Chwarter 4.
- defnyddiwyd llwyfannau digidol Teams a Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd' a 'GwE - Y Gymraeg YCS - Uwchradd YCS' er mwyn rhannu adnoddau a pharhau i atgoffa arweinwyr o'r prif negeseuon yn dilyn y cyfarfodydd rhanbarthol uchod (gydag arweinwyr yn cyfrannu'n achlysurol at y llwyfannau hyn yn ogystal)
- defnyddiwyd cylchlythyr digidol 'O'r Stordy', sef cylchlythyr y Gymraeg, er mwyn rhannu gwybodaeth a negeseuon yn dilyn y cyfarfodydd uchod yn ogystal â hysbysu penaethiaid ac arweinwyr o ddigwyddiadau arfaethedig. Rhannwyd dau fersiwn o'r cylchlythyr 'O'r Stordy' yn ystod Chwarter 3, un ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith ac un arall â'r cynnwys wedi'i addasu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, a hwnnw'n ddwyieithog. Bwriedir rhannu fersiynau gwahanol o'r cylchlythyr digidol 'O'r Stordy' yn ystod Chwarter 4 yn ogystal.

**Gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol**

Yn ystod Chwarter 3:

- cydweithiwyd ag un Arweinydd y Gymraeg ar sesiynau ar gyfer digwyddiad cenedlaethol traws-rhanbarthol yn rhannu arferion llwyddiannus wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r sgil trawsieithyddol cyfryngu ac egwyddorion cynnydd yn y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn ystod Chwarter 3 a rhannwyd y sesiynau a'r adnoddau yn adran Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru, gwefan Consortia Addysg Cymru.
- cydweithiwyd ag Arweinwyr y Gymraeg dwy o ysgolion y rhanbarth ar drosglwyddo egwyddorion hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando rhaglen 'Ein Llais Ni' wrth baratoi dysgwyr ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Uned 3 (Llunyddiaeth). Cafwyd cyflwyniadau gan yr arweinwyr yn ystod cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol a rhannwyd yr adnoddau trwy greu'r wefan 'Ein Llais Ni - Dewch i ni drafod - Llunyddiaeth'. Datblygir y wefan hon ymhellach eto yn ystod Chwarter 4.
- rhannwyd yr adnoddau uchod yn draws-rhanbarthol yn ogystal a byddant yn cael eu cynnwys mewn gwefan o adnoddau gwreiddiol a grëwyd gan ysgolion ar draws Cymru er mwyn cefnogi addysgu'r newidiadau i fanyleb TGAU Llenyddiaeth Uned 3 (Llunyddiaeth). Rhennir adnoddau'r wefan draws-rhanbarthol hon ag Arweinwyr y Gymraeg i'w treialu yn ystod Chwarter 4.
- cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer ysgolion arweiniol Gwedd 2 prosiect 'Ein Llais Ni' ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg gan gydweithio â'r ysgolion uwchradd sy'n rhan o Wedd 2 ar lunio astudiaethau achos ac addasu adnoddau gwefan 'Ein Llais Ni' yn benodol ar gyfer hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando yn y Gymraeg o fewn haen disgrifiadau dysgu 'Y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg'. Bydd y cydweithio hwn yn parhau yn ystod Chwarter 4
- cydweithiwyd â Swyddogion Prosiect 'Ein Llais Ni' i gynnal hyfforddiant ar gyfer clwstwr o ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn annog y ddeialog broffesiynol ar draws sectorau a meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd mewn sgiliau siarad a gwrando ar hyd y continwwm. Bydd y cydweithio â'r clwstwr hwn yn parhau yn ystod Chwarter 4.
- gwahoddwyd Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwy iaith a chyfrwng Saesneg) i fynychu sesiwn hyfforddiant Shirley Clarke ar asesu ffurfiannol a drefnwyd ar gyfer Arweinwyr Saesneg y rhanbarth. Rhennir negeseuon pwysig yr hyfforddiant hwn yng nghyfarfod rhanbarthol nesaf Arweinwyr y Gymraeg y flwyddyn hon**.**
- bu pedair o ysgolion uwchradd y rhanbarth (cyfrwng Cymraeg, dwy iaith a chyfrwng Saesneg) a fu'n rhan o'r prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG' llynedd (prosiect a drefnwyd ar y cyd â'r YCG Ieithoedd

Rhyngwladol) yn parhau i gydweithio â YCG Ieithoedd Rhyngwladol ac YCG Y Gymraeg er mwyn mireinio ffrwyth eu llafur o ddylunio cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh i'w rannu'n rhanbarthol a chenedlaethol maes o law. Bydd y cydweithio hwn yn parhau yn ystod Chwarter 4.

- bu i Adrannau y Gymraeg tair ysgol uwchradd (cyfrwng Cymraeg, dwy iaith a chyfrwng Saesneg) gydweithio â Gyrfa Cymru er mwyn llunio adnoddau gwreiddiol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a sgiliau dwyieithrwydd mewn Ffair Yrfaoedd yn eu hysgolion yn dilyn y prosiect 'Llythrennedd y Gweithle'. Bydd cyfle i werthuso'r adnoddau hyn a llwyddiant y Ffair Yrfaoedd yn ystod Chwarter 4 gan gyflwyno cyfleodd i ysgolion eraill y rhanbarth blethu'r thema drawsgwricwlaidd 'Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith' i ddyluniad eu cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh.

**Llythrennedd trawsgwricwlaidd**

Yn ystod Chwarter 3:

- cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd GwE (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith).
- adeiladwyd a phoblogwyd ochr Gymraeg y wefan 'Strategaeth 6 Cham - Llythrennedd' er mwyn ei chreu yn wefan ddwyieithog gydag adnoddau gwreiddiol er mwyn cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu'r 'Strategaeth 6 Cham' yn llwyddiannus o safbwynt y Gymraeg yn eu hysgolion.
- crëwyd a threialwyd adnodd digidol rhyngweithiol er mwyn cynorthwyo Cydlynwyr Llythrennedd i fapio'r ddarpariaeth er mwyn targedu sgiliau Llythrennedd ar draws y cwricwlwm.
- cynhaliwyd cyfarfod y gweithgor y Gydlynwyr Llythrennedd sy'n rhan o'r prosiect 'Cau'r Blwch Darllen' er mwyn rhannu arferion llwyddiannus yn eu hysgolion, yn ogystal â'r hyfforddiant a roddwyd ganddynt yn dilyn mynychu cwrs Alex Quigley 'Closing the Reading Gap'. Bwriedir rhoi llwyfan rhanbarthol i'r cydlynwyr rhannu'r arferion llwyddiannus hyn wrth hyrwyddo uwch sgiliau darllen yn drawsgwricwlaidd trwy gyfres o weithdai digidol ar hyrwyddo uwch sgiliau darllen yn ystod Chwarter 4.
- trefnwyd diwrnodau hyfforddiant 'Cyfuno Sgiliau Digidol a Llythrennedd' - cydweithiwyd gydag YCG Cymhwysedd Digidol a Saesneg ar gyfres o ddiwrnodau o hyfforddiant i ymarferwyr roi sylw i gynnydd mewn sgiliau llythrennedd wrth gynllunio gweithgaredd yn hyrwyddo sgiliau digidol. Rhoddwyd sylw i hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando a sgiliau darllen ochr yn ochr â chynnydd mewn sgiliau digidol yn ystod y ddau ddiwrnod o hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod Chwarter 3.

**Datblygu'r Gymraeg**

Yn ystod Chwarter 3:

- cydweithiwyd â thair ysgol uwchradd (cyfrwng Saesneg a dwy iaith) ar draws y rhanbarth ar strategaeth er mwyn datblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion ochr yn ochr â'r Adnodd i gefnogi hunan-werthusiad o'r Gymraeg (Hwb) sy'n rhan o'r 'Adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella'. Bydd y cydweithio hwn yn parhau yn ystod Chwarter 4 gyda'r gwaith i'w rannu'n rhanbarthol maes o law.
- mynychwyd cyfarfodydd 'Fforwm Gweithgareddau'r Siarter Iaith' yn ystod Chwarter 3 er mwyn bod 'yn sŵn' y trafodaethau cenedlaethol ynghylch y modd y caiff gwobrau 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' eu hachredu yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio ag ysgolion arweiniol yn ystod Chwarter 4 er mwyn enghreifftio arferion llwyddiannus o ddatblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ochr yn ochr â'r datblygiadau cenedlaethol.

**IEITHOEDD RHYNGWLADOL (IRH) / ITM**

**Gofalu bod pob ysgol ac UCD yn cefnogi dysgwyr a chynllun gweithredu Dyfodol Byd-eang trwy fyfyrio ar bwysigrwydd Ieithoedd Rhyngwladol yn y Cwricwlwm i Gymru fel rhan o'u cynnig i bob dysgwr.**

Mae GwE yn parhau i hyrwyddo mentrau a digwyddiadau i godi proffil a phwysigrwydd IRh trwy Newyddlenni, Bwletin GwE, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol ac ati. Mae'r Tîm Dyfodol Byd-eang wedi cynnig cefnogaeth i ysgolion hyrwyddo ieithoedd yn newisiadau CA4 a CA5, ac mae digwyddiadau ar y gweill i fyfyrwyr CA3 a CA4 ym mis Rhagfyr a mis Chwefror. Cynhyrchwyd dogfennau i ysgolion, ac mae nifer da wedi rhannu strategaethau ag ysgolion eraill trwy ddogfen ddigidol gyffredin. Mae GwE wedi cysylltu â Phencampwyr Iaith Fusnes i gynnig dyddiau iaith i Flwyddyn 9 a Blynyddoedd 10/11. Mae cofrestru'n mynd rhagddo gydag ysgolion ar draws y rhanbarth yn ymgeisio. Maent yn ymarferol ac yn gysylltiedig â byd gwaith, a'r gobaith yw y byddant yn codi cymhelliant a'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Defnyddiodd 91 o ddisgyblion blwyddyn 9 o 8 ysgol uwchradd eu sgiliau iaith a'u sgiliau cyfannol i weithio yn effeithlon mewn tîm i ddylunio, adeiladu, hyrwyddo

a gwerthu eu gwŷl gerddorol eu hunain. Roedd pob disgybl yn cyfrannu'n llawn ac yn gwneud defnydd rhagorol o'u gwybodaeth a'u sgiliau mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg gan gyflawni canlyniadau gwirioneddol syfrdanol. Dyfarnwyd gwobrau i fyfyrwyr unigol a thîm llawn. Bu'r ddau ddiwrnod yn llwyddiannus, gyda 95% o'r myfyrwyr yn dymuno cymryd rhan mewn diwrnod menter arall tebyg. Mae'r arolwg myfyrwyr yn amlinellu'n glir yr effaith gadarnhaol a gaiff profiadau dysgu fel hyn ar farn myfyrwyr am ieithoedd a'u defnydd yn y byd go iawn. Mae'n galonogol gweld bod mwyafrif y 90 o fyfyrwyr yn gweld pwysigrwydd ieithoedd rhyngwladol, a bod rhagor o fyfyrwyr bellach yn ystyried astudio iaith ar lefel TGAU yn dilyn y digwyddiad. Mae rhagor o fanylion am y digwyddiad ar gael ynghyd â dadansoddiad o'r arolwg.

Rhannwyd digwyddiadau a syniadau am Ddiwrnod Ewropeaidd Ieithoedd (26/9/23) ag ysgolion er mwyn ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd, a dathlodd ysgolion yr wythnos/diwrnod gydag amrywiol ddigwyddiadau.

Rhennir gwybodaeth ag Arweinwyr Craidd ac YCG GwE yn rheolaidd, a cynhelir trafodaethau ar y ffyrdd gorau o gyfathrebu ac ymgysylltu â'r gynulleidfa ehangach. Mae pob ysgol gynradd yn gwybod am y negeseuon craidd am le IRh yn y cwricwlwm, ac mae ysgolion cynradd newydd yn mynd i'r afael â chynnig D-Be GwE a'r cymorth sydd ar gael. Canlyniad hyn yw bod staff yn fwy hyderus wrth gynllunio a chyflwyno cwricwlwm ar gyfer IRh ar lawr y dosbarth.

Mae GwE yn parhau i gydweithio â chyfarwyddwr rhaglen AGA CaBan i gefnogi datblygiad IRh yn y rhaglen newydd o fis Medi 2023, gydag egwyddorion a methodoleg Dysgu ac Addysgu IRh i'w corffori yn y rhaglen AGA newydd yn y cynradd.

Mae gwaith yn parhau ar roi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau i'n hymarferwyr fedru cynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol. Mae GwE yn parhau i roi cymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth i baratoi at y Cwricwlwm i Gymru trwy sicrhau cymorth ysgol-i-ysgol ac ymateb i geisiadau gan ysgolion/clystyrau am gefnogaeth benodol i ddatblygu darpariaeth IRh. Rhoddwyd cymorth pwrpasol i nifer o ysgolion: er mwyn sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth i gyflwyno dysgu ac addysgu pwrpasol ac effeithiol yng nghyd-destun IRh. Parheir i ddarparu cymorth ysgol i ysgol ar draws y rhanbarth yn ôl y gofyn.

**Gofalu bod pob ysgol ac UCD yn cefnogi dysgwyr a chynllun gweithredu Dyfodol Byd-eang trwy gynllunio ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ar sail y nodau a'r camau gweithredu a osodir allan yn y Cynllun Gweithredu Dyfodol Byd-eang (DBe) cytunedig.**

Mae GwE yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu arferion a negeseuon am bwysigrwydd amlieithrwydd trwy waith clwstwr, cyswllt â Phenaethiaid, Arweinwyr Craidd ac YCG a dolenni at adnoddau defnyddiol ac amrywiol lwyfannau eraill. Rhennir dolenni at adnoddau, ymchwil a phecynnau cymorth defnyddiol yn y Newyddlenni.

Rhoddwyd cefnogaeth i'r rhwydwaith ILlCh rhanbarthol gyda pharatoadau at Farchnad GwE ar 22/6/2023. Rhannwyd enghreifftiau o ysgolion sydd yn ymateb i Dyfodol Byd-eang a lle bo arferion arloesol ac ymateb dda i weledigaeth y CiG. Croesawyd yr enghreifftiau hyn.

Sanako Connect: Uwchradd - yn dilyn sesiwn gwybodaeth a chyflwyno'r cynnig a'r disgwyliadau, cytunodd 15 ysgol uwchradd i arbrofi efo defnyddio Sanako Connect (hwb addysgu iaith ar y we i ysgolion) a rhannu eu profiadau. Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant yn fyw. Rhannwyd recordiadau o'r sesiynau hyfforddiant a chanllaw cychwynnol i ddefnyddwyr. Mae ysgolion yn mynd i'r afael yn dda â'r rhaglen ac mae sesiynau syrjeri dewisol ar gael os oes angen. Darparwyd cymorth a hyfforddiant ategol pwrpasol ar alw, a fu'n effeithiol iawn wrth annog aelodau staff eraill i ddefnyddio Sanako yn eu harfer a chynnal momentwm. Canlyniad hyn yw nifer o ysgolion yn treialu addysgeg arloesol yn defnyddio technoleg, ac yn gwerthuso ac yn rhannu arferion ac effaith. Mae'r 15 ysgol beilot yn parhau i arbrofi gyda Sanako ac yn datblygu eu harferion i weddu i gyd-destun yr ysgol, y dysgwyr a'r llwyth gwaith.

Mae ysgolion wedi cwblhau adolygiad cyflym cyntaf ym mis Gorffennaf i fonitro cynnydd a'u helpu i adnabod y camau nesaf a llywio cefnogaeth bellach. Rhannwyd canlyniadau a'u trafod â thîm cymorth Sanako. Mae sesiynau hyfforddiant a chymorth tymor yr hydref wedi'u cynllunio er mwyn ymateb yn y ffordd orau i'r dadansoddiad o'r arolwg a rhoi'r wybodaeth a'r cymorth perthnasol i ysgolion.

Adolygiad Cyflym Cynradd (Awdit 1): 50 ymateb yn yr hanner tymor cyntaf.
Dengys yr ymateb cychwynnol hwn agwedd gadarnhaol at gyflwyno IRh gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn croesawu'r diwygio. Mae mwyafrif yr ysgolion bellach yn gynnar iawn yn eu taith ac mae angen mwy o gymorth arnynt i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach. Tynna lawer sylw at yr effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Mae'r darlun hwn yn dangos y sgyrsiau efo athrawon ac ysgolion. Anfonir arolwg i ysgolion eto yn y flwyddyn newydd.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant 2 ar 25/9/23. Roedd yn effeithiol iawn ac roedd nifer da yn bresennol. Mae ystod o arferion ar waith, a rhannwyd syniadau ac adnoddau newydd i'w datblygu ymhellach. Rhannwyd recordiad o'r cyfarfod â phob ysgol beilot er gwybodaeth, i'w rannu ag aelodau staff ac/neu i ddal i fyny.

Gwahoddwyd adrannau'r Gymraeg a Saesneg i ymuno â'r prosiect er mwyn annog cydweithio a chysoni dulliau o ddatblygu sgiliau llafaredd o fewn ILlCh. Cynhelir sesiwn hyfforddiant gydag adnoddau Cymraeg a Saesneg penodol ym mis Hydref. Mae 7 ysgol wedi dangos diddordeb.

**Cyfarfodydd Rhwydwaith IRh**
Mae Tîm DBe GwE wedi trefnu ac arwain y digwyddiadau hyd yma yn llwyddiannus. Mae pob arweinydd yn parhau i gefnogi ysgolion a chlystyrau, fel y bo angen. Trefnwyd a chynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith ym mis Tachwedd, fesul sector.

Uwchradd: cafwyd sylwadau calonogol iawn gan yr aelodau yn ystod y cyfarfod, a nodwyd eu bod yn teimlo bod cefnogaeth iddynt gyda'u harferion a'u dealltwriaeth o farcio ac adborth. Buont gyfrannu at drafodaethau i lywio agendâu cyfarfodydd maes o law. Dymuna bob aelod gael rhagor o gyfarfodydd.

Cyfarfodydd fforymau cynradd: yn ôl sylwadau yr aelodau yn y cyfarfodydd, croesewir y cyfarfodydd a'r dymuniad yw cael mwy ohonynt. Effaith: rhannu arferion da, sicrwydd yn eu harferion a'u syniadau i ddatblygu ymhellach, dealltwriaeth well o ofynion IRh a disgwyliadau yn y cynradd, rhannu adnoddau, rhwydweithio a chefnogi.

**Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer 2023-2024**
Mae GwE yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ysgolion ddatblygu eu harferion a'u harbenigedd trwy ddyddiau hyfforddiant, gweminarau a chyrsiau ar-lein. Mae tîm cynradd ac uwchradd DBe wedi cyfarfod i gytuno ar y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer 2023-24. Cynhaliwyd gweminarau/hyfforddiant amrywiol, sef:

- Creu ar Draws Ieithoedd - datblygu prosiect: Dull ysgrifennu creadigol a gweithio efo beirdd rhyngwladol trwy brosiect Zoe Skoulding (Uwchradd). Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mai i 15 ysgol (daeth 16 athro i'r gweithdy). Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol. Cafwyd gweithdai dan arweiniad Yr Athro Zoë Skoulding, bardd a chyfieithydd o Brifysgol Bangor, artistiaid rhyngddisgyblaethol o'r DU a Chile sydd yn cydweithio dan yr enw 'montenegrofisher', Dr Jérôme Melançon, bardd o Brifysgol Regina yn nhalaith ddwyieithog Saskatchewan yn Canada a'r bardd a'r ymchwilydd Dr Andrés Anwandter, a ddaw o Chile yn wreiddiol ond sydd bellach yn byw yn y DU. Yn dilyn y gweithdy hwn cynhaliwyd gweithdy arall i 30 myfyriwr dan arweiniad Zoe Skoulding a montenegrofisher yn canolbwyntio ar amlieithrwydd creadigol yng nghyd-destun y byd naturiol. Mae gwaith ar hyrwyddo'r prosiect a chreu cyfleoedd i archwilio yn parhau, gydag ysgolion yn cynnig cyfleoedd newydd i ddysgwyr archwilio a defnyddio eu hieithoedd yn greadigol a thrwy brofiadau cyfoethog.
- 17/07/24 Digwyddiad i ddisgyblion: Amlieithrwydd creadigol yng nghyd-destun y byd naturiol. Church Island - Porthaethwy. Fe wnaeth 30 disgybl (2 ysgol) gymryd rhan mewn 2 weithdy yn yr awyr agored. Montenegrofisher: archwilio ieithoedd a synau'r traeth. Zoe Skoulding: archwilio ieithoedd coed, yn defnyddio cerdd Ffrangeg wedi'i chyfieithu i Saesneg. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan athrawon a myfyrwyr. Mae awch am gyfleoedd o'r fath. Canlyniad hyn yw bod nifer o ysgolion yn datblygu ac yn cynnig dulliau dysgu ac addysgu arloesol o fewn ILlCh, a disgyblion yn rhan o weithgareddau creadigol cyfoethog.
- 18/04/23: Dull lluosieithog integredig o Ddysgu Iaith (IPA): 'Research-based Classroom Practices' Dr Caterina Sugrañes Ernest (FPCEE-Blanquerna, Prifysgol Ramon Llull), Dr Maria González-Davies (FPCEE-Blanquerna, Prifysgol Ramon Llull).
- 29/06/23: 'Her i Bawb' Mark Burns

- Cyrsiau uwchsgilio Ffrangeg a Sbaeneg ar-lein i ymarferwyr ysgolion cynradd sy'n ddechreuwyr - Power Language. Mae'r diddordeb a nifer y ceisiadau yn tyfu: 56 athro hyd yma.
- Adnoddau cynradd: Tanysgrifiad a chymorth Power Language: er mis Mawrth 2022 mae 148 ysgol yn elwa ar y tanysgrifiad tair blynedd a ariennir yn llawn.
- Cynradd: Dilyniant o ddiwrnod Power Language. Cafodd 8 ysgol gynradd ddolen i gysylltu ag ysgolion partner yn Sbaen.
- Cynnig digwyddiadau rhannu: 2/3 digwyddiad - gan gynnwys Marchnad CiG GwE a Rhwydwaith Rhanbarthol. Mae gwefan Google newydd wedi'i chreu ar gyfer rhannu'r gwaith.
- Cwrs Hyfforddiant Trochi, wedi'i ariannu, yn Ffrainc neu Sbaen: bu'r cais am grant Taith yn llwyddiannus: un wythnos o hyfforddiant trochi mewn iaith a diwylliant, a fydd yn arwain at uwchsgilio nifer o athrawon cynradd ac uwchradd i addysgu IRh. Mae trefniadau yn mynd rhagddynt. Recriwtiwyd 30 o athrawon o'r ddau sector. Bydd hyn yn arwain at uwch sgilio nifer o athrawon o'r cynradd a'r uwchradd i addysgu IRh a meithrin hyder ac arbenigedd wrth ddysgu ac addysgu IRh. Byddant hefyd yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol yn eu lleoliadau eu hunain ac yn rhyngwladoli rhanbarth GwE ac yn rhannu ar draws y rhanbarth i ddatblygu ymhellach arferion, hyder a darpariaeth ar gyfer IRh o fewn ILlCh ac ar draws sectorau.
- Parhau i hyrwyddo digwyddiadau gan sefydliadau a helpu ysgolion i gymryd rhan yn y rhain h.y. cystadleuaeth Gwobr Anthea Bell, yr Institut francais:Fideo pop/Joutes oratoires; cynnig y Goethe Institute.
- Cysylltiadau rhyngwladol ag ysgolion partner
- Beth am Astudio Ieithoedd - Prifysgol Bangor
- Mae nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd pwrpasol neu ranbarthol hefyd yn cael eu datblygu a'u hybu trwy gydweithio â phartneriaid a sefydliadau sy'n hyrwyddo ieithoedd.
- Partneriaeth Cymru-Llydaw: Yn dilyn cyfarfodydd gyda'n cyd-weithwyr yn yr Académie de Rennes (Llydaw), cafodd ysgolion cynradd ac uwchradd gyfle i wneud cais am bartneriaeth gydag ysgol yn un o 4 rhan y rhanbarth yn Ffrainc. Anfonwyd gwybodaeth lawn i bob ysgol. Mae cofrestru yn mynd rhagddo.
- Partneriaeth Cymru-Malaga - Yn dilyn diwrnod hyfforddiant Power Language y llynedd, cafodd ysgolion cynradd oedd â diddordeb mewn partneriaeth gydag ysgol yn Sbaen ddolenni at ysgolion partner penodol yn Malaga.
- Mentora ITM: Bydd 17 ysgol yn cymryd rhan. Rhoddwyd blaenoriaeth i rai ysgolion nad oeddent wedi gallu cymryd rhan yn flaenorol. Datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ieithoedd, pwysigrwydd ieithoedd a chodi dyheadau myfyrwyr.
- Roedd 14 o athrawon cynradd yn bresennol yn y hyfforddiant Cerdd Iaith ar-lein - sef cwrs cynradd ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.
- Shirley Clarke: Strategaethau asesu ar gyfer dysgu i fonitro a chefnogi cynnydd dysgwyr. Gwahoddwyd athrawon ITM i fynychu. Bu'r sesiwn yn ddefnyddiol iawn ac yn berthnasol i'w hanghenion. Cafwyd cyfle am drafodaeth ddilynol yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith ITM.

Mae nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd pwrpasol neu ranbarthol hefyd yn cael eu datblygu a'u hybu trwy gydweithio â phartneriaid a sefydliadau sy'n hyrwyddo ieithoedd. Hysbysebir pob cyfle trwy'r amrywiol sianeli cyfathrebu (newyddlenni, y Bwletin, negeseuon e-bost, cyfarfodydd rhwydwaith, ysgolion arweiniol).

Rhennir arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ag ysgolion, a datblygir dulliau lluosieithog ymhellach mewn ysgolion. Gwelir bod cysylltiadau a chynllunio ar draws ILlCh ac ar draws sectorau yn datblygu ac yn gwella.

Rhennir arferion sy'n dod i'r amlwg a'u dathlu, a chaiff staff ac ysgolion gyfle i fyfyrio ar eu harferion a'u hadolygu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i staff ac athrawon gydweithio, rhannu a datblygu ansawdd y Dysgu a'r Addysgu, adnabod anghenion a chytuno ar y gefnogaeth orau.

**Tasgau Asesu AATT *(Articulated Assessment Transfer Tasks)* wrth gynllunio cwricwlwm**
Datblygu prosiect AATT - ar y cyd â'r Athro Jennifer Eddy (Athro Cyswllt a Chyfarwyddwr y Rhaglen World Language Education ym Mhrifysgol Efrog Newydd, UDA). Mae ysgolion y prosiect a GwE wrthi'n datblygu ac yn casglu'r holl ddogfennau a'r wybodaeth berthnasol i'w cyflwyno ar gyfer eu cyhoeddi. Er mwyn datblygu ymhellach ar y broses ddylunio hon, a rhoi cyfle i athrawon gydweithio, dylunio a gweithredu enghreifftiau newydd, sefydlwyd gweithgor newydd o 6/7 ymarferwr.

**Adnoddau cynradd: Tanysgrifiad a chymorth Power Language.**

Ar hyn o bryd mae gan 142 ysgol danysgrifiad a ariennir yn llawn. Mae'r cynnig am danysgrifiad blwyddyn yn dal ar agor gan bod ysgolion newydd yn ymgeisio. Mae nifer o ysgolion cynradd yn defnyddio'r adnoddau Power Language yn effeithiol i ateb anghenion eu lleoliad a'u cyd-destun, ac mae staff yn fwy hyderus a medrus wrth ddysgu ac addysgu IRh.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Darparu cymorth i Arweinwyr Mathemateg a Rhifedd, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain.**

**Cynradd ac Uwchradd**

Parhawyd i ddarparu cymorth pwrpasol i'r ysgolion yn y rhanbarth y bernir sydd 'mewn risg' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at well arweinyddiaeth yng nghyd-destun mathemateg a rhifedd a gwell dealltwriaeth o sut y mae datblygu cynllun rhifedd strategol ysgol gyfan yn cefnogi rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd a niferus ag ysgolion wedi golygu hyfforddi staff, datblygu strategaeth rifedd, rhoi cymorth gyda chynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr, tracio a defnyddio hyn i symud dysgwyr ymlaen a llywio eu darpariaeth, monitro effaith y gweithgareddau hyd yma ac adnabod a rhannu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion staff/dysgwyr y lleoliad wrth iddynt weithredu a symud tuag at ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.

**Cynradd**

Trefnwyd cyfarfodydd Rhifedd tymor y Gwanwyn gyda ffocws penodol ar gefnogi arweinwyr i ddatblygu'r ddarpariaeth rifedd a sicrhau parhad a chynnydd yn eu hysgolion.

**Uwchradd**

**Cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Benaethiaid Mathemateg**

Daeth 46 o Benaethiaid Mathemateg i'r rhwydweithiau lleol, a gwelwyd cynnydd yn eu dealltwriaeth a'u hyder o'r hyn mae'n ei olygu i ddadansoddi canlyniadau TGAU yn effeithiol a defnyddio hyn i gynllunio. Cryfhawyd eu dealltwriaeth o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol, a'u dealltwriaeth o gynnydd ac asesu o fewn y CiG. Roedd cyfleoedd yn y cyfarfodydd hefyd i arweinwyr Mathemateg rannu syniadau ac arferion da/cynnar mewn perthynas â'u datblygiadau CiG. Nododd 100% o'r aelodau fod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ar y ffurflen werthuso (83% o'r aelodau yn nodi defnyddiol iawn, 17% yn nodi defnyddiol).

**Cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Arweinwyr Rhifedd**

Roedd 44 o Arweinwyr Rhifedd yn bresennol yn y rhwydweithiau lleol, ac o ganlyniad daethant i ddeall yn well sut i ddefnyddio'r asesiadau personol yn effeithiol a chryfhau eu dealltwriaeth o gynllunio'n strategol ar gyfer Rhifedd. Rhannodd Arweinwyr Rhifedd eu cynnydd gyda chynllunio'n strategol a chawsant fwy o syniadau a chymorth ar gyfer eu camau nesaf. Nododd 100% o'r aelodau fod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ar y ffurflen werthuso (81% o'r aelodau yn nodi defnyddiol iawn, 19% yn nodi defnyddiol).

**Gwella a chyfoethogi dysgu ac addysgu Mathemateg.**

**Cynradd ac Uwchradd**

Mae'r tîm wedi rhoi sylw i geisiadau penodol gan ysgolion i gefnogi athrawon/adrannau mathemateg efo dysgu ac addysgu. O ganlyniad, mae athrawon/adrannau mathemateg wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar ddeall dulliau addysgegol mathemategol, gan gynnwys datblygu'r hyfedreddau, gwahaniaethu a chwestiynu effeithiol.

Cafodd YCG Cynradd ac Uwchradd geisiadau am gymorth clwstwr penodol i ddatblygu trefniadau pontio effeithiol trwy sicrhau dealltwriaeth gyffredin rhwng ysgolion o'r continwwm dysgu o fewn y MDaPh Mathemateg a Rhifedd.

Cwblhawyd cynlluniau ar gyfer gweithdy Cynradd/Uwchradd rhanbarthol. Cynhelir y gweithdy ar 1 Chwefror. Amcanion y gweithdy yw hyrwyddo cydweithio ar draws y continwwm, datblygu addysgeg effeithiol a sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth. Mae 235 o ymarferwyr ar draws pob sector wedi cofrestru ar y gweithdy.

**Uwchradd**

Darparwyd ceisiadau unigryw gan ysgolion i gefnogi athrawon unigol gan y tîm, a pharhau mae'r cymorth. Mae athrawon yn treialu strategaethau, sy'n arwain at gynllunio mwy effeithiol.

Cynhaliwyd Diwrnod 1 rhaglen 'Mathematics Education Innovation' ym mis Medi 2023, gyda 29 yn mynychu o'r rhanbarth. Cynhaliwyd ail ddiwrnod y rhaglen yn ogystal â'r 3 sesiwn ar-lein, yn ystod Chwarter 3. Amcanion y gweithdy oedd datblygu hyder a medrau athrawon yn y pwnc hyd at, ac yn cynnwys, haen ganolradd TGAU, dysgu mwy am egwyddorion addysgeg effeithiol wrth addysgu mathemateg, defnyddio'r egwyddorion hyn yn y dosbarth ynghyd â strategaethau ac adnoddau ymarferol, darparu cyfleoedd i fyfyrio ar greu amgylchedd effeithiol ac atyniadol ar gyfer dysgu mathemateg. Pan ofynnwyd ar y ffurflen werthuso pa mor werthfawr fu'r rhaglen, cafwyd sgôr 4/5 neu 5/5 gan 100% o'r aelodau am y dyddiau llawn 'wyneb yn wyneb, a sgôr o 5/5 gan 68%. Ni farnwyd bod y sesiynau ar-lein yr un mor effeithiol - nododd 60% o'r aelodau fod y rhain yn 4/5 neu'n 5/5, a barnodd 40% fod y sesiynau yn 3/5. Nodwyd anhawster trafod a chydweithio ar lwyfan ar-lein fel rheswm pam nad oedd y sesiynau mor effeithiol.

**Cynradd**
Cafodd clystyrau o ysgolion rhanbarthol gymorth clwstwr penodol gyda chynnwys y MDaPh Mathemateg a Rhifedd newydd, gyda ffocws penodol ar ddatblygu dealltwriaeth o'r 5 hyfedredd mathemategol. Noda bron pob arfarniad bod y sesiynau datblygiad proffesiynol hyn wedi bod yn werthfawr.

**Gwella a chyfoethogi dysgu ac addysgu rhifedd ar draws y cwricwlwm (fel sgil drawsgwricwlaidd).**
**Cynradd**
Mae'r YCG Mathemateg a Rhifedd wedi darparu cymorth pwrpasol i athrawon/arweinwyr rhifedd ar ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn dilyn ceisiadau gan YCG ysgolion. Bu ffocws y cymorth ar sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm yn caniatáu ar gyfer cymhwyso rhifedd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, a helpu dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm ehangach. Mae'r YCG wedi rhoi cefnogaeth i arweinwyr rhifedd gyda gweithdrefnau sicrhau ansawdd i adnabod cryfderau a meysydd penodol ar gyfer gwelliant, sydd wedi gwella hyder a dealltwriaeth i arwain yr ysgol gyfan yn effeithiol.

Cyfarfu'r YCG Mathemateg a Rhifedd ag ysgolion cynradd i gefnogi'r gwaith o rannu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth yng nghyd-destun rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Cyflwynwyd diwrnod cyntaf y rhaglen dros dri diwrnod i athrawon (8-11), gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Yn ôl y gwerthusiadau o ddiwrnod cyntaf y rhaglen, barnodd 98% o'r aelodau fod y rhaglen yn werthfawr i gefnogi datblygiad y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r sgiliau trawsgwricwlaidd yn eu dosbarth/lleoliadau eu hunain.

Oherwydd y galw am y rhaglen hon ar draws y rhanbarth, bydd ail garfan yn dilyn y rhaglen dros dri diwrnod o'r Gwanwyn 2024 ymlaen. (cyfrwng Cymraeg a Saesneg)

Mae'r YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd wedi dechrau cynllunio rhaglen ddeuddydd i athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhifedd yn effeithiol ym MDaPh y Dyniaethau. Cyflwynir y gweithdai yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y rhanbarth yn y Gwanwyn, 2024.

Yn dilyn ceisiadau gan YCG, cafodd glystyrau o ysgolion rhanbarthol gymorth clwstwr penodol gyda chynnwys y MDaPh Mathemateg a Rhifedd newydd, gyda ffocws penodol ar ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm. Noda bron pob arfarniad bod y sesiynau datblygiad proffesiynol hyn wedi bod yn werthfawr.

**Uwchradd**
Fel rhan o'r cymorth unigryw a ddarperir i arweinwyr ysgolion, mae YCG wedi rhoi cefnogaeth efo datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm trwy gydweithio ag adrannau allweddol/athrawon eraill i gynllunio gweithgareddau rhifedd dilys, effeithiol a phriodol yn eu pynciau. Mae YCG wedi rhoi cefnogaeth i arweinwyr rhifedd gyda gweithdrefnau sicrhau ansawdd i adnabod cryfderau a meysydd penodol ar gyfer gwelliant, sydd wedi codi hyder a dealltwriaeth arweinwyr rhifedd o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol.

**GWYDDONIAETH A THECHNOLEG**

**GWYDDONIAETH**
**Cwricwlwm ac Asesu**
**Cyfarfodydd Rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Darperir cyfarfodydd rhwydwaith a hyfforddiant rhanbarthol pob tymor i arweinwyr ac athrawon MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag arweiniad pendant ar:

- ddylunio cwricwlwm
- cynllunio
- siliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol
- themâu trawsbynciol
- asesu
- cynnydd

Yn Ch1, cynhaliwyd tri chyfarfod Rhwydwaith i Benaethiaid Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynrychioli'r chwe awdurdod lleol, a chafwyd niferoedd da (74 o athrawon). Yn Ch3, cynhaliwyd dau gyfarfod Rhwydwaith Penaethiaid Gwyddoniaeth ym mis Tachwedd 2023, ble roedd arweinwyr o 36 ysgol yn bresennol.

Yn y cyfarfodydd, adolygwyd enghreifftiau o arferion sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion a chanolbwyntiwyd ar:

1. Ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth, gan gynnwys hunanarfarnu effeithiol, cynllunio ar gyfer gwelliant, a chynllunio cwricwlwm
2. Datblygu dealltwriaeth o gynnydd o fewn y cwricwlwm Gwyddoniaeth
3. Datblygu dealltwriaeth o gynllunio ar gyfer cynnydd mewn sgiliau trawsgwricwlaidd mewn gwyddoniaeth (ffocws ar rifedd)
4. Hwyluso cyfleoedd am ddeialog broffesiynol ar gynnydd rhwng arweinwyr gwahanol ysgolion.
5. Datblygu Sgiliau Cyfannol wrth ddysgu trwy brosiectau
6. Cyd-lunio cyd-destun/dull prosiect mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg
7. Arweinwyr yn cydweithio i adnabod cyd-destunau dysgu dilys mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg
8. Cefnogi athrawon i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i gyfoethogi'r ddarpariaeth.
9. Datblygu Codio ar draws y MDaPh

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y ffurflenni gwerthuso ac mae sawl ysgol wedi mynd ati i brynu'r citiau *Crumble* neu'n defnyddio'r citiau *Microbit* yn dilyn yr hyfforddiant, ac yn gwreiddio technoleg ddigidol yn eu cwricwlwm ac ati. Mae mwy o gyfarfodydd ar y gweill ar gyfer Ch4 (Mawrth):

- 2 x Gwyddoniaeth
- 1 x Technoleg
- 2 x Codio a Datblygu 'Datganiad o'r hyn sy'n bwysig 6' mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru - Dyddiaduron Fideo**
Dyddiaduron fideo - Rhannu straeon a chyflwyniadau gan ysgolion.
Rhannu straeon am brofiadau adrannau gwyddoniaeth a thechnoleg ysgolion y rhanbarth wrth iddynt ddatblygu unedau a themâu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru drwy greu dyddiaduron fideo/cyflwyniadau, y gellir eu rhannu ar-lein ar wefan GwE ac yn y cyfarfodydd rhwydwaith. Gofynnwyd i ysgolion rannu arferion CiG sy'n dod i'r amlwg.

**Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru - Sgiliau Cyfannol ac Effeithiolrwydd Dysgwyr - Dysgu drwy brosiect.**
Parhau mae'r gwaith i ymchwilio i bwysigrwydd dysgu drwy brosiect a dulliau ymholi o ran datblygu sgiliau cyfannol ac effeithiolrwydd dysgwyr, a datblygu hyn - e.e. teithiau dysgu ysgol XP, F1 mewn ysgolion, Gwobrau CREST Bu dysgu drwy brosiect yn nodwedd o'r cyfarfodydd rhwydwaith yn Chwarter 1. Bydd mwy o enghreifftiau ar gael i athrawon yn y cyfarfodydd rhwydwaith.

**Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Mae cydweithio wedi cychwyn ag YCG Llythrennedd a Rhifedd GwE er mwyn sicrhau bod datblygiad sgiliau yn briodol ar gyfer pob cam cynnydd.

Cynhaliwyd gweithdai codio yn y cyfarfodydd rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg Ch1, 2 a 3 gan ddefnyddio *Crumble* a *Microbit* a chymorth ychwanegol gan Technocamps. Bydd ffocws parhaus ar hyn yn 2024. Croesawyd y cyfarfodydd, a dywedodd rai athrawon eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio rheolyddion *Crumble a Microbit* yn y dosbarth.

**Dysgu Ar-lein - TANIO**

Mae adnoddau i fyfyrwyr ac athrawon yn dal i gael eu datblygu a'u diweddaru ar wefan TANIO. Daliwyd effaith fel a ganlyn

- Mae cyflwyniadau ppt, tudalennau we a chardiau fflach ar gyfer y gwyddorau unigol wedi'u datblygu a'u huwchlwytho i wefan TANIO
- Gellir gweld yr adnoddau ar ddyfeisiau symudol.
- Mae defnydd o'r adnoddau yn cael ei fonitro gyda chwcis a chyfrif ymweliadau â thudalennau - Dadansoddi gan Google

**Darparu dysgu proffesiynol ar sail ymchwil i athrawon Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**
Yn Ch3, bu YCG Gwyddoniaeth GwE wrthi'n gweithio gyda chonsortia addysg Cymru i ddarparu canllawiau dysgu proffesiynol ar-lein ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Defnyddiwyd yr arweiniad hwn i lywio rhan o gynnwys cyfarfodydd rhwydwaith mis Tachwedd 2023.

Oherwydd bod angen darparu cymorth i athrawon/arweinwyr Technoleg, darperir dysgu proffesiynol i athrawon technoleg ar 13Mawrth 2024 (Ch4). Bydd hwn ar agor i bob ysgol uwchradd ac ysgolion pob oed a bydd ffocws ar:

- Bwysigrwydd a pherthnasedd dysgu ac addysgu Technoleg/DaTh o fewn y CiG
- Esblygiad a datblygiad arferion addysgu Technoleg/DaTh i gefnogi anghenion a chynnydd dysgwyr.
- Edrych ar ffyrdd i weithio ochr yn ochr â (neu gyda) gwyddoniaeth a gwyddoniaeth gyfrifiadurol sydd yn cefnogi cynnydd yn yr un modd ar draws pob disgyblaeth.
- Sut i ddefnyddio'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg i greu cwricwlwm pwrpasol.
- Edrych ar adnoddau a fydd yn gymorth i greu cwricwlwm ysgol ar gyfer technoleg/gwyddoniaeth a thechnoleg.

**Cymorth i athrawon anarbenigol mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**
Mae GwE yn parhau i ddarparu cymorth unigryw drwy athrawon arbenigol ac YCG pynciol GwE i arweinwyr ac athrawon dosbarth unigol yn ôl y gofyn. Mae hyn yn cynnwys cymorth i athrawon anarbenigol feithrin hyder ac addysgeg mewn meysydd cwricwlwm gwyddoniaeth a thechnoleg anghyfarwydd ar lefel TGAU a Safon Uwch. Bu Tîm GwE ymateb i bob cais.

**Dysgu Proffesiynol, Hyfforddiant a Chymorth**
Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion i'w helpu nhw gynllunio a chyflwyno TGAU a Safon Uwch CBAC mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg - ar gael i ysgolion/adrannau unigol ar gais.

**Hyfforddi a Mentora - datblygu arweinwyr canol**
Hyfforddiant i Ddarpar Benaethiaid Gwyddoniaeth. Mae GwE yn parhau i ddarparu hyfforddiant a mentora/dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ddarpar neu Benaethiaid Gwyddoniaeth newydd, ble gofynnir.

Hysbysebwyd cyfleoedd hyfforddiant yn y cynnig proffesiynol ac yn y newyddlen wyddoniaeth. Gweithredwyd yn fewnol ar bob cais gan ysgolion/YCG Cyswllt gan dîm GwE, heb fod angen comisiynu cymorth allanol.

**Prosiect Ymchwil Weithredol mewn Gwyddoniaeth i ymarferwyr 8-11 Cefnogi 12 ysgol beilot i ddefnyddio ymchwil yn effeithiol**
Cafwyd cydweithio a dysgu proffesiynol dan arweiniad Kathy Schofield (cymrawd PSTT) a Thîm 3-8 GwE ar 26.09.23 i ymarferwyr ystod oedran 3-8. Daeth 21 ysgol i'r sesiwn o'r 24 ysgol a wahoddwyd. Trefnwyd sesiwn ddilynol i'r ysgolion hynny nad oeddent yn gallu mynychu oherwydd arolygiadau ESTYN. Mae Kathy Schofield wedi dechrau ymweld ag ysgolion a wahoddwyd ar draws y rhanbarth i roi cefnogaeth gyda gwella darpariaeth ac enghreifftiau o astudiaethau achos.

**DIGIDOL**
**Datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a sgiliau codio a digidol**
Yn ystod chwarter 2, lawnsiwyd cyfres o adnoddau i gefnogi’r maes digidol oedd yn ffocysu ar gynnydd disgyblion o gam cynnydd 1 hyd at gam cynnydd 5. Gelwir yr adnoddau hyn yn fapiau cynnydd, a’r bwriad yw eu bod ar gael i ymarferwyr er mwyn annog ystyriaethau mewn perthynas a chynnydd dysgwyr wrth iddynt gynllunio a pharatoi

tasgau. Gellir hefyd defnyddio'r adnoddau hyn wrth fonitro, adolygu a gwerthuso'r maes digidol gan eu bod yn cynnig fframwaith y gellir ei ddefnyddio wrth adolygu cynnydd dysgwyr. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu defnyddio'n helaeth yn ystod chwarter 3. Roedd pob sesiwn dysgu proffesiynol a gynhaliwyd yn gwneud defnydd o'r adnoddau hyn er mwyn sicrhau fod cynnydd mewn sgiliau dysgwyr yn ganolog. Cynhyrchwyd mwy o adnoddau yn ystod chwarter 3. Mae 10 adnodd bellach yn fyw ar y safle ac 4 adnodd ychwanegol yn wedi eu creu ac yn disgwyl i gael eu uwch-lwytho. Mae'r ymateb i'r adnoddau wedi bod yn hynod o gadarnhaol, gyda nifer yn nodi mewn ffurflenni adborth yn dilyn sesiynau dysgu proffesiynol fod yr adnoddau yn mynd i fod o gymorth iddynt dros y tymor canolig / hir i weithredu ar beth a ddysgwyd yn yr hyfforddiant.

Mae'r rhaglen hwyluswyr digidol yn parhau i ddatblygu. Yn ystod chwarter 3 cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gyda hwylusydd digidol pob clwstwr er mwyn sicrhau fod y gwaith yn datblygu. Mae'r mwyafrif o glystyrau yn gweithredu cynllun mannau twf sy'n ffocysu ar agweddau penodol o'i darpariaeth / safonau digidol. Bydd pob clwstwr yn cynhyrchu adroddiad cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n adrodd ar eu cynnydd yn erbyn amcanion eu cynlluniau. Cynhaliwyd teithiau dysgu mewn 8 o ysgolion er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn y cynlluniau clwstwr ac er mwyn ceisio dod o hyd i arferion effeithiol i'w rhannu ymhellach.

Mae'r cynnig dysgu proffesiynol bellach ar waith gyda nifer o sesiynau a rhaglenni datblygu ar y gweill. Yn ystod chwarter 3 cynhaliwyd 14 o ddigwyddiadau. Roedd pob un yn cael ei ailadrodd yn y ddwy iaith. Mae'r adborth yr ydym yn ei dderbyn yn dilyn y sesiynau hyn yn hynod o gadarnhaol gyda nifer o ymarferwyr yn nodi eu bod yn mwynhau'r sesiynau ac yn eu gweld nhw'n ddefnyddiol er mwyn datblygu eu sgiliau a'u hyder wrth gynllunio profiadau digidol ar draws y cwricwlwm. Rydym hefyd wedi ymateb i nifer o geisiadau am ddysgu proffesiynol ar gyfer sesiynau HMS.

Mae'r cydweithio â Phrifysgol Bangor yn parhau. Mae'r Brifysgol ar ganol cynnal archwiliad i'r effaith mae technoleg ddigidol yn ei gael ar ddysgwyr y rhanbarth. Bydd yn seiliedig ar ddau gwestiwn allweddol:
a)Sut mae cefnogaeth gan Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol yn helpu ysgolion i wella'i darpariaeth?
b) Sut mae technoleg ddigidol yn effeithio ar safonau dysgwyr, ac ar safon y dysgu ac addysgu o fewn ysgolion?

Mae'r holiadur wedi ei gynnal gyda'r ffenestr ymateb wedi cau yn ystod mis Rhagfyr. Roedd lefel yr ymatebion yn dda gyda bron i 200 o ymatebion. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 48% o ysgolion y rhanbarth. Bydd y Brifysgol yn symud ymlaen i gyfweld a sampl o'r ysgolion a wnaeth ymateb er mwyn derbyn mwy o wybodaeth. Bydd y canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i GwE a'r awdurdodau lleol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**CONTINIWM ADDYSG 3 i 16**

**TROSGLWYDDO/PONTIO**

**Cefnogi ysgolion, UCD, clystyrau a chynghreiriau ar draws y continwwm 3-16, a thu hwnt, i wella pontio trwy wella darpariaeth gwricwlwm, cydweithio a safonau mewn cynnydd; gwella pontio i ddysgwyr bregus; mynd i'r afael â dylunio a gweithredu cwricwlwm, gan gynnwys datblygu a gwreiddio cynnydd mewn dysgu.**

Uwch sgiliwyd tîm GwE o ran y gofynion yng nghyd-destun cynllunio pontio a chynnwys statudol cynlluniau pontio. Rhannwyd adnoddau perthnasol ag YCG ac ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth am ofynion cynlluniau pontio. Mae ysgolion wedi rhannu cynlluniau perthnasol.

Mae gan bob clwstwr gynllun pontio, fodd bynnag, mae ar ambell glwstwr yn y rhanbarth angen cymorth pellach i ddiweddaru eu cynlluniau pontio yn sgil gofynion y Cwricwlwm i Gymru a sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r gofynion hyn. Cefnogir y clystyrau hyn gan yr YCG ac mae dysgu proffesiynol pellach ar waith. Lluniwyd cynllun pontio enghreifftiol sydd yn bodloni gofynion statudol Cwricwlwm i Gymru a'i anfon at bob YCG i glystyrau sydd angen hyn.

Mae dysgu proffesiynol cyffredin a phenodol yn yr arfaeth ar gyfer tymor yr hydref 2023, a fydd yn cynnwys cydweithio a deialog broffesiynol rhwng clystyrau i sicrhau eglurder a chysondeb mewn hunanarfarnu, a helpu ysgolion a chlystyrau i wreiddio a datblygu ymhellach arferion llwyddiannus wrth sicrhau cynnydd 3-16. Bydd yn cychwyn ar 20/10/23, gyda 4 sesiwn rhanbarthol mewn gwahanol leoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys rhannu negeseuon allweddol, arweiniad mandadol diweddar a rhannu arferion llwyddiannus o glystyrau lleol i enghreifftio negeseuon allweddol.

Rhannodd dau glwstwr ac un ysgol arbennig arferion llwyddiannus wrth ddatblygu trefniadau pontio 3-16 yn y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol ym mis Mehefin 2023. Roedd negeseuon pwysig yn cynnwys pa mor bwysig yw canolbwyntio ar ddisgyblion a'u cynnydd a'u targedau, yr hyn y gall pob disgybl unigol ei gyflawni, a phwysigrwydd craidd cydweithio, cyd-atebolrwydd a chydberthnasau cadarnhaol er mwyn helpu'r dysgwyr hyn i gyflawni.

Mae clystyrau penodol yn dal i wneud cynnydd da yn y Prosiect Pontio Addysgeg. Rhannwyd arferion llwyddiannus ar draws 12 clwstwr gan gynnwys aelodau staff ar amrywiol lefelau, sydd wedi hwyluso rhoi strategaethau pellach ar waith ar draws y rhanbarth yn yr ysgolion clwstwr. Mae gwaith rhannu pellach ar y gweill yn nhymor yr hydref 2023. Yn dilyn hyn bydd y prosiect yn cael ei ehangu i gynnwys rhagor o glystyrau. Mae digwyddiad rhannu effaith ar y gweill ar gyfer y gynhadledd Cwricwlwm i Gymru ranbarthol ar 6 Mehefin 2024.

Bwriedir parhau i wella addysgeg ar draws y clwstwr a hwyluso gwaith rhannu gan y clystyrau hyn yn ehangach ar draws y rhanbarth. Gofynnwyd am hyn yn sgil adborth yn y cyfarfodydd pontio yn yr Hydref.

Cynllunnir y camau nesaf yn unol â chanllawiau mandadol LlC ac mae'r cynllun busnes wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r rhain, er mwyn gofalu bod cyswllt pendant â chydweithio mandadol a CGY trwy ddysgu proffesiynol cyffredin i helpu Penaethiaid i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae adnodd map ffordd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu i gefnogi hyn.

**ASESU (Cynradd)**

**Cael gwell dealltwriaeth o bwrpas gwybodaeth asesu a sut defnyddir hyn i lywio'r dysgu a'r addysgu, yn ogystal â gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ehangach, ac adrodd i rieni**

Cynhaliwyd gweithdai ar y 3 Diben Asesu yn y CiG i ysgolion cynradd er mwyn helpu ysgolion i gael gwell dealltwriaeth o bwrpas gwybodaeth asesu a sut defnyddir hyn i lywio'r dysgu a'r addysgu, yn ogystal â gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ehangach. Ffocws y gweithdai oedd:

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion.

Drwy wahoddiad y clystyrau, cynhaliwyd dwy sesiwn glwstwr arall, yn seiliedig ar gyflwyniadau a wnaed mewn sesiynau hyfforddi blaenorol ar draws y rhanbarth.

Darparwyd cymorth unigryw ar brosesau asesu ac/neu adnabod, dal a myfyrio ar gynnydd disgyblion ar gyfer ysgolion unigol ar draws y rhanbarth. Hefyd, sesiynau asesu ffurfiannol mewn amrywiol glystyrau.

Rhannwyd cynllun a pholisi asesu enghreifftiol sydd yn bodloni gofynion y CiG newydd yn uniongyrchol â phob ysgol a ddaeth i hyfforddiant Haf a Hydref 2023, ac mae'r rhain ar gael i bob ysgol drwy'r chwe Arweinydd Craidd.
Mae GwE yn parhau i rannu enghreifftiau o arferion da ar draws y rhanbarth.

**ASESU (Uwchradd)**

Paratowyd a rhannwyd adnodd pŵer bwynt â'r YCG Uwchradd ar gefnogi ysgolion i ddeall y gofynion ar gyfer galluogi deialog broffesiynol i gefnogi dealltwriaeth o gynnydd. Paratowyd a chyflwynwyd hyn i'r tîm a'i fireinio yn dilyn adborth. Yna fe'i defnyddiwyd gan yr Arweinwyr Craidd ym mhob awdurdod, i sicrhau bod Penaethiaid yn deall eu dyletswyddau statudol a bod ganddynt brociau, esboniadau a ffurflenni i'w helpu i ddatblygu eu dull gweithredu, eu cynllun a'u defnydd o ddeialog i lywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. O ganlyniad, mae arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o'r ddyletswydd gyfreithiol ynghylch Deialog Broffesiynol, ei chysylltiadau pwysig â hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, a'r effaith wrth gynllunio ar gyfer hyn.

Paratowyd a rhannwyd yr adnoddau gyda'r tîm, i'w defnyddio gydag ysgolion i drafod gwaith cynllunio, cynnydd ac asesu. Defnyddiwyd y rhain, er enghraifft, ar gyfer dyddiau HMS gyda staff, i ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynllunio ar gyfer cynnydd ac asesu. Gwerthuswyd yr effaith ar Lefel 1, yn dangos bod staff yn mynd i'r afael yn dda â'r negeseuon.

Paratowyd adnodd ar Ddylunio i Adrodd ar y CiG, ar gyfer arweinwyr ysgolion. Bydd YCG ac Arweinwyr Craidd yn defnyddio'r adnodd ar lefel ysgol unigol neu gyda chynghreiriau, fel eu bod yn cael cefnogaeth lawn gyda'r cysylltiadau rhwng gweledigaeth, cynllunio, dylunio, cynnydd, asesu ac adrodd i rieni. Dechreuir ei ddefnyddio ym mis Ionawr 2024. Gwelir effaith hyn yn y defnydd a wna Penaethiaid ac arweinwyr eraill o'r adnodd i fyfyrio ar eu sefyllfa bresennol a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu gwelliant.

Paratowyd adnodd a'i rannu â'r tîm uwchradd i'w cefnogi wrth drafod y gofynion ar gyfer Adrodd i Rieni gyda'u hysgolion a'u hawdurdodau. Defnyddiwyd yn helaeth ar draws y rhanbarth. Gwelir effaith hyn yn nifer yr adroddiadau i rieni sy'n cydymffurfio â'r disgwyliadau statudol.

**AMCAN 3 – DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL**

**Blaenoriaeth:**
**3.1 Gwella Addysgu**

**CYFRANIADAU GAN FDaPh A RHWYDWEITHIAU PWNC I WELLA ADDYSGU**

**Gwella Dysgu ac Addysgu**
**Hwyluso cynnig dysgu proffesiynol cyffredin neu wedi'i gomisiynu a chymorth penodol wedi'i dargedu.**
Mewn gweithdy ar 29/06/23, ac wedi'i gomisiynu gan GwE, rhannodd Mark Burns, awdur 'Teaching Backwards', sut i ddylunio a chyflwyno gwersi effeithiol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr a'u hysbrydoli. Ffocws penodol y gweithdy oedd dilyniant gofalus yn y cwricwlwm i sicrhau cynnydd yn y dysgu. Mae gan syniad Mark o 'ddylunio tuag yn ôl' hanes llwyddiannus o gael effaith sylweddol ar gyflawniad a chymhelliant myfyrwyr dros y blynyddoedd. Ffocws y gweithdy oedd addysgu tuag yn ôl, gan ddechrau efo'r nod ar y diwedd. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig dull ymarferol ac uniongyrchol i staff fireinio ymhellach eu hagweddau, eu sgiliau a'u harferion rhagoriaeth, yn ogystal â rhai eu dysgwyr. Mae trafodaethau efo Mark yn parhau gyda golwg ar weithdy dilynol yn canolbwyntio ar wahaniaethu a lefel her. Hwylusir cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach yn ystod y flwyddyn i ddatblygu:

- cynllunio ar gyfer cynnydd
- gwahaniaethu (gwneud dysgu o fewn cyrraedd)
- cynyddu lefel yr her

Yn dilyn gweithdy'r haf, mae rhai ysgolion wedi trefnu dyddiau HMS gyda Mark Burns i gefnogi eu DP ymhellach.

**Sefydlu Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu i arweinwyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd er mwyn gofalu bod yr arferion gorau yn cael eu datblygu a'u bod yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu dull addysgegol cyson.**
Cynhaliwyd y cyfarfod Rhwydwaith cyntaf ar 21/09/2023, yn canolbwyntio ar Fetawybyddiaeth ac Arweinyddiaeth. Daeth 41 ysgol allan o 54 i'r cyfarfod. Ers y cyfarfod cyntaf cafwyd sawl cais gan Arweinwyr Dysgu ac Addysgu am ein hadnoddau hyfforddiant i'w defnyddio gyda staff yn eu hysgolion. Roedd adborth y cyfarfod yn gadarnhaol, ac mae Tîm Dysgu ac Addysgu wedi'i sefydlu i gyfleu negeseuon a chynnig cefnogaeth mewn sesiynau 'galw heibio' bob pythefnos. Mae'r newyddlen gyntaf wedi'i hanfon ar e-bost at bob Pennaeth, Arweinydd Dysgu ac Addysgu, YCG ac YCG Pwnc. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfarfod Rhwydwaith nesaf fydd sesiwn ar gwestiynu effeithiol. Roedd hon yn flaenoriaeth a adnabuwyd yn dilyn y cyfarfod Rhwydwaith cyntaf, ynghyd ag adborth effeithiol.

Cynhaliwyd ail gyfarfod Rhwydwaith ar 17/11/2023 yn edrych ar Adborth a Chwestiynu. Roedd 37 o 54 ysgol yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd adborth o'r cyfarfod yn gadarnhaol.

Yn sgil cyswllt drwy'r YCG Cyswllt, ac fel yr amlinellir mewn Cynlluniau Cymorth, darparwyd cymorth pwrpasol i ysgol benodol.

I baratoi ar gyfer y cyfarfod Rhwydwaith nesaf, gofynnwyd i Arweinwyr Dysgu ac Addysgu rannu effaith y rhwydwaith arnynt hyd yma.

**YMCHWIL AC ARFARNU (Ymchwil ac ymholi)**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)**
Darperir cyllid Cam 2 RILL gan Lywodraeth Cymru dros ddwy flynedd fel a ganlyn: Mai 2022 tan fis Mai 2023; a Mai 2023 tan fis Mai 2024. Yn 2022-23, yr amcan cyntaf oedd ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn

y Gymraeg dros bymtheg wythnos i blant difreintiedig gan ddefnyddio technoleg (h.y. cartref di-Gymraeg, SES a gallu isel) a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg.

Yn ystod tymor yr hydref 2022 roedd y ffocws ar ddatblygu 30 gwers Gymraeg a Saesneg newydd a chynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb i ysgolion weithredu'r rhaglen. Crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni. Cafodd 28 ysgol a 39 athro eu recriwtio ym mis Hydref 2022 i gael hyfforddiant RILL Cymraeg, a chafodd 60 ysgol arall ar hyd a lled Cymru hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2023.

Rydym hefyd wedi datblygu batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL. Mae dros 250 o blant a gofrestrodd ar y RILL Cymraeg bellach wedi cael profion. Mae hanner y dysgwyr hyn bellach yn cael gwersi RILL ddwywaith yr wythnos gyda'u hathro neu eu cymhorthydd dysgu, a chawsant eu profi eto yn ystod tymor yr haf 2023. Bydd gweddill y dysgwyr hyn yn dechrau gwersi RILL ym mis Medi 2023. Cafodd 60 ysgol arall eu recriwtio ar hyd a lled Cymru i gael hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2023.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2023, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi ysgolion sydd yn rhan o broses werthuso RILL ac addasu'r gwersi i ymateb i'r sylwadau gan yr ysgolion hyn. Rydym hefyd wedi dechrau creu deunyddiau dosbarth cyfan i gyd-fynd â gwersi parod RILL. Yn ystod tymor yr haf trefnwyd gweithdy llunio ar y cyd, ble roedd Penaethiaid, athrawon a chymorthyddion dysgu yn adrodd yn ôl ar y deunyddiau drafft dosbarth cyfan ac yn cynnig eu syniadau eu hunain am weithgareddau newydd. Byddwn yn cyfuno'r wybodaeth hon yn awr i greu deunyddiau dosbarth cyfan dros fisoedd yr haf. Roedd yr addysgwyr hyn hefyd yn rhan o grŵp ffocws yn myfyrio ar eu profiad ar y prosiect.

Mae cyfanswm o 53 ysgol wedi cael hyfforddiant RILL Cymraeg ym Mhrosiect 1: 43 yng ngogledd Cymru a 11 yng Ngheredigion. Rydym hefyd wedi cysylltu â chonsortia ar draws Cymru gyda'r bwriad o drefnu o leiaf un diwrnod hyfforddiant ym mhob rhanbarth. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant yn ystod tymor yr haf 2023 ym Mangor, yn ogystal â de-ddwyrain a de Cymru. Ffocws Prosiect 2 fydd ymestyn RILL i'r lefel dosbarth cyfan - er mwyn rhoi prawf ar effaith cyfarwyddyd ategol, dosbarth cyfan ar sgiliau llythrennedd pob dysgwr. Bydd hyn yn dechrau ym mis Medi 2023 a rhoddir gwahoddiad i 10 ysgol (20 athro) gael hyfforddiant yn fersiwn Saesneg RILL.

Erbyn mis Hydref 2023, mae 92 ysgol wedi cael hyfforddiant RILL Cymraeg ym Mhrosiect 1: 47 yng ngogledd Cymru a 45 mewn rhanbarthau eraill fel rhan o'n cytundeb efo Llywodraeth Cymru i gyflwyno hyfforddiant ym mhob rhanbarth. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant yn ystod tymor yr haf 2023 ym Mangor, yn ogystal â Wrecsam, Powys, Sir Benfro, de-ddwyrain a de Cymru. Ffocws Prosiect 2 fydd ymestyn RILL i'r lefel dosbarth cyfan a rhoi prawf ar effaith cyfarwyddyd ategol, dosbarth cyfan ar sgiliau llythrennedd pob dysgwr. Ym mis Medi 2023 cafodd 10 ysgol (20 athro) eu recriwtio i gael hyfforddiant yn fersiwn Saesneg RILL.

Erbyn mis Ionawr 2024, yr ydym wedi cwblhau'r 'deunyddiau dosbarth cyfan' (Prosiect 2). Mae cyfieithydd wrthi'n eu prawfddarllen cyn iddynt gael eu peilota mewn 5 ysgol gynradd sydd eisoes yn cymryd rhan yn y prosiect. Mae dadansoddiad cynnar o ddata Prosiect 1 yn dangos bod disgyblion sy'n cwblhau RILL yn gwneud cynnydd addysgol sylweddol o ran eu gwybodaeth o eirfa Gymraeg, a rhwyddineb darllen mewn Cymraeg a Saesneg. Roedd y cynnydd mewn geirfa Gymraeg yn arbennig o fawr. Mae 13 ysgol bellach yn cwblhau fersiwn Saesneg RILL a 6 arall ar fin cychwyn erbyn diwedd mis Chwefror. Cyhoeddwyd gwerthusiad o raglen gyntaf RILL a ddarparwyd o bell drwy gyfrwng y Saesneg yn ystod y pandemig mewn Darllen ac Ysgrifennu: https://doi.org/10.1007/s11145-023-10502-7

**Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (i-FOR)**

Er 2018, bu GwE yn gweithio ar y cyd ag ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor i greu cyfres o ymyraethau rhuglder darllen yn seiliedig ar dystiolaeth: Darllen Ailadroddol (RR), a Geiriau Amlder Uchel (HFW). Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno ein deunyddiau ymyrraeth RR Cymraeg a Saesneg mwyaf diweddar i ysgolion. Y bwriad yw gweithio gydag ysgolion i werthuso effaith yr ymyrraeth RR ddiweddar yn sgil cyfnod ymyrraeth 8 wythnos yn nhymor y gwanwyn 2024.

Caiff pob ysgol hyfforddiant ac adnoddau ymyrraeth RR yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y tîm ymchwil yn gweithio gyda staff i adnabod dysgwyr targed a chynllunio ar gyfer yr ymyrraeth yn nhymor y gwanwyn 2024. Bydd y tîm

ymchwil yn helpu ysgolion i gasglu data am gynnydd disgyblion a gwerthuso effaith yr ymyrraeth RR. Fe wnaethom ddechrau recriwtio ysgolion ym mis Mehefin 2023, a bydd yr ysgolion fydd yn cymryd rhan yn cael eu cadarnhau ym mis Medi 2023. Fe wnaethom ddechrau recriwtio 20 ysgol i fod yn barod i gychwyn yn nhymor y gwanwyn 2024.

Fe wnaethom ddechrau recriwtio tua 10 ysgol (tua 100-150 o ddysgwyr) yn barod i gychwyn yn nhymor y Gwanwyn 2024. Ym mis Rhagfyr 2023, cafodd 10 ysgol eu recriwtio i'r astudiaeth hon. Cesglir data cyn profion yr wythnos yn cychwyn 8Ionawr a bydd hyn yn parhau drwy gydol y mis. Rhoddwyd mynediad at hyfforddiant ac adnoddau ymyrraeth Darllen Ailadroddol (RR) drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i bob ysgol ym mis Rhagfyr 2023. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i sesiwn hyfforddiant/holi ac ateb ar 10 Ionawr 2024. Dechreuir gweithredu Darllen Ailadroddol (RR) ar 29 Ionawr am 8 wythnos. Yn ystod y cyfnod gweithredu 8 wythnos, bydd pob ysgol sy'n cymryd rhan yn cael tri ymweliad cymorth gweithredu ble bydd swyddog ymchwil cymwys yn cefnogi'r athro arweiniol i weithredu'r ymyrraeth yn llwyddiannus. Yn ystod un o'r ymweliadau, bydd y Swyddog Ymchwil hefyd yn arsylwi sesiwn Darllen Ailadroddol rhwng yr athro a'r dysgwr ac yn adrodd yn ôl i'r athro.

**Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif.**
Mae'r rhaglen i-TEN yn addasiad o raglen *Mathematics Recovery* (MR). Mae MR yn rhaglen gynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dysgu rhifedd i ddysgwyr iau sy'n cael anhawster efo sgiliau mathemateg cynnar. Yn y prosiect hwn, rydym yn anelu at weithio gydag ysgolion i werthuso i-TEN gyda phlant difreintiedig mewn lleoliadau prif lif i roi dull cynhwysol o ddysgu ac addysgu rhifedd cynnar.

Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Warwick, ac mae elfen gref o DPP rhifedd i athrawon fel a ganlyn:

- Ar y cam cyntaf byddwn yn hyfforddi staff yn yr ysgolion sydd â diddordeb i ddefnyddio a gwerthuso effaith y tri cham datblygiad cyntaf i ddysgwyr mewn dosbarthiadau Dysgu Sylfaen.
  Yn ystod tymor yr Hydref 2023, bu ymchwilwyr o Brifysgol Warwick yn datblygu cynlluniau gwersi ar gyfer pedwerydd a phumed cam datblygu MR. Ers y cynlluniau MR gwreiddiol, gwnaed yr addasiadau hyn: rhannu'r camau addysgu yn gamau llai, sicrhau bod y cyfarwyddiadau llafar i fyfyrwyr yn glir, yn gryno ac yn ddealladwy; a rhoi rhagor o syniadau ar gyfer cyfleoedd i gyffredinoli a chefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfod yn gyson â datblygwyr y cynlluniau ar gyfer y tri cham datblygu cyntaf i sicrhau cysondeb ar draws y cynlluniau. Er mwyn cefnogi'r addasiadau hyn, bu Claire Jupe (Prifysgol Warwick) ar gyrsiau gan gynnwys y sesiwn Dysgu Proffesiynol Traws-ranbarthol MDaPh Mathemateg a Rhifedd ym mis Rhagfyr yn edrych ar y Cwricwlwm i Gymru a dosbarth meistr MR. Y cam nesaf (ar y gweill ar gyfer tymor y Gwanwyn 2024) fydd rhannu'r cynlluniau hyn â grŵp o athrawon i gael adborth cychwynnol a chorffori hyn yn y cynlluniau cyn gweithredu yn yr ysgol. Mae cais moeseg wrthi'n cael ei ddrafftio (i'w gyflwyno fis Ionawr 2024) am astudiaeth dichonoldeb i beilota defnyddio'r cynlluniau hyn mewn ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru gyda 10-20 o blant CA2 yn nhymor y Gwanwyn a'r Haf, 2024. Bydd yr astudiaeth yn golygu sesiwn hyfforddiant gychwynnol i staff ysgolion a sesiynau cymorth rheolaidd i gyfrannu at eu DPP rhifedd parhaus a'u galluogi i gyflwyno'r ymyrraeth fel y bwriadwyd.
  Cynhaliwyd cyfweliadau ar 18 Gorffennaf 2023 a phenodwyd myfyrwyr ymchwil doethuriaeth.
- Yn yr ail gam, mae gennym ddiddordeb gweithio gydag ysgolion i gyd-ddatblygu'r cynlluniau gwersi ar gyfer pedwerydd a phumed cam datblygiad MR mewn lleoliadau CA2.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda lleoliadau cyfrwng Cymraeg i helpu'r tîm ymchwil i greu deunyddiau rhaglen MR dwyieithog.

**Datblygu a Gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif (DEMSI).**
Mae'r dull Gwyddor Darllen *(The Science of Reading)* yn disgrifio sgiliau darllen allweddol a sgiliau cysylltiedig sy'n allweddol i ddarllenwyr o bob gallu. Yn y prosiect hwn, bwriadwn werthuso sut gellir defnyddio'r dull Gwyddor Darllen i ddysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif. Bwriadwn gynnal astudiaeth mewn dau gam i ddatblygu a gwerthuso dysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif i ysgrifenwyr cynnar. Yn gyntaf, mae'r prosiect DEMSI hwn yn ceisio deall yr arferion dysgu sillafu presennol ar gyfer ysgrifenwyr cynnar (plant 7 oed) yng ngogledd Cymru trwy gynnal arolwg rhanbarthol. Yn ail, bwriadwn dreialu model i helpu i hyfforddi athrawon i addasu a gwella eu darpariaeth sillafu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r dull Gwyddor Darllen. Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Leeds Trinity.

Rydym yn ceisio edrych ar ddichonoldeb ac effeithiolrwydd gweithdai cyd-greu i weithredu cwricwlwm sillafu Gwyddor Darllen yng ngogledd Cymru. Byddwn yn gwerthuso a all athrawon dosbarth weithredu'n llwyddiannus gwricwlwm sillafu a grëwyd ar y cyd ac a addaswyd o'r dull Gwyddor Darllen, ac a yw cwricwlwm sillafu o'r fath yn gwella deilliannau dysgwyr. Bwriadwn ddatblygu cyfres o bedwar gweithdy undydd i athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, ochr yn ochr ag athro profiadol sydd yn gyfarwydd â'r dull Gwyddor Darllen. Bydd y gweithdai yn edrych ar ymchwil cefndirol, cyd-ddatblygu'r cwricwlwm, ac asesu cynnydd mewn sillafu.

Rydym wedi creu'r arolwg sillafu a'i rannu ym Mwletin GwE ym mis Gorffennaf 2023, fel rhan o Gam 1. Bydd yr holiadur yn cael ei hyrwyddo eto ym mis Medi 2023, ac rydym wedi recriwtio deg ysgol gynradd i gymryd rhan yng ngham cyntaf Cam 2. Ar ddiwedd Cam 2 (tymor yr haf 2023), bwriadwn wahodd deg ysgol gynradd o'r AauLl sy'n weddill i gael adborth ar ddeilliannau'r prosiect.

Dechreuwyd ar yr ail gam erbyn mis Ionawr 2024 gan recriwtio 11 ysgol sydd wedi cwblhau gweinyddu ac asesu profion gwaelodlin (*N* ~ 400 disgybl). Cynhaliwyd gweithdy pedwar-diwrnod i bum o'r ysgolion (11 o athrawon). Ymwelir â phob ysgol yn unigol i drafod eu darpariaeth sillafu gyfredol a rhoi cymorth. Cynhelir sesiynau galw heibio misol.

## ADDYSGEG A DYLUNIO DYSGU

**Gwella Addysgu**

Datblygwyd Prosiect Addysgeg cenedlaethol i:

- hwyluso deialog, cydweithio ac ymholi er mwyn darparu cefnogaeth efo archwilio a myfyrio ar yr egwyddorion addysgegol.
- helpu i siapio'r weledigaeth barhaus ar gyfer dysgu wrth i ni wireddu'r Cwricwlwm i Gymru a helpu dysgwyr i gyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru

Mae hyn yn golygu edrych ar y 'pam' a'r 'sut' yn ogystal â'r 'beth' yng nghyd-destun addysgu a myfyrio ar yr ystod lawn o gysylltiadau a chydberthnasau sy'n arwain at ddysgu. Mae 3 elfen allweddol i waith y prosiect addysgeg:

- rhannu arferion a myfyrio - cyfleoedd ac adnoddau amserol, perthnasol a hawdd eu cael, sy'n hwyluso ymgysylltiad proffesiynol, deialog a myfyrio.
- dyfnhau dealltwriaeth - archwilio arferion arloesol trwy ddysgu proffesiynol ac ymholi, a hynny mewn dull yn seiliedig ar dystiolaeth.
- datblygu gwaith ymchwil - datblygu ymchwil academaidd ar lefel genedlaethol i osod sylfaen i ddealltwriaeth system gyfan o addysgeg.

Daeth pwysigrwydd cydweithio a rhannu i'r amlwg yn ystod pandemig COVID-19, ac mae angen i ymarferwyr barhau i ddysgu oddi wrth ei gilydd o fewn ac ar draws rhanbarthau yng Nghymru. Bydd gweithgarwch ar y cyd rhwng prifysgolion, consortia rhanbarthol ac ysgolion yn helpu i ddatblygu adnoddau yn seiliedig ar ymchwil, a fydd yn dyfnhau ein trafodaethau a hyrwyddo ymholi proffesiynol.

**Prosiect Ymchwil Trafod Addysgeg (2023-26) – Blwyddyn 1 (2023-24)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu, ac ariannu, y prosiect hwn am dair blynedd o 2023. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod tymor y gwanwyn 2023 i benodi myfyriwr ymchwil PhD o Brifysgol Bangor i gwblhau'r gwaith, a phenodwyd athro uwchradd a fydd yn dechrau ar y gwaith ym mis Medi 2023. Y dasg gyntaf fydd rhoi sylw i'r cwestiwn ymchwil a ganlyn yn ystod tymor yr hydref/gwanwyn 2023-24:

- *Beth yw barn a safbwyntiau academyddion SauAU, cyd-weithwyr o'r consortia ac athrawon ar sut rydym ni'n datblygu ymchwil perthnasol i arfer er mwyn galluogi athrawon i ddod yn wybodus am dystiolaeth?*

Cychwynnodd y myfyriwr Doethuriaeth newydd ar y gwaith ar 01/09/3023. Yn 2023-24, bydd y myfyriwr yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn ymchwil allweddol (dan ddylanwad Llywodraeth Cymru) fel a ganlyn:

1. Sut defnyddir y term 'addysgeg' mewn cyhoeddiadau addysg yng Nghymru? Mae'r myfyriwr wedi gorffen dadansoddi cynnwys cyhoeddiadau allweddol gan y Llywodraeth, y consortia, Estyn a rhanddeiliaid eraill ac wrthi'n gwerthuso'r data i gael canfyddiadau cynnar. Rhannwyd y canlyniadau cychwynnol â Llywodraeth Cymru.
2. Sut allwn ni ddiffinio yn gliriach rhywfaint o'r derminoleg a'r ieithwedd allweddol sydd ynghlwm â'r Cwricwlwm i Gymru? Mae'r myfyriwr wedi dechrau'r broses o lunio astudiaeth Delphi i ddefnyddio rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr i helpu i adnabod a gwella'r diffiniadau a'r ddealltwriaeth o derminoleg sy'n fwy cynhennus.

**Tuag at 2024**
Mae cynlluniau mewn lle i gydweithio ag athrawon ystod oedran 8-11 i gryfhau a chefnogi ymhellach hunanarfarnu a gwella ysgolion tuag at gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru trwy arfarnu a datblygu dulliau Cwricwlwm i Gymru presennol, Addysgeg a Chynnydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â Phenaethiaid ym mis Tachwedd 2023 ynghyd â digwyddiadau Dysgu Proffesiynol ar 'Ddatblygu dysgu ac addysgu o safon uchel'. Cynhelir diwrnod adolygu ar 18 Mawrth 2024. Mae'r holl adnoddau ar gael yn ddwyieithog a bydd llawlyfr ar gael yn y digwyddiad ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynnwys yn edrych ar adolygu camau gweithredu, Egwyddorion Cynnydd - Effeithiolrwydd Dysgwyr a'r cylch effaith newydd.

O'r ffurflenni gwerthuso Lefel 1 a gwblhawyd ar gyfer digwyddiad mis Tachwedd 2023, casglwyd bod yr ymateb i'r hyfforddiant yn galonogol iawn, ar y cyfan. Mae ymarferwyr yn dod i ddeall y cysylltiad rhwng addysgeg a chynnydd. Maent hefyd yn datblygu dealltwriaeth well o gynnydd ac effaith, gyda chymorth strategaethau ymarferol a gweithgareddau y gellir eu defnyddio yn ôl yn yr ysgol. Cynigir syniadau ac adnoddau sy'n rhoi cymorth gyda'r dysgu a'r addysgu gan roi strwythur pendant ar yr effaith ar yr addysgu, i'w gwreiddio yn ôl yn yr ysgol.

**Cynllunio'r Cwricwlwm i Gymru**
Cynhaliwyd cyfarfodydd ag Arweinwyr Rhanbarthol i drafod y Prosiect Cynllunio Dysgu ar gyfer eleni. Bydd hyn yn cefnogi'r Prosiect Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Adnabuwyd ysgolion i gymryd rhan yn prosiect pum diwrnod. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 10/1/2024.

**CYFLAWNI POTENSIAL – HER I BAWB (MATh)**

**Deall yn well sut i gefnogi efo'r agenda Cyflawni Potensial/MATh (CP/MATh) mewn ysgolion.**
Mae cynrychiolaeth barhaus ar y Grŵp Traws-gonsortia ar gyfer MAT a Chyflawni Potensial. Trwy sicrhau bod ffocws uwchradd a chynradd ar MAT a Her, gallwn gynnig cymorth yn well ar draws ysgolion.

Paratowyd Adnodd ar yr agenda MATh/CP bresennol, ei rannu â Thîm GwE a'i uwchlwytho i adnoddau cymorth GwE. Mae hyn yn sicrhau bod Arweinwyr Craidd ac YCG yn gallu rhoi gwybod i ysgolion am yr adnoddau sydd ar gael ar wefan Consortia Cymru, y strategaeth MATh newydd a chynigion eraill Grŵp y consortia, megis gweminarau a phodlediadau.

Mae GwE wedi trefnu, creu a recordio podlediad gyda'r addysgwr Mark Burns ar sut orau i gefnogi dyheadau disgyblion trwy gynllunio profiadau addysgol heriol a difyr. Rhanna Mark ystod o ddulliau a syniadau ar gyfer addysgu ac asesu cynnydd. Mae hwn bellach yn cael ei rannu â phob rhanbarth yng Nghymru fel Adnodd addysgu gwerthfawr.

Diweddarwyd Adnodd adolygu ar gyfer YCG uwchradd. Gellir defnyddio'r PowerPoint hwn gyda staff neu fyfyrwyr wrth baratoi at asesiadau allanol. Mae hyn yn gosod nodweddion y dysgwr MATh mewn cyd-destun ac yn cynnig llawer o syniadau rhagweithiol ar gyfer adolygu.

Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer cyflwyno 4 gweminar MATh a CP, yn ogystal â gweithdai rhanbarthol dilynol i sicrhau rhannu negeseuon am strategaeth MATh, y cyntaf o'r rhain i'w gynnal ym mis Tachwedd.

Bu YCG GwE mewn cyfarfodydd SEREN i sicrhau y gellir trosglwyddo negeseuon allweddol i dîm GwE ynghylch gwaith y rhwydwaith, ac y gall GwE gyfrannu at drefniadaeth rhaglen SEREN.

Cynhaliwyd gweminar genedlaethol ar ddatblygu strategaeth MAT ym mis Rhagfyr 2023 yn rhan o'r rhaglen dysgu proffesiynol ar Gyflawni Potensial. Cafwyd sylwadau calonogol gan Lywodraeth Cymru ac mae'r recordiad a'r cyflwyniad ar gael i fwy o ysgolion gael eu defnyddio. Cyfrannodd YCG GwE yn llawn at ysgrifennu a darparu'r adnodd hwn.

Mae 5 ysgol gynradd wedi cofrestru ar y prosiect ymchwil weithredu ar y cyd i edrych ar ffyrdd i sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni eu potensial ac yn codi eu dyheadau wrth ddysgu. Cafwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Ionawr 2024.

Mae sesiwn hyfforddiant i ysgolion y rhanbarth ar y gweill ar gyfer tymor yr Haf i rannu negeseuon allweddol o'r rhaglen dysgu proffesiynol Cyflawni Potensial. Cyflwyniad gan Mark Burns ar sut all ysgolion ddarparu her a chyfleoedd i ysgolion rannu arferion da.

**ADDYSG 3-8**

**Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder, fel bod modd iddynt fwrw ati gyda'u taith welliant eu hunain.**

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn cael cefnogaeth bwrpasol yn rhoi sylw i gamau gweithredu a nodwyd gan YCG 3-8. Maent wedi rhoi camau gweithredu ar waith yn effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gan leihau amrywiad o fewn ysgol a sicrhau mwy o gysondeb yn y dysgu a'r addysgu ar draws y rhanbarth. Mae'r cymorth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o'r egwyddorion a'r addysgeg sy'n cyd-fynd ag addysgeg 3-8 o fewn Galluogi Dysgu a fframwaith CiG. Fodd bynnag, nid oes fawr o gynnydd mewn ychydig iawn o'r ysgolion sydd yn cael cymorth.

**Darparu cyfarfodydd rhwydwaith/cymorth clwstwr/gweithdai o safon uchel.**

Darparwyd cymorth clwstwr ar draws y rhanbarth gyda phwyslais ar agweddau penodol ar ganllawiau Galluogi Dysgu, addysgeg CiG a MDaPh. Mae'n rhy fuan i fesur effaith ar ddarpariaeth a deilliannau, ond mae effaith yn cynnwys:

- Negeseuon cyson i ysgolion am ddysgu ac addysgu
- Gwella hyder ymarferwyr yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r llwybrau datblygu, y MDaPh a'r agweddau i'w hystyried wrth ddylunio cwricwlwm ar gyfer yr oedran hwn.
- Ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar Galluogi Dysgu, MDaPh ac addysgeg effeithiol yn y grŵp oedran hwn. Mae gan y rheiny sydd wedi bod yn bresennol adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, a'r addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo yn arferion dosbarth.

Cyfarfodydd Rhwydwaith 3-8 Rhanbarthol Tymor yr Hydref - ffocws ar ddatblygu sgiliau digidol. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth well i ymarferwyr o sut i gynllunio cynnydd mewn sgiliau digidol o fewn addysgeg sydd yn briodol i ddatblygiad.

Cynhaliwyd Gweithdai Rhanbarthol i UDRh, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu ar ddatblygu amrywiol strategaethau darllen. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o strategaethau darllen effeithiol i'w defnyddio yn y dosbarth.

Daeth nifer da i'r gweithdai, y Rhwydweithiau a'r sesiynau hyfforddiant a chafwyd sylwadau cadarnhaol iawn. Mae'r adnoddau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE a Google Classrooms, er mwyn i ymarferwyr gydweithio a rhannu syniadau'n rhanbarthol.

**ÔL-16**

**Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16**

Cynhaliwyd adolygiad ALPS rhanbarthol llawn o ddeilliannau arholiadau 2022/23 ym mis Tachwedd 2023. Cynhaliwyd sesiwn efo ymgynghorydd addysg ALPS i drafod a dadansoddi'r data. Cynhyrchwyd, dadansoddwyd a dosbarthwyd adroddiadau grŵp i'r tri ALl ar y cyd; amlygwyd y prif negeseuon. Cynhaliwyd hyfforddiant ALPS Connect ar 16/11/2023.

**Cefnogi arweinwyr ôl-16 i ddarparu cyfeiriad cadarn ac effeithiol ym mhob agwedd ar eu rôl.**

Cynhaliwyd ail sesiwn DP ôl-16. Mae pob arweinydd ôl-16 wedi cael cynnig mynychu'r digwyddiad Dysgu Proffesiynol ôl-16 trawsranbarthol. Daeth 9 o ysgolion GwE i'r ail sesiwn.

**Darparu cymorth i wella'r dysgu a'r addysgu yng nghyd-destun Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch mewn dosbarthiadau chweched dosbarth.**

Cyfarfu rhwydwaith pwnc Bagloriaeth Cymru Uwch ar ddau achlysur; o ganlyniad, cymerodd dair ysgol yr awenau i rannu eu cynlluniau darparu ac Enghraifft O Un Da (WAGOLL) ar gyfer y tasgau Her. Drwy greu Teams, mae hyn

wedi hwyluso'r gwaith o rannu adnoddau. Yn ôl y 15 aelod, bu'r cyfle hwn i rwydweithio yn hynod fuddiol. Mae rhagor o sesiynau ar y gweill ar gyfer tymor y Gwanwyn.

Pontio dysgwyr - mae rhaglen DP yn cefnogi ysgolion i ddefnyddio adnoddau i gefnogi pontio. Mae adnoddau ar gael ac mae hyn hefyd ar yr agenda genedlaethol.

Adnoddau VESPA - gweithredol mewn 4 ysgol. Daeth 10 o ysgolion GwE i'r sesiwn ar strategaethau Adolygu Effeithiol Vespa ar 09/11/2023.

**Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)**

**Datblygu pecyn cymorth gyrfa gynnar cenedlaethol i gefnogi athrawon yn y 4 blynedd gyntaf o addysgu, ar y cyd ag AGA, darparwyr cyrsiau Meistr a Llywodraeth Cymru (LlC).**
**Cysoni ymhellach AGA ac addysgu ar gychwyn gyrfa.**
Cydweithio â Phrifysgol Bangor - mae GwE yn rhan o Fwrdd Llywio Rhaglen RILL ac yn hyrwyddo'r gwaith yn rhanbarthol a chenedlaethol. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r datblygiadau. Parhau y mae'r trafodaethau buddiol ynghylch y ddarpariaeth i fyfyrwyr AGA. Gwahoddwyd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg i'r gynhadledd 'Ein Llais Ni' - cafwyd niferoedd da o fyfyrwyr yno a derbyniad da ganddynt. Cydnabyddir rôl Mentor Iaith mewn ysgol a fu'n rhan o'r prosiect Ein Llais Ni gwreiddiol drwy'r bartneriaeth efo CaBan mewn adroddiad gan Estyn: Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon: Sut mae sefydliadau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cynorthwyo athrawon dan hyf-forddiant i wella eu medrau Cymraeg, gan gynn-wys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg | Estyn (llyw.cymru) Parheir i gydweithio ar y rhaglen Ein Llais Ni gyda'r Athro Enlli Thomas. Rhannwyd cytundeb gwaith cydweithredol ac mae angen cadarnhau'r dull cymorth.

Mae cynnydd yn parhau gydag achredu'r rhaglenni ADY AGA newydd. Cyhoeddwyd meini prawf achredu newydd LlC, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth o'r angen am lwybrau ADY oherwydd pwysau gan randdeiliaid yn rhanbarth GwE. Mae rhaglenni wrthi'n cael eu cyd-lunio gyda phartneriaid ysgolion arbennig ac ADY prif lif ar draws y rhanbarth. Bydd ceisiadau am y llwybrau newydd yn agor ym mis Chwefror 2023, wedi iddynt gael eu hachredu (rhaglenni i ddechrau ym mis Medi 2024, gan gynnwys llwybr blwyddyn ar sail cyflogaeth). Cynhelir cyfarfodydd grŵp llywio yn wythnosol; cynhelir cyfarfodydd grŵp i randdeiliaid ehangach.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi bod yn monitro rhaglenni prif lif (BA Cynradd, TAR Cynradd, TAR Uwchradd - ystod o bynciau) ym mis Rhagfyr 2023 yn ystod ymweliad 2 ddiwrnod â'r brifysgol ac ysgolion y rhanbarth. Roedd cydymffurfiaeth lawn a rhoddodd Cyngor y Gweithlu Addysg adborth cadarn a chalonogol. Roedd yr holl argymhellion a nodwyd yn rhan o gamau gweithredu a chynlluniau gwella cyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys parhau i ddatblygu a chyd-sicrhau ansawdd rhwydweithiau penodol o ysgolion. Mae prosesau SACA cyffredin yn parhau. Mae cyfradd llwyddo myfyrwyr yn uchel eleni. Mae lefel boddhad myfyrwyr yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Cynllunnir pob maes gwelliant drwy'r hunanarfarnu, sydd yn eu tro yn bwydo'r Cynllun Gwella ar gyfer 2023-24. Recriwtiwyd nifer sylweddol mwy o fyfyrwyr eleni o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae gweithio partneriaeth parhaus yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer AGA, gan gynnwys dysgu proffesiynol cyffredin fel y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru ar 22/06/23 a darlithoedd GwE CaBan cyson. Cafwyd ymweliad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 18/05/23 i lansio fideo recriwtio cenedlaethol ac ateb cwestiynau gan fyfyrwyr. Roedd siaradwyr yn cynnwys yr Is-Ganghellor, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, Pennaeth yr Ysgol a Chyfarwyddwr AGA. Mae llunio rhaglen gyffredin yn cynnwys gwaith ar y Gymraeg yn gysylltiedig ag ymchwil, ac ieithoedd modern mewn lleoliadau cynradd. Bydd staff GwE yn parhau i gyfrannu sesiynau at raglenni CaBan ar y campws, er enghraifft, yn Hydref 2023, bu 3 aelod o dîm GwE yn arwain sesiynau i fyfyrwyr BA ar gynllunio cwricwlwm o fewn y Cwricwlwm i Gymru, ac ym mis Rhagfyr a mis Ionawr 2024 bu 2 YCG GwE yn cynnal sesiynau i fyfyrwyr pob rhaglen ar y Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r myfyrwyr newydd wedi setlo'n dda yn eu rhaglenni, gydag aelod o dîm GwE yn cyfarfod â hwy fel rhan o'r drefn sefydlu yn ystod eu hwythnos gyntaf.

Mae ceisiadau ar gyfer Rhaglenni'r Brifysgol Agored wedi'u cefnogi ar gyfer 2023-25 - mae nifer yr ymgeiswyr yn y rhanbarth yn cynyddu. Mae nifer y ceisiadau cychwynnol ar gyfer TAR y BA ym mis Medi 2023 wedi cynyddu, ac mae GwE yn rhagweld y bydd 28 myfyriwr ar y rhaglen, o gymharu â 21 y llynedd. Mae hyn yn cynnwys 12 myfyriwr sydd wedi cael cynnig lle ar yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn bron i draean yr holl geisiadau ar draws Cymru. Rhagwelir y bydd recriwtio cyn gryfed ar gyfer mis Medi 2024, nawr fod ysgolion wedi'u recriwtio i

bartneriaeth y Brifysgol Agored er mwyn cefnogi'r cynnydd hwn. Mae cefnogaeth GwE i'r BA mewn ysgolion yn gryf iawn. Cytunwyd ar feysydd astudiaeth newydd gyda chymhorthdal ar gyfer ceisiadau, sydd ar agor ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd cymedroli ANG tra effeithiol ym mis Gorffennaf 2023, gan gynnwys cymedroli rhanbarthol (gyda phob ALl yn bresennol) a chymedroli cenedlaethol. Roedd hyn yn drylwyr a chadarn. Cafodd rhanbarth GwE adborth cadarnhaol iawn a chymedrolwyd chwe phroffil o ranbarth GwE, gyda chynrychiolwyr o'r panel cenedlaethol yn cadarnhau pob barn. Mae ANG wedi derbyn cymorth cadarn yn 2022-23. Nodwyd meysydd ar gyfer gwelliant yn 2023-24, ynghyd â chamau gweithredu. Mae cynnig dysgu proffesiynol llawn wedi parhau, gan gynnwys gweithdy arloesol i ysgolion arbennig ar 9/06/23 a gafodd dderbyniad da iawn. Dadansoddwyd adborth y gweithdy - roedd yr adborth ar gyfer pob sesiwn yn arbennig o gryf, yn enwedig (9+/10) Defnyddio Staff Cymorth yn Effeithiol, CDU, Anogaeth a Llesiant, Ymddygiad, Cyfathrebu ac Anghenion Synhwyraidd. Defnyddiwyd adborth o'r arolwg i gynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer 2023-24. Mae cyfarfodydd y cynrychiolwyr ALl rhanbarthol yn effeithiol iawn. Mae ANG Medi 2023 bellach yn cael cymorth drwy'r rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol, a chwblhawyd modiwlau cychwynnol yn nhymor yr Hydref ac mae gan ANG rhanbarthol bellach fynediad at y cynnig lleol, sy'n cynnwys amryw o sesiynau perthnasol a diweddar i wella dysgu ac addysgu, ac i ANG rwydweithio a rhannu arferion a phrofiadau yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Mae'r sesiynau hyn ar y gweill ar hyn o bryd: gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, cefnogi lles a gwreiddio asesu ffurfiannol. Roedd nifer da iawn yn bresennol yn y sesiwn gyntaf ar reoli ymddygiad heriol ar 17/01/24. Mae gan bob ANG sydd wedi'i leoli yn un o ysgolion GwE fentor yn yr ysgol yn ogystal â mentor allanol i'w gefnogi a gwerthuso ei gynnydd. Mae tîm rhanbarthol cryf ar waith o fis Medi ar draws pob ALl sy'n cefnogi ANG ac yn dod at ei gilydd i sicrhau cysondeb drwy gyfarfodydd rhanbarthol pob hanner tymor. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 02/02/24.

**AMCAN 4 - ARWEINYDDIAETH**

**Blaenoriaethau:**

**4.1 - Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol**

**RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH**

**Hwyluso'r gwaith o gyflwyno holl elfennau'r llwybr datblygu arweinyddiaeth sy'n cynnig ystod o raglenni cenedlaethol i arweinwyr canol, uwch arweinwyr ac arweinwyr profiadol.**

Mae carfanau 2022-23 y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG) a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth (RhDUA) wedi cwblhau'r rhaglen. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn yn ystod y sesiynau cyflwyno gyda'r YCG a oedd yn cadeirio yn brolio ansawdd a safon yr aelodau a'u cyflwyniadau. Wrth gyflwyno wyneb yn wyneb, roedd y cyflwynwyr yn gallu darparu cymorth ac arweiniad mwy penodol i'r aelodau ar lefel unigol, yn ogystal â chyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion da. Bydd yr aelodau hynny a fethodd ddod i Fodiwl 5 yn cael cyfle i gyflwyno yn nhymor y Gwanwyn.

Parheir i ddiweddaru'r cynnwys i sicrhau ei berthnasedd, gan gynnwys y newidiadau cyfredol mewn addysg ym mhob rhaglen.

Mae lleoliad y rhaglenni RhDAG a RhDUA yn cael ei gylchdroi er mwyn sicrhau tegwch o ran lleoliad daearyddol.

Ar gyfer pob rhaglen, anogwyd yr aelodau i ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac maent wedi cael arweiniad ar sut i'w ddefnyddio. Anogir yr aelodau i ddefnyddio'r adnodd i gofnodi a myfyrio ar eu cynnydd ar draws y llwybr arweinyddiaeth. Mae angen gwreiddio ymhellach y defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol a hyrwyddir hyn gyda charfan 23-24. Mae rhwydd hynt i'r aelodau ddefnyddio'r adnodd yn ôl eu hanghenion yn unol ag egwyddorion y rhaglen.

Oedwyd prosesau ardystio y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP). Mae staff GwE yn rhan o'r gweithgor ac wrthi'n cyd-lunio'r rhaglen CPCP newydd yn barod i'w hail-lansio yn yr Hydref, 2024.

| |
|---|
| Mae dau gyfle arall am ganolfan asesu i'r rheiny sydd wedi gwneud y Rhaglen i Ddarpar Benaethiaid. Gwahoddwyd Awdurdodau Lleol hefyd i enwebu penaethiaid mewn swydd, sydd â'r hawl i wneud llwybr asesu yn unig i'r cymhwyster ym mis Mai.<br>Mae'r Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Mewn Swydd wedi'i hailstrwythuro i hwyluso gwell cynrychiolaeth a chynnig cyfleoedd i arweinwyr ar draws pob awdurdod i rwydweithio'n effeithiol. O ganlyniad, bydd modiwlau rhanbarthol bellach yn cael eu cyfuno ar gyfer eu cyflwyno wyneb yn wyneb.<br><br>Oedwyd y Rhaglen i Benaethiaid Profiadol tra bydd y rhaglen CPCP yn cael ei llunio.<br><br>Mae oedi yn y gwaith o gyd-lunio'r rhaglen datblygu Arweinyddiaeth System tra bod penderfyniadau ynglŷn â'r CPCP yn cael blaenoriaeth.<br><br>Caiff ymarferwyr y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr ar gyfer 2023-24 gefnogaeth gan rwydwaith effeithiol o hwyluswyr, mentoriaid ysgol, cymhellwyr arweinyddiaeth, Penaethiaid ac YCG. Hwylusir y cymorth hwn gan y tîm busnes rhanbarthol.<br><br>Adolygwyd a mireiniwyd y rhaglenni i ofalu bod y cyfranogwyr yn deall eu rôl mewn system sy'n hunanwella, drwy egwyddorion Tasg Profiad Arweinyddiaeth a sesiynau yn seiliedig ar gylch gwella a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.<br><br>Anogir pob darpar aelod yng ngharfanau 23-24, ble'n briodol, i anelu at y lefel nesaf ar hyd y llwybr arweinyddiaeth.<br><br>Mae pob ymarferwr wedi cael gwell dealltwriaeth o'r safonau arweinyddiaeth a sut gall y safonau hynny gefnogi eu datblygiad proffesiynol.<br><br>Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r rheiny sydd wedi dangos y dystiolaeth, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol o ran arweinyddiaeth ysgol gyfan yn sgil cwblhau'r Rhaglen Datblygu i Ddarpar Benaethiaid (RhDDB). Byddant bellach yn symud i'r cam nesaf i baratoi tystiolaeth ar gyfer prifathrawiaeth yn y Ganolfan Asesu CPCP ym mis Chwefror 2024, a bydd cyfle arall ym mis Mai i'r rheiny nad ydynt wedi bodloni'r safonau hyd yma. Rhoddwyd gwybodaeth berthnasol i'r aelodau.<br><br>Mae carfanau RhDAG a RhDUA bellach wedi'u gosod. |
| **CALU - LLDC** |
| **Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu**<br>Dechreuwyd defnyddio y ffurflenni gwerthuso cenedlaethol ar gyfer pob rhaglen yn seiliedig ar fodel Kirkpatrick.<br><br>Lansiwyd y rhaglen Ymsefydlu yn genedlaethol ar ei newydd wedd ar Tachwedd 6ed. Mae'r Adran Gyfathrebu genedlaethol wedi creu deunyddiau newydd ar gyfer hysbysebu'r rhaglen ddiwygiedig, ac wedi rhannu'r wybodaeth gyda thîm Cyfathrebu GwE. Mae'r hyfforddiant yn cael ei hysbysebu yn y Bwletin, Dosbarth Google i Gymorthyddion ac yn Cynnig GwE. Gwahoddir cymorthyddion sydd wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen i ymuno am sesiwn hanner diwrnod yn dymhorol dros TEAMS er mwyn darparu cefnogaeth iddynt gwblhau pob modiwl. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn. Roedd pob un a gwblhaodd y modiwlau yn nodi bod y cynnwys yn briodol i'w hanghenion a'u lefel sgiliau a'u bod wedi ennill gwybodaeth a sgiliau newydd a fydd yn eu datblygu yn eu rôl. Nododd pob un hefyd y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.<br><br>Yn dilyn adolygu cynnwys a diwyg y rhaglen Cymorthyddion Wrth Eu Gwaith yn genedlaethol yn unol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, dechreuwyd ei defnyddio ar ei newydd wedd gyda chlystyrau o ysgolion. Bellach mae 5 clwstwr wedi cwblhau'r hyfforddiant, 4 clwstwr wedi cychwyn yr hyfforddiant a 2 glwstwr arall wedi ymrwymo i gynnal yr hyfforddiant eleni hyd yn hyn. Nododd bron y cyfan eu bod wedi ennill gwybodaeth a sgiliau newydd a fydd yn eu datblygu yn eu rôl tra bod pob un yn nodi bod y cynnwys yn briodol i'w hanghenion a'u lefel sgiliau ac y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.<br><br>Cwblhaodd 25 cymhorthydd y rhaglen Darpar CALU Cylch 6, ac fe dderbyniodd 20 cymhorthydd eu statws CALU ym mis Rhagfyr 2023. Derbyniwyd 35 cais ar gyfer rhaglen Darpar CALU Cylch 7, ac fe ddechreuodd 30 ar y rhaglen ym mis Hydref. |

| |
|---|
| Derbyniwyd 30 cymhorthydd ar gyfer y rhaglen Darpar CALU Cylch 8, a byddent yn cychwyn ar y rhaglen ym mis Chwefror 2024.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn diweddaru gorfodol ar gyfer aseswyr cyn cynnal asesiadau Cylch 5 a 6, gan uwch-sgilio a grymuso CALU ac athrawon sy'n arwain ac yn cefnogi cydweithwyr yn eu lleoliadau.<br><br>Cynhaliwyd asesiadau Cylch 5 ar gyfer ymgeiswyr gyda 34 yn bodloni y safonau cenedlaethol ar gyfer Statws CALU, sef 100% o'r ymgeiswyr. Cynhaliwyd asesiadau Cylch 6 ar gyfer ymgeiswyr gyda 20 yn bodloni y safonau cenedlaethol ar gyfer Statws CALU, sef 100% o'r ymgeiswyr. Sicrhawyd ansawdd a phrosesau asesu cadarn drwy sesiynau cymedroli rhanbarthol a chenedlaethol trylwyr a nodwyd bod safon cyffredinol y myfyrdodau yn uwch na'r gorffennol oherwydd safon trafodaethau a rhyngweithio proffesiynol wyneb yn wyneb yn ystod y rhaglen. Mae adborth ffurflenni arfarnu cychwynnol ac yn dilyn y broses asesu yn gadarnhaol iawn gyda bron bob un ateb naill ai yn cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r datganiadau.<br><br>Comisiynwyd Ysgol i gynnal hyfforddiant OLEVI ' Cymhorthydd Addysgu Eithriadol'. Cynhaliwyd 5 sesiwn 1 yn yr Ysgol gyda 10 cymhorthydd yn bresennol. Gwahoddwyd mentoriaid ysgol y cymorthyddion i sesiwn 5, er mwyn clywed y cymorthyddion yn cyflwyno eu gwaith. Nododd bob un a fynychodd yr hyfforddiant y byddai'r hyfforddiant yn cael effaith cymedrol neu sylweddol ar eu hymarfer yn y dyfodol a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn ganddynt.<br><br>Comisiynwyd Canolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor i ddarparu hyfforddiant Dyslecsia i 15 o gymorthyddion, fydd yn arwain at achrediad Statws Ymarferydd Dyslecsia. Cynhelir yr hyfforddiant dros Tymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn. Cynhaliwyd 1 diwrnod cyfan a 6 sesiwn hanner diwrnod eisoes.<br><br>Comisiynwyd dwy ysgol arbennig, i gynnal sesiynau rhannu arferion effeithiol gyda chymorthyddion prif lif. Bydd y sesiynau yn canolbwyntio ar Awtistiaeth, ymddygiad, a dulliau cyfathrebu a dysgu synhwyraidd. Cynhaliwyd sesiwn i 59 cymhorthydd mewn clwstwr penodol ar 8/1/2024 lle bu i aelodau o staff Ysgol rannu arferion effeithiol o ran 'Derbyn Awtistiaeth' *(Autism Acceptance)* a 'Hunan-reoleiddio ac ymddygiad cadarnhaol' *(Self-regulation & positive behaviour).* Nododd bron bob un o'r cymorthyddion y byddai'r hyfforddiant yn cael effaith cymedrol neu sylweddol ar eu hymarfer. O ran hyfforddiant i'r dyfodol nododd y mwyafrif yr hoffent dderbyn mwy o hyfforddiant ar ADY ac Ymyraethau, gyda lleiafrif yn nodi yr hoffent dderbyn hyfforddiant ar ymddygiad.<br><br>Rhwydwaith tymhorol i gymorthyddion ac uwch-gymorthyddion – cynhaliwyd y sesiwn cyntaf dros TEAMS ar Tachwedd 7fed rhwng 3.30 a 4.00pm. Rhoddwyd cyflwyniad am y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu, ac fe ofynnwyd i'r cymorthyddion am yr hyn a fyddent yn dymuno ei gynnwys mewn rhwydweithiau yn y dyfodol. Cynhelir y sesiwn nesaf gan aelodau o dîm digidol GwE. |
| **CYMELL A MENTORA** |
| **Parhau i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o gymell a mentora ar draws system addysg Cymru, sy'n darparu pecyn cymorth i helpu i wella safonau addysg yng Nghymru.**<br>Cyflwynwyd Rhaglen Genedlaethol yn Gymraeg a Saesneg yn ystod tymor yr haf i aelodau UDA, Cydlynwyr ADY a CALU.<br><br>Anfonwyd e-bost at bawb sydd wedi cael hyfforddiant yn rhanbarth GwE yn y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf yn gofyn iddynt gwblhau holiadur er mwyn casglu gwybodaeth am wir effaith yr hyfforddiant.<br><br>Rhannwyd gwybodaeth am y cymhwyster lefel 3 yn dilyn y sesiynau cenedlaethol, a rhannwyd gwybodaeth am gymwysterau lefel 5 a lefel 7 ag ysgolion a staff GwE.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol i ganfod ysgolion ar gyfer prosiect cydweithredol gyda 3 ysgol uwchradd, 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol arbennig. |
| **CYMORTH I LYWODRAETHWYR** |
| **Gweithio efo awdurdodau lleol i sicrhau bod cyrff llywodraethu wedi'u paratoi ar gyfer rhoi 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' LlC ar waith.** |

Darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol a chefnogaeth o safon uchel i gyrff llywodraethu ar destunau megis hunanarfarnu, data a gwybodaeth, y Cwricwlwm i Gymru, cynllunio ar gyfer gwelliant, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac arweiniad ar gyrff llywodraethu effeithiol.

Cefnogwyd cyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr. Ar ben hynny, rhoddwyd cefnogaeth i gyrff llywodraethu gyda phrosesau rheoli perfformiad Penaethiaid.

Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gymorth gyda hunanarfarnu a chynllunio datblygiad, gan gynnwys cymorth cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn cyn ac yn ystod arolygiad. Yn ogystal, darparwyd cymorth pwrpasol i gyrff llywodraethu ysgolion sydd mewn Adolygiad gan Estyn a chategorïau statudol, fel bo'n berthnasol.

Darparwyd cymorth i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALl a SCLl. Bydd yr holl randdeiliaid yn elwa o rannu gwybodaeth.
Cynrychiolwyd GwE yn y cyfarfodydd i Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr Cenedlaethol:

- Cyfarfod grŵp SCLl CCAC 08/06/23 a 26/10/23
- Cyfarfod SCLl Gogledd Cymru 14/06/23 a 09/11/23
- Grŵp SCLl Cenedlaethol ar 09/11/23.

Darparwyd cymorth i'r chwe ALl yn y rhanbarth wrth iddynt ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu i gefnogi gwella ysgolion. Bydd angen cefnogaeth ac arweiniad pellach i lywodraethwyr y chwe ALl yn y cyfnod cyn cyflwyno'r Fframwaith Gwella Ysgolion ym mis Medi 2024 a fframwaith cymhwysedd llywodraethwyr LlC.

Cytunwyd ar raglenni cymorth o flaen llaw gyda SCLl y 6 ALl, gan gynnwys darpariaeth unigryw i bob ALl yn y flwyddyn academaidd 2023-24. Mae hyn yn welliant ar flynyddoedd blaenorol pan drafodwyd rhaglenni cymorth a chytuno arnynt wrth i'r flwyddyn ysgol fynd yn ei blaen. Mae'r cynllunio gwell hwn wedi caniatáu i'r SCLl gyhoeddi eu rhaglenni o flaen llaw ac annog llywodraethwyr i fynychu. Mae'r nifer yn mynychu wedi gostwng o gymharu â 22-23.

## YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

**Cefnogi gweithredu parhaus yng nghyd-destun Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD) a'r trosglwyddo ehangach i system addysg sy'n dysgu.**
**Cefnogi datblygiad y gweithlu yng nghyd-destun ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.**
Bu GwE mewn cyfarfod trawsgonsortia YSD gyda chynrychiolwyr LlC. Trafodir yn gyson â'r partneriaid hyn mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Strategaeth Genedlaethol YSD ac yn erbyn y nodau a ganlyn.

- Cynlluniau datblygu ysgolion a lleoliadau yn cael eu bwydo gan ddefnydd hunan feirniadol o hunan arfarnu, ymholi a'r arolwg YSD. Mae ysgolion yn herio eu hunain yn gyson i wella fel sefydliadau sy'n dysgu
- Mae gan bob addysgwr proffesiynol fynediad at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda, sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau a chyfleoedd i fyfyrio, ymholi a chydweithio ar gyfer dysgu.

Er mwyn hyrwyddo'r model YSD ac annog cwblhau'r arolwg YSD, bu aelod o dîm GwE ddarparu'r sesiwn dysgu proffesiynol gyntaf mewn cyfres ohonynt ar draws y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth y gweithlu mewn perthynas ag YSD. Roedd hyn yn cynnwys:

- Sut mae'r YSD yn galluogi ysgolion i fodloni'r canllawiau gwella ysgolion
- Paratoi at Estyn yn arolygu'r dyfodol 24-30
- Llywodraethu a'r fframwaith atebolrwydd newydd
- Dysgu proffesiynol a chydweithio
- Ymchwil academaidd ac yn seiliedig ar dystiolaeth i lywio'r addysgeg
- Diwylliant o ymddiriedaeth a meddwl gyda'n gilydd
- Defnyddio technoleg ac amser i lywio hunanarfarnu, datblygiad proffesiynol a gyrru gwelliant ysgol.
- Cyflwyno'r holiadur YSD a'i ddefnyddio i lywio strategaeth
- Cyfle i edrych ar yr holiadur YSD a'i gwblhau

Cynhelir rhagor o sesiynau a'u cysylltu â Dysgu Proffesiynol i arweinwyr yn ymwneud â'r Canllawiau Gwella Ysgolion yn ystod Tymor y Gwanwyn/Haf. Bydd y sesiynau Dysgu Proffesiynol yn cynnwys astudiaethau achos gan ysgolion ym mhob sir gydag arferion llwyddiannus ac enghreifftiau ymarferol o arferion. Fel hyn, gall Penaethiaid ac uwch arweinwyr weld sut mae eu harferion presennol yn bodloni agweddau ar y model YSD, yn hwyluso hunan wella yn yr ysgol ac yn llywio gwelliant strategol.

Trefnwyd cyflwyniadau hefyd i hyrwyddo YSD gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr ac Arweinwyr Portffolio Addysg ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar draws y rhanbarth. Bydd y sesiynau hyn yn rhoi'r model YSD mewn cyd-destun yn erbyn y tirwedd addysgol presennol ac yn rhoi gwybodaeth i ystod ehangach o randdeiliaid gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a niferoedd.

**RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION**

**Hyrwyddo a goruchwylio cydweithio ysgol-i-ysgol a gweithio clwstwr.**
**Darparu Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (RhPY) yr Education Development Trust (EDT) ar draws ysgolion y rhanbarth. Rhaglen tair blynedd yw hon sy'n cefnogi arweinwyr ysgolion gyda gwerthuso cymheiriol a chymorth cymheiriol.**
Ceir cytundeb ar egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid ers pum mlynedd bellach. Cytunwyd ar fodel adolygu a chynllunio gwelliant gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) a chafodd y cynllun hwnnw ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023 mae 29 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (RhPY)*. Derbyniodd holl aelodau newydd o staff GwE eleni ddiweddariad ar hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*.

Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gychwynnol yn ystod Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi ei hwyluso yn llwyr gan staff GwE yn i gohort 3b Yn ystod Mis Mai 2022. Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023, mae 20 Ymgynghorwr Cefnogi Gwelliant ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant fel cyflwynwyr rhaglen, golyga hyn fod trideg tri o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach a'r gallu i gyflwyno'r rhaglen partneriaethau ysgolion yn llwyddiannus. Yn dilyn y cynnydd hwn mewn cynhwysedd i gyflwyno'r rhaglen fe ddarparwyd hyfforddiant cychwynnol i 90 o ysgolion yn cohort 3C gan y tîm o hwyluswyr GwE.

Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023, mae 46 clwstwr/ cynghrair (255 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid. Mae 329 o benaethiaid/uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 290 o uwch arweinwyr/arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon uchel a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r tair haen gyntaf o ysgolion sydd ynghlwm dderbyn hyfforddiant ymestynnol ar gyfer eu hwyluswyr gwelliant ac hyfforddiant i ddatblygu arweinyddiaeth cydweithredol erbyn Mis Rhagfyr i 2023 gyda'r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil yn eu gweithdai gwelliant. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd ar draws y rhanbarth i ysgolion a phartneriaethau ehangu ar eu cynhwysiant i weithredu'r rhaglen drwy hyfforddi hwyluswyr gwelliant ychwanegol.

Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl yma mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi eu ffurfio i gyd fynd a'r broses gymheiriol, ac fe gyfeirir ysgolion sy'n derbyn yr hyfforddiant at yr ysgogiadau cwricwlwm sy'n rhan o'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella.

Ym mis Ionawr 2023, estynnwyd gwahoddiad i ysgolion a chlystyrau nad oedd eisoes yn rhan o'r rhaglen fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* fel rhan o garfan 4. Cafwyd cyfanswm o 43 o ysgolion yn mynegi diddordeb. Golyga hyn erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023 felly, fod tu hwnt i hanner o ysgolion y rhanbarth wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol a bellach yn neu wedi dechrau ar eu gwaith adolygu a chynllunio gwelliant gyda chymheiriaid.

Fel rhan o'n partneriaeth gyda'r "Education Development Trust" fe rannwyd holiaduron cychwynnol gyda'r holl ysgolion sydd yn rhan o'r *Rhaglen Partneriaethau Ysgolion*. Dengys dadansoddiad ymchwilydd EDT o'r ymatebion fod 77% o Benaethiaid yn datgan fod eu profiad o'r rhaglen yn dda neu'n wych tra bod 100% o athrawon yn datgan fod eu partneriaeth gydag ysgolion eraill yn gryf neu'n gryf iawn yn dilyn y rhaglen. Mae pedwar clwstwr/cynghrair o ysgolion wedi eu clustnodi i'w cynnwys mewn cyfweliadau cynhwysfawr gyda'r ymchwilydd fydd yn arwain at ddatblygu astudiaethau achos i graffu ymhellach ar effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2023-24.

Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023 mae cytundeb y rhanbarth gyda'r "Education Development trust" yn dirwyn i ben. Bydd y gwaith o werthuso effaith y Rhaglen yn parhau i gael ei gwblhau gan uwch ymchwilydd EDT. Yn unol a'r cytundeb gwreiddiol mae'r arweinydd rhanbarthol ar y rhaglen ynghyd a rhai o hwyluswyr GwE wedi craffu ar yr hyfforddiant a'i addasu er mwyn ymateb yn uniongyrchol i ofynion Canllaw Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru. Bydd ysgolion y rhanbarth sydd heb dderbyn hyfforddiant y RhPY hyd yn hyn yn derbyn y cynnwys hwn ar ei newydd wedd fel rhan o ddarpariaeth y rhanbarth ar gyfer y Canllaw yn 2024.

**AMCAN 5 – PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB**
**Blaenoriaethau:**

**5.1 - Cefnogi lles a gwytnwch staff**

**5.2 - Cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.**

**5.3 - Cefnogi ysgolion i ddarparu tegwch i bawb trwy fynd i'r afael â difreintedd a chael perthynas gadarn efo rhieni/gofalwyr yn eu cymunedau.**

**GDD / PMG**

**Cefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus.**
Mae GwE yn parhau i ddarparu hyfforddiant Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS) ar draws y rhanbarth i gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus. Daeth diploma TIS GwE 14 ac 15 i ben ar ddiwedd y chwarter ac mae GwE 16 ar-lein wedi dechrau sydd bellach yn hyfforddi 24 o ymarferwyr yn rhagor. Yn sgil yr hyfforddiant bydd gan ysgolion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion sy'n ystyriol o drawma a sut gallant helpu dysgwyr bregus a difreintiedig.

Rhannwyd y canllawiau GDD/GDD-PMG newydd ag YCG er mwyn cefnogi eu gwaith mewn ysgolion a sgyrsiau am ddefnyddio grantiau GDD a GDD-PMG. Fel rhan o ymweliadau'r YCG mae mwy o bwyslais ar sut mae ysgolion yn cefnogi eu dysgwyr bregus, a sut mae'r ysgol yn monitro'r cynnydd a wna dysgwyr.

Mae aelod o dîm GwE yn mynychu cyfarfodydd tymhorol gyda Chydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Cyfle Cynnar ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) ac arweinwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gwybod beth mae'r naill a'r llall yn ei gynnig, ac yn helpu i atal dyblygu gwaith o ran cynigion Dysgu Proffesiynol. Bydd hyn hefyd yn helpu i fonitro effaith y gwaith a wneir ac effaith cynlluniau ysgolion ar gyfer eu gwariant GDD-PMG a sut mae hyn yn cael ei ddal. Trefnir cyfarfodydd gyda Chydlynwyr Plant mewn Gofal i adolygu gwariant GDD-PMG.

Mae'r model clwstwr o weithio efo GDD-PMG yn fodd i glystyrau fod yn fwy creadigol gyda sut defnyddir y grant i gefnogi disgyblion ar draws y dalgylch.

Mae Prifysgol Bangor yn cychwyn treialu'r strategaeth ar-lein i rieni, sef 'COping', sy'n gweithio gyda gofalwyr plant sy'n derbyn gofal ac ysgolion. Anfonwyd holiadur cychwynnol i ysgolion er mwyn i rieni ymateb iddo. Bydd hyn yn helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant mewn amrywiol ffyrdd.

**Parhau i weithredu rhaglen Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Ddifreintiedig (RADY) ar draws y rhanbarth**
Bwriad y rhaglen hirdymor hon yw cefnogi ysgolion i roi sylw i effaith difreintedd ar eu dysgwyr gan ddefnyddio'r dull 'tegwch nid cydraddoldeb'. Cynhaliwyd cyfarfod RADY cychwynnol ar-lein, ac mae'n rhan o ymrwymiad GwE i'r Flaenoriaeth Genedlaethol ar gyfer Iechyd, Lles a Thegwch.

Bydd egwyddorion a dulliau RADY yn addas i bob dysgwr. Mae egwyddorion RADY yn seiliedig ar 'wneud rhywbeth gwahanol' drwy:

- Godi Ymwybyddiaeth o Bobl Ifanc Difreintiedig
- Codi Dyheadau Dysgwyr Difreintiedig
- Codi Disgwyliadau Pobl Ifanc Difreintiedig

Mae mwy nag un haen i raglen RADY. Mae'r rhaglen hon yn ymrwymiad hirdymor ac ni ddylai ysgolion ddisgwyl gweld unrhyw effaith ar ddeilliannau dysgwyr difreintiedig yn syth. Er hynny, buan iawn y gwêl ysgolion effaith ar ymddygiad dysgwyr a staff, gan ddod i ddeall rhai o ganlyniadau difreintedd ar ddysgwyr, ac ar ganfyddiadau a chydberthnasau. Bydd hyn yn cyfrannu maes o law at newid diwylliant mewn ysgolion a gaiff effaith ar ddeilliannau dysgwyr yn y pendraw. Mae 14 ysgol wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno RADY am y tro cyntaf, gan weithio gydag Uwch Arweinwyr i wreiddio system o ddysgu ac addysgu a disgwyliadau o safon uchel. Mae'r ysgolion sydd yn cymryd rhan yn dechrau gweld arwyddion cynnar o welliant gyda dull gweithredu sy'n plethu disgyblion bregus drwy ddatblygiad a gwelliant ysgol. Yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, mae angen mesur effaith y cymorth ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar les disgyblion. Cesglir yr wybodaeth hon drwy ymweliadau ysgolion a chofnodir yr effaith yn adroddiadau monitro nesaf a therfynol y Cynllun Busnes Iechyd a Lles.

**Rhaglen Dysgu ac Addysgu i Gefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig (SVL)**
Mae Adnodd Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr bregus wedi'i lansio. Mae'r rhaglen hon yn agored i staff o ysgolion ac Awdurdodau Lleol gogledd Cymru. Ffocws y rhaglen yw 'Sut ydych chi'n cyflawni tegwch yn y dosbarth i Ddysgwyr Bregus a Difreintiedig?' Wedi'i chomisiynu gan y Consortia, a'i darparu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru yn unig, mae Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol yn rhaglen gymorth broffesiynol bwrpasol a chynhwysfawr sydd yn tynnu ynghyd strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn helpu ymarferwyr i gyfoethogi a gwreiddio arferion dosbarth effeithiol. Yn dilyn lansio'r deunyddiau ym mis Chwefror, cyflwynodd Mike Gershon dri sesiwn ym mis Mai 2023 gan dywys Uwch Arweinwyr drwy'r rhaglen.

Dyma fanteision y rhaglen:

- Cefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig trwy ddatblygu a chyfoethogi dysgu ac addysgu
- Cadw dysgu ac addysgu ar frig yr agenda
- Ysbrydoli athrawon i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol am eu harferion
- Rhoi'r adnoddau i athrawon y gallant eu defnyddio i ddatblygu eu harferion
- Hwyluso a chynnal arferion arloesol o fewn dosbarthiadau

Ceir yr holl adnoddau yma www.supportingvulnerablelearners.cymru ac maent yn gwbl ddwyieithog. Crëwyd fideo i hyrwyddo'r adnodd sydd newydd gael ei lansio ac fe'i rennir ar draws Cymru ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn bwletinau.

Mae 7 ysgol wrthi'n treialu'r adnodd hwn fel rhan o'u cynllun datblygu ysgol. Cawsant gyfle i drafod yr adnodd efo'r datblygwr, a roddodd arweiniad iddynt ar y dull mwyaf effeithiol o'i ddefnyddio. Bydd y 7 ysgol yn creu astudiaeth achos fideo i'w rhannu'n genedlaethol.

**Cefnogi efo llesiant staff ysgolion ar draws y rhanbarth.**
Mae lles ein plant a'n gweithlu yn parhau yn flaenoriaeth, ac rydym ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles ein staff mewn ysgolion a'n plant a'n pobl ifanc ar draws y rhanbarth. Mae Penaethiaid yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt o ran darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaeth. Nododd bron bob Pennaeth bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn eithriadol o bwysig er mwyn rhannu syniadau ac arferion da. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

**Cefnogi efo llesiant uwch arweinwyr mewn ysgolion trwy ddarparu 'Lle i Fyfyrio', cyfarfodydd grŵp ac i unigolion, fel bo'r angen.**
Trefnwyd sesiynau 'Lle i Fyfyrio' ar gyfer ysgolion, ac mae hyn yn dal i gael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth wrth i ni barhau i weld galw am y math hwn o gymorth. Hwylusir y sesiwn trwy gyfrwng ystafelloedd trafod a model myfyrio a gwrando penodol i ddilyn. Fel hyn, bydd strwythur i gyd-weithwyr ei ddilyn, a chyfle hefyd iddynt

| |
|---|
| wrando a myfyrio gyda'u cymheiriaid. |
| **STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR** |
| **Gwella ymgysylltiad rhieni**<br>Mae'r Awdurdodau Lleol a GwE wedi darparu ystod o ganllawiau ac adnoddau o safon uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, ac wedi gweithio hefyd â Mike Gershon i hwyluso mynediad rhieni at ddeunyddiau safonol fel eu bod hwythau'n gallu cefnogi eu plant. Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i ddeunyddiau 'Helpu Eich Plentyn i Ddysgu', 'Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu' ac i'r adnodd 'Adolygu hefo Mike'. Mae'r ystod o strategaethau adolygu hefyd wedi dylanwadu ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau diwedd blwyddyn. Sefydlwyd grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o GwE a phob un o'r AauLl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysgu eu plant.<br><br>Mae grŵp bach o 5 cymhorthydd dysgu wedi creu adnoddau ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys 4 sesiwn 1-1.5 awr y gall cymorthyddion eu cyflwyno i rieni a'u plant yn yr ysgol. Maent yn seiliedig ar adnoddau 'Helpu eich Plentyn i Ddysgu' Mike Gershon. Cynlluniwyd y pecynnau i'w defnyddio gydag ychydig iawn o waith paratoi. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer mis Tachwedd i ddatblygu astudiaeth achos gan yr ysgolion sydd wedi creu'r adnodd. Gwahoddir yr ysgolion a ddatblygodd yr adnodd i rannu'r adnoddau a'u profiadau mewn cyfarfodydd Rhwydwaith. Mae'r Grŵp bellach yn ystyried sut i wneud y pecyn yn fwy hylaw i rieni. Maent yn gweithio ar set o ffeiliau sain efo cod QR i'w gwneud nhw'n fwy hwylus i bob rhiant.<br><br>Mae ysgol sydd wedi gwella ymgysylltu â theuluoedd trwy waith y swyddog ymgysylltu wedi llunio astudiaeth achos. Adnabuwyd arferion yr ysgol fel arferion rhagorol a bydd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy GwE, ond bydd hefyd yn cael ei rannu â'r Grŵp Tegwch Cenedlaethol a TIS UK.<br><br>Mae rhwydwaith i gefnogi gweithwyr ymgysylltu â theuluoedd wrthi'n cael ei drefnu. Diben hwn fydd rhannu arfer da a hwyluso cyfleoedd i drafod unrhyw faterion cyffredin ac awgrymu hyfforddiant i'r dyfodol.<br><br>Mae Prifysgol Bangor yn cychwyn treialu'r strategaeth ar-lein i rieni 'COPING', sy'n gweithio gyda gofalwyr plant sy'n derbyn gofal ac ysgolion. Anfonwyd holiadur cychwynnol i rieni i ysgolion. Bydd hyn yn helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant mewn amrywiol ffyrdd.<br><br>Mae Buddsoddwyr mewn Teuluoedd yn cael ei hyrwyddo yn y rhanbarth fel adnodd i helpu i ddatblygu Ysgolion Bro a sut mae hyn yn cefnogi'r disgyblion mwyaf bregus. Mae cyfarfod ag arweinwyr CFS i bob ALl ar y gweill. Mae rhwydwaith o weithwyr ymgysylltu â theuluoedd wedi'i greu. Byddwn yn cyfarfod yn fuan i weld sut y gallwn eu cefnogi i hyrwyddo eu gwaith a datblygu Cymuned Dysgu Proffesiynol efo nhw.<br><br>Mae'r Grŵp Tegwch Cenedlaethol wrthi'n creu rhaglen Genedlaethol ar ddatblygu strategaeth dlodi, i'w chyflwyno i Uwch Arweinwyr ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys yr elfen ymgysylltu â rhieni. |

| |
|---|
| **AMCAN 6 – MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB**<br><br>**Blaenoriaethau:**<br><br>**6.1 - Helpu ysgolion i gynllunio'r fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru.**<br><br>**6.2 - Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu.**<br><br>**6.3 - Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'** |
| **Y GYMRAEG MEWN ADDYSG** |
| **Cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru**<br><u>Cefnogaeth DP i YCG ac ysgolion</u> – mae crynodeb o'r gefnogaeth wedi ei lunio a'i rannu gyda'r YCG. Mae'r cydweithio cenedlaethol wedi arwain at ddechrau model o ddarpariaeth ar ffurf rhaglenni cenedlaethol gyda rhaglen ar gyfer arweinwyr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael ei hyrwyddo yn rhanbarthol. Mae'r <u>Adnodd cenedlaethol i gefnogi hunanwerthusiad o'r Gymraeg</u> yn rhan o sesiynau cefnogaeth i arweinwyr ac yn plethu i'r |

AC:GG. Yn genedlaethol, mae'r adrannau sydd wedi cael eu pennu ar gyfer llunio rhaglenni DP yn cael eu poblogi a chyfeiriad clir a phwrpasol yn ei le ar gyfer datblygiadau pellach – trosolwg gwefan Consortia.

Mae Gwaith yn mynd rhagddo i lunio canllaw ar gyfer YCG sy'n rhoi trywyddau ymholi penodol ar gyfer cefnogi datblygiad y Gymraeg mewn ysgolion. Mae blaenoriaethau ysgolion 23-24 sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi cael sylw trylwyr ac yn sicrhau fod darpariaeth a chefnogaeth i weithredu gwelliant wedi ei gynllunio naill ai drwy'r ALl neu gan YCG y Gymraeg a Llythrennedd. Mae trafodaethau rhwng Arweinwyr Craidd a Swyddogion mewn awdurdodau wedi eu cynnal. Mae Swyddogion Prosiect Ein Llais Ni wedi targedu ysgolion a chlystyrau sy'n blaenoriaethu llafaredd y Gymraeg yn eu cyswllt gydag ysgolion ac yn rhan o'r ddeialog gyda'r YCG perthnasol.

Gweithgorau traws-ranbarthol - y wefan traws-ranbarthol yn parhau i gael ei boblogi gan y gweithgorau. Cytundeb gyda Llywodraeth Cymru fod y wefan yn cael ei lawnsio ym mis Ebrill. Mae trywyddau datblygu i'r dyfodol yn cael eu gwyntyllu e.e. datblygu arweiniad a chefnogaeth DP genedlaethol ar gyfer ysgrifennu ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn rhannu'r cyfeiriad cenedlaethol gyda swyddogion yr awdurdodau lleol – mae'r swyddogion yn rhan o'r gweithgorau ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Cynnig DP Y Gymraeg – wedi ei lunio ac ar gael i ysgolion:

- Cynhadledd 'Ein Llais Ni' wedi ei chynnal ar gyfer dros 100 o ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth. Hefyd wedi gwahodd ymarferwyr sy'n dilyn cwrs Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn a 46 o fyfyrwyr AGA cyfrwng Cymraeg a Saesneg Prifysgol Bangor.
- Rhwydweithiau cydlwynwyr llythrennedd uwchradd ac arweinwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal yn dymhorol.
- Rhwydwaith cariad@ddarllen tymhorol wedi ei gynnal (5/12/2023) ac adborth gwerthfawr yn dilyn y sesiwn bore. YCG y Gymraeg a Llythrennedd wedi cael gwahoddiad i gefnogi ysgolion er mwyn gallu rhoi arweiniad ar gynnwys rhieni yn y broses o hybu darllen.
- Rhaglen tridiau yn cyfuno sgiliau digidol a llythrennedd ar draws y cwricwlwm ar waith – diwrnod 1 ar y 9fed o Dachwedd.

Rhannu arferion llwyddiannus – mae bore agored yn rhannu gweledigaeth pennaeth mewn YCS cynradd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Anfonwyd ffurflen werthuso L1 wedi ac mae ymatebion cadarnhaol wedi eu rhannu. Rhoddwyd y sgôr 5* gan bob un wnaeth ymateb i'r digwyddiad gyda sylwadau hynod werthfawrogol wedi eu nodi e.e. *It was great to see Cymraeg in action, but also to hear the journey to getting to where you are today. I came away with lots of ideas; Being able to see the school environment; being able to see the staff's expectations of the children in terms of speaking Welsh; being able to see the small steps taken to embed Welsh in school life; hearing Brian and Laura's background and how they worked gradually but persistently to get where they are now.*

Y Gymraeg yn y Bwletin – ceir adran benodol yn y Bwletin yn hyrwyddo cefnogaeth, gwybodaeth a darpariaeth ar gyfer holl agweddau'r maes yn cael ei boblogi yn barhaus. Mae hyn yn arwain at gynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae darpariaeth genedlaethol yn cael ei hyrwyddo yn ogystal.

Cynlluniau clwstwr – mae'r cynlluniau wedi eu cymeradwyo gan bron bob awdurdod.

Cyd-weithio gyda Phrifysgol Bangor – mae aelod o dîm GwE yn rhan o Fwrdd Llywio'r rhaglen RILL ac yn hyrwyddo'r gwaith yn rhanbarthol a chenedlaethol. Sicrheir ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r datblygiadau.

**Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu**

Mae gwybodaeth i ymarferwyr gryfhau eu sgiliau ieithyddol Cymraeg neu'n gyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg yn eitem barhaus yn y Bwletin. Mae 14 (uchafswm nifer) yn dilyn y Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn ar gyfer 2023-24. Mae o leiaf 14 o staff GwE yn ymgymryd a chyrsiau amrywiol i ddatblygu eu sgiliau siarad Cymraeg. Mae 7 yn parhau ar y cwrs Canolradd ac wedi mynychu Ysgol Haf y Brifysgol ym mis Gorffennaf. Mae cyd weithwyr wedi bod yn ymuno yn rhai o'r gwersi ar gyfer sesiynau trafod anffurfiol. Mae 6 Aelod o staff ar y cwrs Mynediad, ac bydd un yn ymuno â chwrs Gloywi Carlam ar gyfer athrawon prysur ym mis Hydref.

**Datblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter iaith' a 'Siarter Iaith Cymraeg Campus'**

Ceir cydweithio effeithiol rhwng y cydlynydd newydd i Gwynedd a Môn wrth drafod a chefnogi ysgolion wrth lunio eu cynlluniau clwstwr. Cynhelir cyfarfodydd cenedlaethol rheolaidd dan arweiniad Llywodraeth Cymru er mwyn llunio canllawiau gweithredu cenedlaethol. Mae copi drafft er mwyn cynnal trafodaethau pellach wedi eu rhannu ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid gynnig barn ac awgrymiadau ar gyfer addasu ymhellach.

**EIN LLAIS NI**

**Ein Llais Ni**

Pwrpas Ein Llais Ni yw amlygu pwysigrwydd llafaredd yn y cwricwlwm yng nghyd-destun y Gymraeg (ar draws yr ystod oedran cyfan) a chynnig syniadau am strategaethau y gall ysgolion/athrawon eu datblygu i annog a hybu sgiliau siarad a gwrando dysgwyr. Datblygwyd y gwaith ar y cyd ag ysgolion ar draws rhanbarth gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor, gyda'r Athro Enlli Thomas, sy'n arbenigwr rhyngwladol ar hybu sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, yn arwain y gwaith ymchwil ymarferol. Mae gwefan Ein Llais Ni yn wefan gyhoeddus.

Mae'r Swyddogion Prosiect wedi llunio newyddlen yn hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae Rhaglen Dysgu Proffesiynol yn ei le a strwythur cefnogi ysgolion wedi ei gynllunio. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau a chefnogaeth i glystyrau ac ysgolion unigol. Mae'r Swyddogion Prosiect hefyd yn hyrwyddo'r y wefan a dulliau addysgu llafaredd llwyddiannus mewn amrywiol fforymau e.e. cyfarfod cydlynwyr iaith, sesiynau HMS clwstwr.

Ail-sefydlwyd cyswllt gydag ysgolion o'r prosiect gwreiddiol er mwyn trafod eu cynnydd a sut gallent arddangos eu gwaith ar y wefan yn yr adran 'enghreifftiau o ysgolion'. Mae Estyn wedi cydnabod y defnydd o raglen 'Ein Llais Ni' drwy waith athro sy'n trafod addysgeg iaith yn ei rôl fel Mentor Iaith yn rhan o bartneriaeth CaBan wrth hyfforddi AGA.

Mae Map o safle'r wefan wedi ei lunio ar gyfer hwyluso'r defnydd o'r adnodd ac amlygu pa adrannau sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd amrywiol

Mae'r Adran ***Cynllunio*** wedi ei chyfoethogi ymhellach i gynnwys canllaw 4 cam i athrawon sy'n eu harwain drwy broses ar gyfer rhoi lle blaenllaw i addysgu llafaredd yn y dosbarth. Mae'n ddull hwylus, wedi'w gategoreddio, i ymarferwyr ddewis strategaethau sy'n briodol ar gyfer datblygu agweddau penodol ac hefyd yn amlygu pa rai sy'n berthnasol i ddysgwyr 3-8 oed. Mae hyn yn cynorthwyo ymarferwyr i fod yn fwy bwriadus wrth ddewis strategaethau sy'n datblygu sgiliau penodol eu dysgwyr. Crewyd Adnoddau cefnogol ychwanegol fel bod ymarferwyr yn gallu cael mynediad sydyn at adnoddau sy'n hwyluso'r broses o roi strategaethau ar waith. Mae Enghreifftiau gan ysgolion yn cael eu hychwanegu sy'n modelu defnydd effeithiol o strategaethau neu'n cyfleu'r rhaglen ar waith.

Mae'r Adran ***Arwain*** wedi cael ei haddasu ymhellach yn seiliedig ar 7 elfen all arwain at weithredu llwyddiannus. Er mwyn cefnogi'r elfennau hyn, mae canllaw clir wedi ei lunio sy'n rhoi camau gweithredu a deilliannau posib ar gyfer datblygu pob elfen yn ei dro. Annogir arweinwyr i werthuso fesul elfen fel bod darlun cyfredol o sefyllfa'r ysgol yn sail i ddatblygu a gweithredu pellach - mae adnodd hunanwerthuso wedi'w ddatblygu i gefnogi hyn. Mae'r camau datblygu ar gyfer rhoi'r rhaglen ar waith, ei ddyfnhau a gwerthuso a gwella yn rhoi trywydd datblygu eglur i arweinwyr ac yn cysylltu yn uniongyrchol âg adrannau o'r wefan all gynnig cefnogaeth bellach.

Adran ***Dysgu Proffesiynol*** wedi ei ychwanegu at y wefan (tymor yr hydref 2023) gyda pecynnau cymorth wedi eu llunio i gefnogi ysgolion sydd angen:

- Deall rhaglen Ein Llais Ni - cyflwyniad a phwrpas yr adnodd
- Datblygu'r hinsawdd a'r amodau ar gyfer cynnydd ym medrau llafar dysgwyr

Mae datblygiadau eraill yn cynnwys:

- Pecyn cymorth DP sy'n rhoi trosolwg o'r rhaglen a'i bwriadau ar gael ar gyfer arweinwyr, YCG ac ymarferwyr sydd yn blaenoriaethu llafaredd y Gymraeg.
- Adran Dysgu Proffesiynol y wefan yn dechrau datblygu ac yn cynnwys pecynnau cymorth sy'n cyd-fynd â chynnwys y wefan ac yn arwain ymarferwyr drwy'r broses o roi'r rhaglen ar waith yn effeithiol.
- Cyfres o weithdai, wedi eu cynllunio i'w cynnal yn ystod tymor y gwanwyn 2024, ar gyfer hyrwyddo'r rhaglen a'r Dysgu Proffesiynol sydd ar gael. Nod y gweithdai hyn yw cynyddu'r ysgolion sy'n ymrwymo a rhannu'r hyn sydd ar gael drwy'r wefan i gefnogi athrawon ac arweinwyr.

- Cynllun yn mapio'r ysgolion presennol, eu hymrwymiad a'u cynnydd ac adnabod ysgolion i'w targedu wedi ei lunio gan y Swyddogion Prosiect. Mae hyn yn arwain at ddyfnhau adnabyddiaeth o anghenion yr ysgolion ac yn amlygu unrhyw enghreifftiau o arferion llwyddiannus i'w rhannu yn ehangach.
- Cynhadledd Hydref 2023 wedi bod yn gyfle i ymestyn y rhaglen i fwy o ysgolion. 100 o athrawon, penaethiaid a swyddogion awdurdodau wedi mynychu ac adborth wedi bod yn ganmoliaethus. Yn ogystal, mynychodd 46 o fyfyrwyr Prifysgol Bangor. Ymysg y sylwadau cafwyd canmoliaeth ar strategaethau cafodd ei gyflwyno gan Dîm Ein Llais Ni a siaradwr gwadd, Richard Hull. Mae llawer wedi nodi bwriad i dreialu ag ymgorffori strategaethau llafaredd yn dilyn y gynhadledd.
- Rhwydwaith dilynol wedi ei gynnal ar 20.11.23 gyda 12 ysgol wedi cofrestru. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gyda phob un a fynychwyd yn nodi fod y rhwydwaith wedi bod yn fuddiol iawn.
- Yn ogystal â'r rhwydwaith, trefnwyd cyfarfodydd gydag ysgolion unigol i roi Ein Llais Ni ar waith. Mae trefniadau i weld effaith y gweithredu yn ystod tymor y gwanwyn a chasglu arferion effeithiol i bwrpas modelu ymhellach a chyfoethogi'r wefan.
- Rhaglen Ein Llais Ni yn rhan o gynnig Dysgu Proffesiynol y Gymraeg yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ac ar gael i ysgolion cynradd a'r uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith.
- Y Tîm Proseict yn hyrwyddo'r defnydd o'r adnodd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant er mwyn gallu cefnogi ysgolion i werthuso cynnydd wrth roi'r rhaglen ar waith.
- Y Swyddogion Prosiect wedi darparu hyfforddiant ar amrywiol agweddau o ddatblygu medrau llafar ar gais YCG i glystyrau neu drwy Gynnig Dysgu Proffesiynol GwE. Mae'r adborth yn dilyn y sesiynau yma yn gadarnhaol iawn gyda phob ymarferydd yn nodi fod yr hyfforddiant wedi bod yn fuddiol neu'n fuddiol iawn.
- Pecynnau cefnogaeth i gyd-fynd â'r hyfforddiant ar gael i'w defnyddio yn ôl yn yr ysgol.
- Cefnogaeth gwahaniaethol i athrawon pynciol/cynradd ac uwchradd/athrawon anarbenigol ar gael fel rhan o'r ddarpariaeth i gefnogi athrawon drwy:
    - cynllunio a chynnal HMS i athrawon pynciau STEM ar bwysigrwydd datblygu llafaredd disgyblion mewn pynciau tu hwnt i'r Gymraeg a chyflwyno strategaethau Ein Llais Ni ar gyfer tasgau STEM penodol.
    - Cyfarfod athrawon er mwyn edrych ar gynlluniau gwaith ag adnabod cyfleoedd i ymgorffori tasgau llafaredd er mwyn cyfoethogi pwnc STEM dan sylw.
    - Cyflwyno syniadau ar sut i ddatblygu strategaethau Ein Llais Ni ar draws ysgol gyfan a sut i'w addasu i weithio o fewn pynciau STEM yn ystod rhwydwaith.
- Blaenoriaeth ar gyfer CDY wedi ei addasu i lyfryn o gamau gweithredu yn cyd-fynd â 7 elfen o ddatblygu llafaredd yn effeithiol. Cyswllt agos iawn rhwng yr wybodaeth yn y model KP a'r adnodd hunanwerthuso.

**Cynhadledd 24ain o Hydref**
Mae'r adborth gan fynychwyr y gynhadledd yn werthfawrogol o'r strategaethau llafaredd cafodd eu cyflwyno yn ystod y dydd drwy dynnu sylw at gynnwys gwefan Ein Llais Ni a gan y siaradwr gwâdd. Mae nifer wedi nodi mai'r camau nesaf bydd treialu strategaethau llafaredd a rhannu'r wybodaeth nol i weddill staff dysgu. Mae'r Swyddogion Prosiect wedi trefnu cyfres o rwydweithiau ar gyfer 2023-24 yn hyrwyddo'r gwaith ac yn cefnogi athrawon traws-sector. Mae dyddiadau a ffocws y Rhwydweithiau wedi cael eu rhannu yn y Gynhadledd ar y 24/10/23.

Parheir i fesur effaith a chasglu arferion effeithiol gan ystod eang o ysgolion yn cynnwys casglu enghreifftiau o dasgau llafar i'w rhoi ar wefan Ein Llais Ni. Ymysg yr enghreifftiau fydd fideo yn enghreifftio Ein Llais Ni ar waith mewn ysgol gynradd dros gyfnod o hanner tymor a chreu adnoddau cefnogi megis matiau bwrdd i'w rhannu ar wefan Ein Llais Ni.

Mae'r Bwrdd Llywio yn parhau i gyfarfod yn chwarterol ac aelodaeth wedi ei addasu er mwyn adlewyrchu'r cyfeiriad ar gyfer rhan nesaf y prosiect.

Ceir cydweithio traws-ranbarthol ar ffrydiau gwaith amrywiol – un elfen o hynny ydy llafaredd a chytundeb bod gwefan Ein Llais Ni yn adnodd gwerthfawr i'w rannu yn genedlaethol.

Mae wyth gweithdy wedi cael eu trefnu ar draws y rhanbarth ar gyfer Ionawr a Chwefror 2024. Bydd gweithdy ymhob awdurdod yn cyflwyno Ein Llais Ni i ysgolion sydd heb fod yn rhan o'r rhaglen eisoes.

**Is brosiect 1: ymestyn y gefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith**

Mae Ysgolion arweiniol wedi eu penodi yn dilyn dadansoddiad o'r astudiaethau achos dderbyniwyd ac yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modelu effeithiol o amrywiol elfennau'r wefan yn cael eu paratoi a'u rhannu. Strwythur y grwpiau sy'n cyd-weithio:

Grŵp 1:

- 4 athro sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed
- 3 athro sy'n addysgu dysgwyr 8-11 oed
- 3 athro sy'n addysgu dysgwyr 11+

Grŵp 2:

- 6 athro (traws-sector) yn cyd-weithio i ddatblygu enghreifftiau sy'n hybu medrau llafar a digidol

Grŵp 3:

- Dau glwstwr yn cyd-weithio er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o addysgeg effeithiol, rhannu datblygiadau a thrafod cynnydd dysgwyr mewn deialog broffesiynol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd

Cynhaliwyd sesiwn rhwydwaith i annog ysgolion newydd i ymuno efo'r prosiect - y cyntaf wedi bod ar 20/11/23. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gyda phob athro yn gweld gwerth i ddatblygu llafaredd. Mae pawb ar waith i dreialu strategaethau a ddangoswyd ar y diwrnod. Mae'r Swyddogion Prosiect yn cefnogi'r athrawon arweiniol wrth iddynt baratoi a rhannu effaith eu gwaith er mwyn modelu arfer llwyddiannus. Maent wedi ymweld ag ysgolion i gynnig cefnogaeth i'r athrawon arweiniol a gosod dyddiadau er mwyn derbyn enghreifftiau o arferion da. Bydd yr enghreifftiau hyn yn ymddangos ar y wefan i boblogi adran Enghreifftiau o Ysgolion.

Drwy dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael drwy Gynnig Dysgu Proffesiynol y Gymraeg, mae wedi arwain at ddechrau codi proffil y gwaith ymysg YCG ac ysgolion ar draws y rhanbarth. Mae nifer o YCG wedi cysylltu i drefnu cefnogaeth ar gyfer ysgolion unigol a chlwstwr.

Mae'r Swyddogion Prosiect wedi mapio'r ysgolion sydd wedi blaenoriaethu'r Gymraeg neu llafaredd y Gymraeg yn 2023-24 er mwyn hyrwyddo'r gwaith ymhellach. Cysylltwyd gyda nifer o'r ysgolion i drefnu cefnogaeth a chydweithio pellach. Mae 3 ysgol ychwanegol wedi cael cefnogaeth unigol a dau glwstwr o ysgolion cynradd-uwchradd.

Gweithdai yn hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu rhaglen Ein Llais Ni mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg - cyfle i rannu gwybodaeth am y wefan, adnoddau cefnogol a strategaethau ymarferol.

Mae Ein Llais Ni yn bennawd o fewn Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE ar gyfer holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith. Mae cefnogaeth ar gael drwy fynychu cynhadledd, rhwydwaith, clwstwr ac i ysgolion unigol (lefel arwain a lefel ymarferwyr).Mae'r wefan yn cynnwys DP ac adnoddau cefnogol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd e.e. arweinwyr, athrawon, dysgwyr. Mae Dogfen yn rhoi canllaw i arweinwyr ac ymarferwyr o'r broses strategol ar gyfer rhoi rhaglen Ein Llais Ni ar waith a'i gwreiddio yn effeithiol yn rhan o'r adnoddau cefnogol sydd ar gael drwy'r wefan.

**Is-brosiect 2: cefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.**

Addaswyd y graffeg trosolwg i gynnwys yr elfen '7. Cynnydd ieithyddol' ar gyfer rhaglen ELlN YCS (gan ychwanegu'r elfen hon at ddogfennau cefnogol) Bwriad cynnwys yr elfen hon yn rhan o gyflwyno'r rhaglen â'r ysgolion cyfrwng Saesneg yw rhoi'r pwyslais ar bwysigrwydd adeiladu ar wybodaeth ynghylch cynnydd dysgwyr yn eu sgiliau siarad a gwrando wrth iddynt symud ar hyd y continwwm o fewn ysgolion, ac yn arbennig wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Bydd yr elfen hon yn rhan greiddiol o gyfraniad yr ysgolion arweiniol wrth symud ymlaen a'u canfyddiadau a thystiolaeth o'r cynnydd yn cael ei adlewyrchu yn astudiaethau achos terfynol yr ysgolion maes o law. Bu ysgolion arweiniol unigol yn treialu strategaethau penodol gyda'u dysgwyr gan eu haddasu ar gyfer eu dysgwyr hwy. Casglwyd rhestr o'r strategaethau hyn ('Yr 20 Ucha') yn dilyn cyflwyniadau'r ysgolion arweiniol o'u hastudiaethau achos gwaelodlin Bydd yr ysgolion yn dod i gytundeb ynglŷn â pha rai o'r strategaethau uchod (Yr 20 Ucha') i'w targedu er mwyn gwerthuso'u heffaith *ar draws sectorau*. Bydd treialu'r un strategaeth yn y cynradd

a'r uwchradd yn fodd i'r ysgolion feithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd yn ogystal â thrafod *y dilyniant ieithyddol* a'r modd y bydd strategaethau'n datblygu wrth i hyder dysgwyr a'u sgiliau ieithyddol gynyddu. Wedi addasu a chyfieithu nifer o adnoddau cefnogol y wefan bresennol gan roi pwyslais ar hyrwyddo sgiliau a siarad a gwrando *yn y Gymraeg* mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Mae'r dasg o lunio map o'r wefan ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg wedi cychwyn gan ddewis a dethol yr adnoddau y bydd angen eu cyfieithu, clustnodi adnoddau y bydd angen eu haddasu, yn ogystal â thargedu ysgolion arweiniol i greu rhai adnoddau cefnogol penodol.

Cafwyd cyflwyniadau i gyd-fynd ag astudiaethau achos gwaelodlin pob un o'r ysgolion arweiniol yn ystod Diwrnod Hyfforddiant 2 (6ed Hydref 2023).

Hyrwyddwyd gwaith y prosiect yn y Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg YCS GwE a gynhaliwyd Tachwedd 16eg 2023. Trafodwyd gwaith y prosiect yng nghyd-destun meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd wrth gynllunio tasgau'n hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando gan annog yr arweinwyr i bori trwy'r adnoddau dysgu proffesiynol a geir ar y wefan ar hyn o bryd. Rhannwyd enghreifftiau o adnoddau'r wefan bresennol a addaswyd ar gyfer hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gan egluro bod y gwaith o addasu a chyfieithu adnoddau'r wefan bresennol ar waith

**Is-brosiect 3: cydweithio efo Prifysgol Bangor/ Caban i gryfhau'r cyswllt efo AGA**

Cyd-gynllunio'r bwriadau gyda Prifysgol Bangor er mwyn cefnogi athrawon cysylltiol. Mae Swyddog Prosiect wedi cyfarfod gyda'r Brifysgol i drefnu hyfforddiant Ein Llais Ni ar gyfer yr athrawon cysylltiol cyfrwng Cymraeg ar 21/12/23 - cynllun cefnogi yn ei le ac hyfforddiant wedi'w gynllunio.

**ATODIAD 2 :** Data Rhanbarthol

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE 2023 - 2024

# Atodiad 2: Data Rhanbarthol

www.gwegogledd.cymru    @GwEGogleddCymru

CYNLLUN BUSNES 2023-2024

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2023 - 2024**

**Data Rhanbarthol - Chwarter 3**

## AMCAN 1 - GWELLA YSGOLION

### GWELLA YSGOLION

**Data Rhanbarthol:**

Mae'r proffil presennol ar gyfer pob sector yn nodi bod:

- 7 ysgol mewn categori statudol [3 uwchradd / 4 cynradd]
- 19 ysgol sy'n destun pryder [3 uwchradd / 16 cynradd]
- 27 ysgol ble mae pryderon penodol wedi'u hadnabod [9 uwchradd / 18 cynradd]
- 52 ysgol sy'n cael eu hadolygu [14 uwchradd / 38 cynradd].

## AMCAN 2 - CWRICWLWM AC ASESU

### DATBLYGU'R CWRICWLWM A'R RHWYDWEITHIAU (CiG)

**Data Rhanbarthol:**

Nifer yr ymarferwyr GwE sydd wedi cofrestru ar y sesiynau Cenedlaethol isod:

- Sesiwn Asesu 1 = 22
- Sesiwn Asesu 2 = 42

Sesiynau MDaPh:

- Iaith a Llythrennedd = 6
- Mathemateg a Rhifedd = 11
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg = 9
- Celfyddydau Mynegiannol = 15
- Dyniaethau = 15
- Iechyd a Lles = 36

- **CYFANSWM = 156**

### Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

**Data Rhanbarthol:**

- Cyfarfodydd Rhwydwaith y Celfyddydau Mynegiannol 27/11/23 & 28/11/23: 11

### IECHYD A LLES

**Data Rhanbarthol:**

- Cyfarfod Rhwydwaith cyntaf yr Arweinwyr Lles ar-lein ar 28/11/23: 24

- Cyfarfod Rhwydwaith cyntaf yr Arweinwyr Iechyd a Lles ar-lein ar 29/11/23: 22
- Chwarae i Ddysgu: 22

## Y DYNIAETHAU

**Data Rhanbarthol:**

- Cynhadledd Cwricwlwm i Gymru (Dyniaethau) i Athrawon Uwchradd 16/11/23: 30

## IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

### SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

- Cymorth i ysgolion Cynradd (8-11): 129
- Cymorth i ysgolion Uwchradd: 46

### Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

**Rhwydweithiau:**

- Arweinyddiaeth: 36
- Gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol: 15
- Llythrennedd Trawsgwricwlaidd: 14
- Datblygu'r Gymraeg: 4

### IEITHOEDD RHYNGWLADOL

**Data Rhanbarthol:**

- Cofrestriadau ar gwrs uwchsgilio PowerLanguage: 30 ysgol / 39 o athrawon
- Power Language - tanysgrifio: 142 ysgol
- Cwrs TELT y Brifysgol Agored 2023-2024: 7
- Cerdd Iaith 19/10/23 + 15/11/23: 14 ysgol, 14 o athrawon
- Prosiect Sanako: 7 ysgol
- Cymorth ysgol i ysgol - cynllun cefnogaeth: 4 ysgol
- Mentora ITM - Recriwtio 2023-24: 21 ysgol
- Hyfforddiant trochi 2024 - 24 ysgol wedi cofrestru
- Partneriaeth Cymru-Llydaw: 16 ysgol gynradd a 4 ysgol uwchradd
- Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes (BLC) i Flwyddyn 9: 8 ysgol, 91 o ddysgwyr
- Gweithgor AATT 2023-24: 6/7 ysgol - 7/8 o athrawon

- Cyfarfodydd Rhwydwaith y Sector Uwchradd Tachwedd 2023: 22 ysgol
- Cyfarfodydd Fforwm y Sector Cynradd Tachwedd 2023: 16 ysgol
- Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes (BLC) i Flwyddyn 10 ar 6.2.24 : 9 ysgol wedi cofrestru

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer yr ysgolion | Nifer yr ymweliadau |
|---|---|---|
| Cymorth pynciol unigol i ysgolion cynradd | 13 | 24 |
| Cymorth Clwstwr (CYNRADD) | 36 ysgol<br>(9 Clwstwr) | 12 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg/Rhifedd CYMRAEG/SAESNEG CARFAN 1 | 50 | 56<br>(yn bresennol) |
| Cymorth unigol i ysgolion uwchradd | 30 | 49 |
| Cwrs Uwchradd MEI Diwrnod 2 | 26 | 27 (yn bresennol) |
| Diwrnod 1 y rhaglen 'Defnyddio trinolion yn effeithiol' i ysgolion uwchradd | 41 | 41<br>(yn bresennol) |
| Cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Benaethiaid Mathemateg Uwchradd | 46 | 46<br>(yn bresennol) |
| Cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Arweinwyr Rhifedd Uwchradd | 44 | 44<br>(yn bresennol) |

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

**GWYDDONIAETH**
**Data Rhanbarthol:**

- Cymorth Penodol i Ysgolion: 46
- Gwyddoniaeth Gynradd: daeth 21 o ymarferwyr 3-8 i'r Gweithdy dan arweiniad Kathy Schofield.

## DIGIDOL

**Data Rhanbarthol:**

- 90% o glystyrau'r rhanbarth yn ymgysylltu â'r rhaglen hwyluswyr digidol.
- Nifer y clystyrau a wahoddwyd i'r sesiwn 'dal i fyny' ar gyfer clystyrau newydd neu rhai a oedd eto i gychwyn ar y gwaith: 11

| CONTINWWM ADDYSG 3 I 16 |
|---|
| **PONTIO**<br><br>**Data Rhanbarthol:**<br><br>• Prosiect pontio addysgeg: 12 clwstwr ar draws y chwe ALl<br><br>• Presenoldeb mewn gweithdai Pontio yn y digwyddiad marchnad Cwricwlwm i Gymru, 22/06/23: 61 ar draws y chwe ALl<br><br>• Ymweliadau clwstwr gan YCG - parhaus ar draws y rhanbarth<br><br>• Presenoldeb mewn gweithdai pontio: 159<br><br>**ASESU**<br><br>• Mae gan bob ysgol ar draws y rhanbarth fynediad at gynllun a pholisi asesu enghreifftiol |

| AMCAN 3 - DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL |
|---|
| **CYFRANIADAU MDAPH A RHWYDWEITHIAU PWNC I WELLA'R ADDYSGU** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Yr ail Rwydwaith Dysgu Addysgu i Arweinwyr D&A Uwchradd a gynhaliwyd ar 17/11/2023: 37 |
| **YMCHWIL AC ARFARNU (YMCHWIL AC YMHOLI) (RILL)** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - Cam 3 (Prosiectau 1 a 2): 39<br><br>• Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR): 9<br><br>• Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif: I'W GADARNHAU<br><br>• Datblygu a Gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif (DEMSI): 61 I'W GADARNHAU |
| **ADDYSGEG A DYLUNIO DYSGU** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Tuag at 2024 = 23 o ysgolion cynradd<br><br>• Dylunio Dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru = 3 ysgol |
| **ADDYSG 3-8** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Nifer yr ysgolion gafodd gymorth 3-8 penodol = 72<br><br>• Nifer y clystyrau gafodd gymorth 3-8 penodol = 9<br><br>• Hyfforddiant i ymarferwyr sy'n newydd i addysgu'r grŵp oed 3-8 (Saesneg yn unig) = 53 |

- Hyfforddiant darllen rhanbarthol = 439
- Rhwydwaith 3-8 Tymor yr Hydref = 284

## ÔL-16

**Data Rhanbarthol:**

- Sesiwn 2 RhDA Ôl-16: 8 Pennaeth Chweched Dosbarth, GwE
- Strategaethau VESPA: 10 o GwE
- Rhwydwaith CBC Uwch: 15 yn bresennol
- Sesiwn DP ALPs: 9 o GwE yn bresennol

## AGA

**Data Rhanbarthol:**

- Gweithdy ANG Ysgolion arbennig 09/06/23: 18+ yn bresennol
- Stondin CaBan yn y farchnad CiG: 600+ yn bresennol
- Cyfarfod rhanddeiliaid AGA ADY CaBan: 48

# AMCAN 4 - ARWEINYDDIAETH

## RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH

**Data Rhanbarthol:**

| | |
|---|---|
| 1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 127 |
| 2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 117 |
| 3. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 34 |

## CALU - LLDC

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorthyddion newydd**

| | 2023-24 |
|---|---|
| Rhanbarthol | 29 |

**Cymorthyddion wrth eu Gwaith**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 203 |

**Darpar CALU Cylch 6**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 25 |

**Darpar CALU Cylch 7**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 30 |

**Asesiadau Statws CALU Cylch 5**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 34 |

**Asesiadau Statws CALU Cylch 6**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 20 |

**Aseswyr CALU**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 25 |

**Cymhorthydd Addysgu Eithriadol**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 10 |

**Hyfforddiant Dyslecsia**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 14 |

**ADY – rhannu arferion effeithiol**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 77 |

**YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU**

**Data Rhanbarthol:**

- Defnyddwyr GwE yn ymgysylltu yn well ers mis Medi.
  Medi - Hydref = 24
  Medi - Rhagfyr = 51

- Cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu
  Medi - Hydref = 8
  Medi - Rhagfyr = 10

- Cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu o'r newydd
  Medi - Hydref = 4
  Medi - Rhagfyr = 6

- Nifer yr ysgolion a gwblhaodd yr arolwg yn 2022/23 ac sydd wedi ailadrodd yr holiadur yn 2023/24
  Medi - Rhagfyr = 4

- Ysgolion heb ailadrodd yn 2023/24
  Medi - Rhagfyr = 15

**RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION**

**Data Rhanbarthol:**

- Nifer ysgolion / clystyrau yn y rhaglen: 255 / 46

- Nifer yr Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 329

- Nifer yr Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 290

| AMCAN 5 - PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB |
|---|
| **GDD / PMG** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Mae 24 ymarferwr ychwanegol bellach yn dilyn Diploma TIS GwE 14 ac 15 a GwE 16 ar-lein<br>• Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig (RADY): Mae 14 ysgol wedi cofrestru<br>• Cefnogi Dysgwyr Bregus: 7 ysgol yn treialu'r prosiect |

| AMCAN 6 - MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB |
|---|
| **Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (DP / SIARTER IAITH / CYMRAEG CAMPUS)**<br><br>**EIN LLAIS NI** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Cynhadledd 'Ein Llais Ni': 162<br>• Cefnogaeth clwstwr neu unigol 'Ein Llais Ni' i ysgolion cyfrwng Cymraeg: 13<br>• Prosiect 'Ein Llais Ni' i ysgolion cyfrwng Saesneg: 8<br>• Rhwydwaith cariad@ddarllen: 23 |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**20 MAWRTH 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Dyfodol gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru** |

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Caniatáu i aelodau'r Cyd-bwyllgor wneud penderfyniadau gwybodus am ddyfodol gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru.

**2.0 Cefndir**

2.1 Ar 18 Rhagfyr 2023, daeth Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, â'r Adolygiad Haen Ganol i ben, gan dderbyn bod y canfyddiadau interim yn derfynol.

2.2. Ar 19 Rhagfyr 2023, rhesymolwyd y grantiau addysg cyn-16 a ddyrannwyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru gyda'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

2.3 Ar 31 Ionawr 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ddatganiad ysgrifenedig: Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae angen eglurhad ynghylch cerrig milltir allweddol:

- Asesu effaith toriadau ar staffio presennol.
- Angen manylder ynghylch y tair haen a ddisgrifir yn Natganiad y Gweinidog:
    1. Cefnogi gweithio ysgol i ysgol ar lefel leol

2. Cefnogi cydweithio a rhwydweithio rhwng ysgolion ar draws awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol
3. Cefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar lefel genedlaethol

- Adnabod partneriaethau newydd.
- Proses cadarnhau partneriaethau newydd.
- Datblygu strwythurau newydd ar gyfer gwella ysgolion.

3.2 Risgiau

- Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru gynllun manwl o sut ddylai dyfodol y gwasanaeth gwella ysgolion edrych.
- Oedi mewn gwneud penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol.
- Diffyg eglurder ynghylch y cyfeiriad cenedlaethol yn rhoi pwysau ar gyllidebau lleol.
- Morâl, lles a chymhelliant staff.
- Mae angen i'r amserlenni i'r Awdurdodau Lleol sefydlu partneriaethau newydd a phenodi staff gael eu cysoni'n ofalus.
- Pwysau ar yr Awdurdod Lletyol.
- Cost sylweddol diswyddiadau.
- Ymwneud ysgolion â gwella ysgolion yn y tymor byr.
- Patrwm y tîm - gallai llai o secondiadau a diswyddiadau achosi anghydbwysedd yn y cymorth i'r gwahanol sectorau.
- Ansawdd ac amhleidioldeb cyngor cyfreithiol ac Adnoddau Dynol.

3.3 Mae'n annhebygol y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu unrhyw drosglwyddo o'r trefniadau gwella ysgolion presennol i'r rhai newydd. A yw Aelodau Arweiniol yn hyderus y bydd lleihau arbedion maint a gweithio mewn partneriaethau llai yn gwella'r ddarpariaeth bresennol?

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried goblygiadau risg ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

**5.1** Nid yw'n glir faint y bydd y newid sylweddol hwn mewn polisi yn ei gostio mewn cyfnod anodd yn gyllidebol.

**5.2** Mae'r fformiwlâu ar gyfer dosbarthu cyllid i ysgolion yn dangos bod ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ar eu colled yn sylweddol o gymharu â'r flwyddyn ariannol bresennol (2023-24).

**5.3** Nid yw'r Telerau a'r Amodau yn glir o ran sut bydd gofyn i ysgolion wario grantiau o'r pot diwygio. Gallai hyn arwain at wario cyllid mewn mannau eraill.

**5.4** Costau diswyddo sylweddol posibl.

**5.5** Nid yw costau dileu'r trefniadau presennol i'r Awdurdodau Lleol na chostau sefydlu unrhyw bartneriaethau newydd yn glir.

**5.6** Mae'r cyfraniad ariannol at wella ysgolion rhanbarthol gan yr Awdurdodau Lleol ar ei isaf ers sefydlu GwE. Mae hyn yn llawer is nag mewn rhanbarthau eraill.

**5.7** Er gellid colli arbedion maint, gallai'r partneriaethau fod yn adeiladu eu gwasanaethau gwella ysgolion gydag ychydig iawn o adnoddau.

**5.8** Ni wyddys beth yw'r gost i ryddhau staff ysgolion i roi sylw i'r argymhellion o ran cefnogi gweithio ysgol i ysgol ar lefel leol.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes asesiad wedi'i wneud i bwyso a mesur effaith bosibl y newidiadau hyn ar feysydd fel y Gymraeg, cydraddoldeb, llwyth gwaith a chyllid.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Mae morâl a chymhelliant staff GwE yn hynod isel.

7.2 Nid oes eglurder o ran swyddi amgen i staff gwella ysgolion wedi mis Mawrth 2025.

7.3 Bydd angen diswyddiadau er mwyn cyrraedd y toriad sylweddol i'r gyllideb graidd gan Awdurdodau Lleol a lleihad sylweddol mewn grantiau sydd bellach yn cael eu dal gan yr Awdurdodau Lleol.

7.4 Bydd llai o secondiadau a diswyddiadau yn effeithio ar batrwm y tîm ac yn achosi anghydbwysedd yn y cymorth i'r gwahanol sectorau.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Dim ymgynghori ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Llythyr UCAC at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Cymru

9.2 Atodiad 2 – Llythyr at Gadeirydd Cydbwyllgor GwE gan aelodau Prospect

9.2 Atodiad 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Cymru, i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg - Dilyniant o sesiwn graffu gyffredinol (Saesneg yn unig)

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Yn amlwg, bydd newid y drefn o ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion yn cael effaith ariannol ar GwE a'r awdurdodau lleol, ond heb eglurder am y strategaeth i'r dyfodol mae'n anodd darogan yn fanwl beth fydd y goblygiadau hyn. Bydd rhan mawr o'r goblygiadau yma angen eu hystyried ar lefel awdurdodau unigol, ond byddaf yn gweithio'n agos gyda swyddogion GwE i fodelu a lliniaru unrhyw effaith ar y gwasanaeth mae GwE yn gynnig, dros y misoedd nesaf.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Jayne Bryant AS,

Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

Senedd Cymru.

*Trwy e bost.*

Y 22ain o Chwefror, 2024

Annwyl Jayne Bryant,

Ysgrifennaf atoch fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, undeb sydd yn cynrychioli ac yn cefnogi nid yn unig athrawon ac arweinwyr ysgol, ond hefyd swyddogion gwasanaethau gwella ysgolion.

Fel y gwyddoch, mae'r datganiad a gyhoeddwyd gan Jeremy Miles y Gweinidog Dros Addysg a'r Gymraeg, ar y 31ain o Ionawr yn cyfeirio at drefniadau newydd sydd i'w rhoi ar waith parthed gwella ysgolion. Fel rhan o'r trefniadau hynny gwelir disgwyliad i sefydlu partneriaeth rhwng mwy nag un awdurdod gan symud i ffwrdd o fodel cymorth rhanbarthol ehangach.

Mae'r aelodau hynny sydd yn gweithio i gonsortia yn hynod rwystredig a siomedig gan na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol gyda nhw fel unigolion parthed unrhyw newidiadau posibl, dim mwy nag y bu i athrawon llawr dosbarth, sydd hefyd yn syndod mawr. Ymhellach, ni chafwyd unrhyw arwydd ymlaen llaw gan ein haelodau bod datganiad mor bellgyrhaeddol am gael ei ryddhau yn gyhoeddus ar y pnawn dan sylw. Yn wir, gan fod llawer yn gweithio gydag ysgolion y pnawn hwnnw, cawsant wybod am y bwriad i ddifodi'r consortia trwy law athrawon ac arweinwyr ysgolion. Rydym o'r farn bod hyn yn gwbl annerbyniol ac mae wedi peri gofid meddwl i sawl un o'n haelodau.

Mae'n newid sylfaenol i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru, felly ein cais yw eich bod yn galw i mewn a chraffu ar y Datganiad Gweinidogol er mwyn:

- Sefydlu bod yr adolygiad wedi cydymffurfio â gofynion y cylch gorchwyl;

- Deall methodoleg a chywirdeb y dystiolaeth a gasglwyd;

- Deall y rhesymeg dros newid llinellau amser yr adolygiad hanner ffordd drwodd;

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU | 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

- Deall goblygiadau'r argymhellion;

- Sefydlu pa mor hyderus y gallwn fod y bydd y trefniadau arfaethedig yn darparu gwell cefnogaeth i ysgolion;

- Sefydlu a ymgymerwyd â phroses asesu effaith newid i gynnwys meysydd megis yr Iaith Gymraeg, cydraddoldeb, llwyth gwaith, cyllid ac ati.

- Ymchwilio i faint y bydd y newid sylweddol hwn mewn polisi yn ei gostio mewn cyfnod cyllidebol anodd gan nad oes unrhyw wybodaeth ariannol ar gael – dylai hyn gynnwys costau diswyddo staff a chau i lawr trefniadau presennol awdurdodau lleol a chostau sefydlu ar gyfer unrhyw drefniadau newydd. Dylai hyn hefyd gynnwys y gost ariannol i ryddhau staff ysgol i fynd i'r afael â'r argymhelliad cyntaf.

- Ceisio deall y gwahaniaeth barn rhwng canfyddiadau'r Prif Arolygydd yn yr Adroddiad Blynyddol eleni a chanfyddiadau'r Adolygiad Haen Ganol, yn enwedig ynghylch gallu ysgolion i hunan arfarnu a chynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant;
- Deall beth yw'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i roi hyder i'r pwyllgor mai ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i hunan reoleiddio eu gwelliant eu hunain;

- Gwerthuso'r llwyth gwaith ychwanegol ar ysgolion a phenaethiaid yn arbennig i weithredu argymhelliad cyntaf ynghylch cydweithio, cydweithio a gwella ysgol i ysgol;


- Deall sut bydd modd i ALlau gyflawni eu cyfrifoldebau statudol wrth i'r gwaith o gefnogi gwella ysgolion yn cael ei gefnogi ar lefel genedlaethol.

Dwi'n siŵr eich bod yn llawn sylweddoli cyfnod mor anodd, ansicr a dyrys ydy hwn i'n haelodau sy'n gweithio oddi fewn i'r gwasanaethau rhanbarthol. Mae'n allweddol felly ein bod yn sicrhau tegwch iddynt drwy ystyried holl oblygiadau'r newidiadau hyn.

Fel y byddwch yn tybio, rydym hefyd yn awyddus i chi sicrhau bod unrhyw fodelau newydd gaiff eu sefydlu yn darparu cefnogaeth lawn i bob ysgol, beth bynnag eu hiaith addysgu a lle bynnag y bônt. Hynny gan gynnig cefnogaeth fydd cystal, os nad gwell, na'r hyn sydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd ac yn arbennig felly gwydnwch ac effeithiolrwydd y gefnogaeth i ysgolion, yn arweinwyr ac yn athrawon, sydd yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn ddiffuant,



Ioan Rhys Jones,

Ysgrifennydd Cyffredinol.

Ceg: Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Clerc y Pwyllgor

I: Julie Fallon

Cadeirydd Cyd-bwyllgor GwE

Gan: Aelodau Prospect

xx/03/2024

Annwyl Julie,

Fel y gwyddoch, mae'r datganiad a gyhoeddwyd gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 31 Ionawr 2024 yn cyfeirio at drefniadau newydd i'w gweithredu yng nghyd-destun gwella ysgolion. Rhyddhawyd y datganiad hwn yn gyhoeddus ynghyd â'r llythyr i'r Gweinidog gan yr Athro Dylan Jones "*er mwyn rhannu'r negeseuon hyn yn onest â'r sector*."

Cyhoeddodd y Gweinidog gam nesaf yr adolygiad sydd, yn ei hanfod, yn golygu edrych ar sut gall cydweithio ysgol-i-ysgol a gweithio ar draws AauLl ddigwydd wrth symud i ffwrdd o'r model rhanbarthol ehangach presennol.

Mae hwn yn ddatganiad pellgyrhaeddol, ac ni ellir diystyru ei bwysigrwydd. Mae'r iaith a'r honiadau yn llythyr yr Athro Dylan Jones yn gryf, gan gyfeirio'n uniongyrchol at "*bryderon ynghylch ansawdd y cymorth*". Mae hyn yn arfarniad uniongyrchol o berfformiad ein gweithlu yn GwE, ac nid yw'n un yr ydym yn ei dderbyn, nac yn credu y dylid bod wedi'i rannu'n gyhoeddus fel hyn.

Tra bod aelodau yn cydnabod bod rhaid i addysg a gwella ysgolion fod yn broses sydd yn esblygu, mae llawer ohonom, yn wir, wedi bod trwy sawl cylch newid , nid ydym yn credu bod hyn yn enghraifft o reoli newid cadarnhaol gan y Gweinidog. Rydym yn cwestiynu cymhelliad a methodoleg yr adolygiad 'Haen Ganol' hwn a sut cafodd y canfyddiadau eu cyfleu wedi hynny.

Credwn, mewn gwirionedd, fod datganiad y Gweinidog wedi achosi anhrefn yn y system. Ar ôl i'w gwaith gael ei farnu'n gyhoeddus mae ein haelodau yn ansicr ynghylch eu dyfodol, ac mae'r diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd yn gwneud hyn hyd yn oed yn waeth. Fodd bynnag, rydym yn mawr werthfawrogi ac yn cydnabod eich bod chi wedi dangos cefnogaeth i GwE fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor.

Mae ein haelodau yn y consortiwm rhanbarthol yn arbennig o rhwystredig a siomedig na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid ynghylch yr argymhellion. Nodwn, fodd bynnag, y dylai Cam 2 yr adolygiad gynnwys ymgynghori â chonsortia rhanbarthol, a byddem yn croesawu eich cefnogaeth barhaus wrth sicrhau bod ein barn, ein harbenigedd a'n gwybodaeth yn cael eu clywed yn llawn.

Hoffem dynnu eich sylw at y meysydd a ganlyn, a gofynnwn fod y rhain yn cael dylanwad ar eich sylfaen wybodaeth, eich trafodaethau a'ch penderfyniadau dilynol:

***1) Y Broses Adolygu a'r Camau Nesaf***

- Rydym ni fel aelodau yn cwestiynu a gadwyd at Gylch Gwaith gwreiddiol yr adolygiad, yn enwedig o ran methodoleg a chywirdeb y dystiolaeth a gasglwyd.
- Yn ogystal, o ystyried bod amserlen yr adolygiad wedi newid ar ganol y gwaith, rydym yn cwestiynu sut gall Cam 1 y broses adolygu fod wedi esgor ar argymhellion mor bellgyrhaeddol a ryddhawyd yn gyhoeddus.

- Fel aelodau ac arbenigwyr ar wella ysgolion rydym ni ein hunain yn ceisio deall gwir oblygiadau'r argymhellion, ac rydym yn eich annog chi i wneud yr un fath. Bydd dehongliad arwynebol o'r argymhellion heb gymorth arbenigol yn debygol o arwain at gyfres o gamau gweithredu nad ydynt yn gydnaws â gwella ysgolion neu a fydd, o bosib, yn bygwth cynnydd ein dysgwyr.
- Credwn fod y diffyg gwybodaeth i randdeiliaid, yn cynnwys ysgolion, Awdurdodau Lleol, Aelodau Etholedig, Prif Weithredwyr ac ati yn annerbyniol. Nid yn unig y mae hyn yn fater lles a morâl sylweddol i weithlu GwE ond felly hefyd i Benaethiaid a fydd, o bosib, yn wynebu newidiadau sylweddol mewn cymorth a phrosesau gwella ysgol.
- Mae cyhoeddi set o argymhellion heb fap ffordd clir yn amlinellu sut i'w cyflawni yn annerbyniol. Gofynnwn i chi ystyried yn dra gofalus holl effeithiau gwneud unrhyw benderfyniadau heb y cyd-destun a'r manylion llawn. Tra bod y gweithlu o blaid cyd-lunio a chydweithio fel rhan o esblygu cymorth, mae'r diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd yn arwydd o chwalfa a tharfu posib, a thoriad mewn cymorth ar adeg hynod dyngedfennol mewn addysg yng Nghymru.
- I gloi, gofynnwn i chi ystyried pa mor hyderus y gallwn ni fod y bydd y trefniadau arfaethedig yn cynnig gwell cymorth i ysgolion.

***2) Cost/budd a materion asesiad effaith eraill***

- Mae'n amlwg y bydd angen gwneud dadansoddiad cost a budd llawn. Gofynnwn i randdeiliaid ystyried cost y newid sylweddol hwn mewn polisi mewn cyfnod cyllidebol anodd, o ran y trawsnewidiad tuag at unrhyw drefniadau newydd ac yna gweithredu o fewn y trefniadau newydd. Yn ogystal â chymorth gwella ysgolion gofynnwn i chi hefyd ystyried cost ariannol rhyddhau staff ysgolion i fynd i'r afael â'r argymhelliad arfaethedig yn ymwneud â chydweithio ysgol-i-ysgol.
- Gofynnwn hefyd i chi arfarnu'r llwyth gwaith ychwanegol ar ysgolion, yn enwedig ar Benaethiaid, wrth roi ar waith unrhyw weithgarwch sy'n gofyn am gydweithredu, gweithio ar y cyd neu wella ysgol-i-ysgol. Hoffem dynnu eich sylw hefyd at rolau a chyfrifoldebau ffurfiol arweinwyr ysgolion ac effaith unrhyw drefniadau newydd ar y rhain; mae'n bosib y bydd mwy fyth o bwysau cyfrifoldeb ac/neu atebolrwydd ar ysgwyddau Penaethiaid os ydynt yn mynd i fod yn cymeradwyo ac yn gwirio yn ffurfiol, neu ddarparu cymorth i ysgol arall wella.
- Dylid cynnal asesiad effaith pellach i asesu effaith bosib y newidiadau hyn ar feysydd fel y Gymraeg a Chydraddoldeb.

***3) Cyfrifoldebau statudol Awdurdodau Lleol***

- Mae deall yn llawn sut mae cyflawni cyfrifoldebau statudol yr Awdurdodau Lleol o'r pwys mwyaf. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried cynnig y Gweinidog yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar sut orau i fynd ati i gefnogi gwella ysgolion ar dair lefel. Nid yw'n glir i ni sut bydd model gwella ysgolion yn seiliedig ar "*gefnogi gwaith rhwng ysgolion ar lefel leol*" yn galluogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.
- Cyfeiria'r Gweinidog hefyd at "*gefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar lefel genedlaethol".* Unwaith eto, nid yw'n glir sut bydd hyn yn cael effaith ar ddyletswyddau statudol yr Awdurdodau Lleol.
- Credwn fod eglurder ar y ddau bwynt uchod yn hollbwysig cyn gall Awdurdodau Lleol symud ymlaen a chynllunio unrhyw drefniant newydd ar gyfer gwella ysgolion.

Gallwn eich sicrhau mai lles pennaf ein dysgwyr sydd wrth galon ein gweithlu. Rydym wedi ymroi i wella ysgolion a byddwn yn parhau i wneud hynny tra gallwn ni, yn parhau i gefnogi ysgolion a dysgwyr yng ngogledd Cymru gydag empathi a hyd eithaf ein gallu, a hynny mewn amgylchiadau hynod anodd.

Edrychwn ymlaen at glywed barn Cyd-bwyllgor GwE ar y materion hyn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles MS
Minister for Education and Welsh Language

6 March 2024

**Follow up from general scrutiny session**

Dear Jeremy,

Thank you for giving evidence to us on 28 February 2024. At the meeting you agreed to:

- Provide further information on the attainment gap between pupils eligible for free school meals and other pupils, including why you believe the data published by the Welsh Government cannot be used to make comparisons between years;
- Look further at the Seren Network data in relation to those pupils who may not continue on the programme, to identify if there are any trends in relation to their subsequent performance and engagement with their learning;
- Provide further information on how take up of Welsh A-Level can be encouraged and increased, in particular in relation to the teaching and the content of the syllabus;
- Provide information on the research undertaken, and guidance issued, regarding how schools could provide digital, remote teaching and learning should the need for this arise again in the future;
- Confirm when you anticipate issuing the strengthened guidance on Learner Travel.
- Consider further how the work of the Attendance Taskforce can be reported back to the Senedd and / or Committee;
- Share the e-sgol participation data; and
- Share, when available, Public Health Wales' work on the whole-school approach.

You referred to the "granular detail" the Welsh Government has about performance of the school system in Wales and that you had decided to publish this on an annual basis. Could you confirm whether you were referring to the aggregated data you published in November on pupils' personalised assessments and that equivalent versions of this is what will be published annually?

As we have indicated, we are likely to do work looking at school standards in the future. The scrutiny session was helpful in starting to help shape our thinking on this potential strand of work. As part of this preparatory work, we have invited Professor Dylan E Jones to talk to us about his work as part of the ongoing review into roles and responsibilities of education partners in Wales and delivery of school improvement arrangements. He has confirmed he will be attending.

I am enclosing letters we have received from UCAC and Prospect, highlighting their concerns in particular on how the recent announcement was made regarding the next stage of Professor Jones' review.

Throughout all our recent work, there have been very clear messages from both schools and local authorities that they do not have capacity to take on any additional work. In this context, we would welcome your views on how any changes to current regional working will take into account these broader capacity and resourcing issues. Also, for those areas where regional working is the preference of schools and local authorities, will they be able to continue with arrangements, if they are shown to be working effectively?

It would be helpful if we could have your response before the session with Professor Jones, we would therefore appreciate your response no later than April 10. While acknowledging that this is less time than usual to respond, we feel it would be helpful to have this information ahead of the session with Professor Jones. If you envisage any issues with this timeframe, please let us know.

Yours sincerely,

Jayne Bryant

Jayne Bryant MS
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Enclosure: Letter from UCAC

Letter from Prospect

*This document provides a translation of correspondence received from Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)*

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Jayne Bryant MS
Chair of the Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament

*Via e-mail.*

22 February 2024

Dear Jayne Bryant,

I am writing to you as the General Secretary of Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC; the National Union of Teachers of Wales), a union that represents and supports not only teachers and school leaders, but also school improvement service officers.

As you know, the statement published on 31 January by Jeremy Miles, Minister for Education and the Welsh Language, refers to the new arrangements that will be implemented in relation to school improvement. As part of those arrangements, there is an expectation that local authorities will be expected to establish a partnership with at least one other authority, signifying a move away from the wider regional support model.

Those members who work for the consortia are extremely frustrated and disappointed, as there has been no formal consultation with them, as individuals, regarding any possible changes, any more than there has been with classroom teachers, which is also very surprising. Furthermore, our members were given no prior indication that such a far-reaching statement was going to be released publicly on the afternoon in question. Indeed, as many were working with schools that afternoon, they were informed of the intention to eliminate the consortia by teachers and school leaders. We feel that this is entirely unacceptable, and it has caused mental distress among several of our members.

Given that this is a fundamental change to the education system in Wales, we request that you call in and scrutinise the Ministerial Statement in order to:

- Establish that the review has complied with the requirements of the terms of reference.
- Understand the methodology and the accuracy of the evidence collected.
- Understand the rationale for changing the timelines of the review halfway through the process.
- Understand the implications of the recommendations.
- Establish how confident we can be that the proposed arrangements will provide better support for schools.
- Establish whether a change impact assessment process was undertaken to include areas such as the Welsh language, equality, workload, funding etc.
- Explore how much this significant change in policy will cost in a challenging budgetary period, as there is no financial information available. This should include costs associated with redundancies and shutting down existing local authority arrangements, and set-up costs related to any new arrangements. It should also include the financial cost of releasing school staff to address the first recommendation.
- Try to understand the difference between the opinions expressed in the findings of the Chief Inspector in this year's Annual Report, and those expressed in the findings of the Middle Tier Review, particularly regarding schools' ability to self-evaluate and plan effectively for improvement.
- Understand the available evidence base that could instil confidence in the committee that schools are in the best position to self-regulate their own improvement.
- Evaluate the additional workload on schools, and headteachers in particular, in terms of implementing the first recommendation regarding school-to-school collaboration and improvement;


- Understand how local authorities will be able to fulfil their statutory responsibilities as the work of supporting school improvement is supported at a national level.

I'm sure that you realise that this is a difficult, uncertain and complicated time for our members who work within the regional services. It is therefore vital that we ensure fairness for them by considering all of the implications stemming from these changes.

As you can imagine, we are also keen for you to ensure that any new models that are established provide full support to all schools, whatever their language of education and wherever they are. And that support should be as good as, if not better than, what is being offered at the moment, especially in relation to the resilience and effectiveness of the support provided to schools, leaders and teachers, who provide services through the medium of Welsh.

I look forward to receiving your response.

Sincerely,



Ioan Rhys Jones,

General Secretary.

Copied for information: Members of the Children, Young People and Education Committee; Committee Clerk

04 March 2024

To: Jayne Bryant MS
Chair of Children, Young People and Education Committee
Jayne.Bryant@senedd.wales

Dear Jayne,

As you know, the statement issued by Jeremy Miles, Minister for Education and the Welsh Language, on the 31st of January, refers to new arrangements that are to be implemented in relation to school improvement. This statement was released into the public domain alongside the letter to the Minister from Professor Dylan Jones in order to “share these messages transparently with the sector”.

The Minister announced the next phase of the review which essentially requires exploration of how school to school collaboration and cross LA working may occur in a move away from the current wider regional model.

This is a far-reaching statement, the importance of which cannot be underestimated. The language and assertions made within Prof Dylan Jones letter are strong, making direct reference to “concerns about quality of support”. This represents a direct evaluation of the performance of our workforce in GwE, and it is not one that we accept, and it is also not one that we believe should have been placed in the public domain in this way.

Whilst members recognise that education and school improvement is necessarily an evolving process, indeed many of us have been through various cycles of change, this is not an example of positive change management by the Minister. We question both the motivations and methodology of the ‘Middle Tier’ review and the subsequent communication of its findings.

We believe that the statement from the Minister has left the system in disarray. Having had their work publicly judged, our members are left unsure about their future, made even worse given the current information vacuum.

Our members within the regional consortia are particularly frustrated and disappointed that there has been no formal consultation with stakeholders about the recommendations. In addition, there was no advance indication that such a far-reaching statement was to be released publicly on the afternoon in question. In fact, many of our members were working within schools that afternoon and they were informed of the intention to move away from the regional model through teachers and school leaders. This is completely unacceptable and extremely unprofessional and has caused severe distress to many of them.

As a result, we are asking you to call in and scrutinise the Ministerial Statement to:

- Establish that the original Terms of Reference of the review have been adhered to.
- Understand the methodology and veracity of the evidence gathered.
- Understand the rationale for changing the timelines of the review mid-way through.
- Understand the implication of the recommendations.
- Investigate how confident we can be that proposed arrangements will provide better support for schools.
- Find out if an impact assessment has been undertaken to assess the potential impact of these changes on areas such as the Welsh Language, equality, work load, finance etc.
- Investigate how much this significant change in policy will cost in difficult budgetary times as there is no financial information available – this should include staff redundancy costs and closing down liabilities for current arrangements for LAs and set up costs for any new arrangements. This should also include the financial cost to release school staff to address the recommendations proposed.
- Seek to understand the contradictions in the Chief Inspector finding in this year's Annual Report and findings of the Middle Tier Review, especially around schools' ability to self-evaluate and effectively plan for improvement.
- Seek clarity on the rationale to accelerate the findings of this review which seems to date back to mid-December (rather that the March 2024 date initially agreed for publication).
- Evaluate the extra workload on schools and Headteachers in particular to implement the first recommendation regarding collaboration, joint working and school to school improvement.
- Understand how the third recommendation will allow Local Authorities to undertake their statutory responsibilities.
- Seek clarification and understand the veracity of the evidence base used to give the committee confidence that schools are best placed to self-regulate their own improvement.

Our members would like you to robustly scrutinise the evidence base so that you can be confident that any changes that are recommended will result in a sustainable school improvement model which will be cost efficient and improve on the current arrangements.

We can assure you that our workforce has the best interests of learners at its heart. We are committed to school improvement. We are committed to supporting schools and learners; working collaboratively and with compassion in support of the National Mission. We will not however have our professionalism, expertise, experience, and commitment cast aside in such a careless manner.

Yours Sincerely

Adam Flanders & Jane Lancastle
Prospect Officers Education & Childrens services.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2024/25** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno i'r Cydbwyllgor :<br>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2024/25 (Atodiad 1)<br>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2024/25 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd" a Tharged Arbedion o 10%)

1.1 Mae'r gyllideb wedi ei addasu i adlewyrchu'r penderfyniad gan Llywodraeth Cymru i newid y dull o ddosbarthu grantiau Addysg yn 2024/25 (gweler 2.1).

1.2 Mae targed arbedion o 10% gan yr awdurdodau wedi'u gynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd" a tharged arbedion o 10%).

1.3 Amlygir cyfraniadau ariannol yr awdurdodau yn Atodiad 2.

## 2. Dull ariannu Grantiau Llywodraeth Cymru 2024/25

2.1 Bu penderfyniad diweddar i unioni'r prif grantiau Addysg o dan un pennawd, sef y Grant Addysg Awdurdod Lleol (G.A.A.Ll), gyda'r bwriad o symleiddio'r drefn, a chael cysondeb sail dosbarthu ar draws Cymru. O 2024/25 ymlaen bydd y grant yn cael ei dalu i'r cynghorau / ysgolion yn uniongyrchol, ac nid i'r consortia rhanbarthol, gyda'r gofynion a risgiau y grant bellach yn gyfrifoldeb y Cynghorau unigol.

2.2 Er mwyn sicrhau fod modd parhau i gynnig lefelau cyfatebol o gymorth a gwasanaeth i ysgolion ag awdurdodau ar draws gogledd Cymru, bydd symudiad tuag at drefniant comisiynu, lle bydd awdurdodau'r gogledd yn prynu'r gwasanaeth cyfredol (megis cefnogaeth Dysgu Proffesiynol a Datblygu'r Cwricwlwm) gan GwE, gyda hyn uwchlaw y gwasanaeth craidd mae GwE yn ei darparu.

2.3 Mae pob Cyngor yn unigol wedi asesu a phenderfynu ar lefel o waith i'w gomisiynu, ac felly mae hynny am gael effaith ar y lefel o wasanaeth fydd yn cael ei ddarparu fesul awdurdod. Mae'n golygu hefyd bod rhai penawdau nad ydynt bellach o dan cyfrifoldeb GwE e.e yr elfen Plant Mewn Gofal oddi fewn y Grant Datblygu Disgyblion.

Gweler tabl isod y lleihad mewn grant / incwm comisiynu:

| | 2023/24 | 2024/25 | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| A - Cymorth Cwricwlwm ac Asesu | 2,235,318 | 1,080,618 | *-1,154,700* |
| B - Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth | 2,245,928 | 2,543,461 | *297,533* |
| C - Ieithoedd Tramor Modern | 176,006 | | *-176,006* |
| D - Addysgu a dysgu arall Dysgu Proffesiynol (Llythrennedd a rhifedd; Digidol) | 239,308 | | *-239,308* |
| E - Codio a Sgiliau Digidol | 66,981 | | *-66,981* |
| G - Cyfarwyddyd Iaith a Llythrennedd o bell | 145,000 | | *-145,000* |
| I - Grant Gwella Addysg / Grant Safonau | 1,081,638 | 835,102 | *-246,536* |
| **Cyfanswm** | **6,190,179** | **4,459,181** | ***-1,730,998*** |

2.4 Mae'r broses mae'r Llywodraeth wedi ei ddilyn wedi arwain at leihad dyraniad grant i Ogledd Cymru wrth gymharu â'r sail blaenorol. Mae hynny wedi lleihau'r adnodd ariannol sydd ar gael i gyfrannu i'r consortia.

2.5 Mae'r addasiadau yma, ynghyd â'r toriad a amlygir yn 3.1, yn arwain at ostyngiad yng ngwariant gros GwE, oedd yn £17.4m yn 2023/24, i £8.46m yn 2024/25, a cyflwynir y gyllideb newydd yn Atodiad 1.

## 3. Targed Arbedion

3.1 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad gan yr Awdurdodau i leihau eu cyfraniad at y gwasanaeth craidd o 10%, ac felly i weithredu toriad yn 2024/25 o £392k, yn ogystal â pheidio ychwanegu chwyddiant yn llawn.

3.2 Gan ystyried amcan chwyddiant ar holl wariant GwE ar gyfer 2024/25, a gan nid yw'r grantiau Addysg yn cael ei chwyddo yn flynyddol, golyga hyn doriad yn nhermau real o £345k ychwanegol i'r toriad craidd uchod, sy'n gyfanswm o £737k.

3.3 Mae'r toriad wedi ei ystyried wrth sefydlu cyllideb 2024/25, drwy adolygu'r lefelau staffio, a'r penawdau gwariant eraill. Mae'r cyllideb gytbwys a gyflwynir yn Atodiad 1, yn cael ei ariannu o gyfraniadau craidd ac incwm comisiynu gan yr Awdurdodau.

## 4. Y Gronfa Gyffredinol

4.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2023/24 - Adolygiad 3ydd Chwarter' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £239,101 yn y gronfa gyffredinol ar 31/03/2024, sy'n cyfateb i 1.4% o drosiant cyfredol GwE yn 2023/24.

---

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2024/25

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2024/25

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - CYLLIDEB GwE 2024-25

| | Cyllideb 2024/25 £ |
|---|---|
| **Gwariant** | |
| Gweithwyr | |
| Cyflogau a Staff ar Secondiad | 6,875,002 |
| Hyfforddiant, a costau gweithwyr eraill | 50,606 |
| | |
| Adeilad - Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 219,880 |
| | |
| Cludiant - Costau Teithio | 163,107 |
| | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 86,721 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 19,602 |
| Ffioedd archwilio | 13,611 |
| | |
| Cyllid Ysgolion sy’n Achosi Consyrn | 437,776 |
| | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | |
| Cyfreithiol | 6,804 |
| Adnoddau Dynol | 11,667 |
| Cyllid | 50,449 |
| Technoleg Gwybodaeth | 55,798 |
| | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 |
| | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **8,460,971** |

| | Cyllideb 2024/25 £ |
|---|---|
| **Incwm** | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (23/24: 10.09% - 24/25: 10.04%) | (401,942) |
| - Cyngor Gwynedd (23/24: 17.53% - 24/25: 17.55%) | (702,451) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (23/24: 15.17% - 24/25: 15.24%) | (609,921) |
| - Cyngor Sir Ddinbych (23/24: 15.51% - 24/25: 15.62%) | (624,967) |
| - Cyngor Sir y Fflint (23/24: 22.79% - 24/25: 22.71%) | (908,701) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (23/24: 18.91% - 24/25: 18.84%) | (753,808) |
| | |
| Gwasanaeth a Gomisiynwyd gan yr Awdurdodau | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (12.94%) | (577,040) |
| - Cyngor Gwynedd (18.17%) | (810,757) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (14.84%) | (661,581) |
| - Cyngor Sir Ddinbych (13.33%) | (594,209) |
| - Cyngor Sir y Fflint (21.47%) | (957,397) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (19.25%) | (858,197) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(8,460,971)** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** |

**Atodiad 2 / Appendix 2**

| | | Craidd/*Core* | | | | Arall / Other | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I'w ariannu gan | *Funded by* | Cyllideb<br>*Budget*<br>2023/24<br>£ | Targed Arbedion<br>*Savings Target*<br>10.00%<br>£ | Addasiadau canran cyfraniad<br>*Contribution proportion adjustment*<br>£ | Is-gyfanswm<br>*Sub-total*<br>2024/25<br>£ | Addasiad Model Cenedlaethol<br>National Model adjustment<br>£ | Cyllideb<br>*Budget*<br>2024/25<br>£ | % |
| Ynys Môn | *Isle of Anglesey* | **395,923** | -39,592 | -1,591 | **354,740** | 47,202 | **401,942** | 10.04% |
| Gwynedd | *Gwynedd* | **687,858** | -68,786 | 888 | **619,960** | 82,491 | **702,451** | 17.55% |
| Conwy | *Conwy* | **595,368** | -59,537 | 2,464 | **538,295** | 71,626 | **609,921** | 15.24% |
| Dinbych | *Denbighshire* | **608,601** | -60,860 | 3,833 | **551,574** | 73,393 | **624,967** | 15.62% |
| Fflint | *Flintshire* | **894,323** | -89,432 | -2,903 | **801,988** | 106,713 | **908,701** | 22.71% |
| Wrecsam | *Wrexham* | **742,196** | -74,220 | -2,691 | **665,285** | 88,523 | **753,808** | 18.84% |
| **Cyfanswm** | ***Total*** | **3,924,269** | **-392,427** | **0** | **3,531,842** | **469,948** | **4,001,790** | 100% |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**20 Mawrth 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Calendr Cyfarfodydd 2024-25 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar galendr cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol..

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2024/2025.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir. O safbwynt materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i GwE gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.

**Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2024/2025**

| CYFARFOD | DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD |
|---|---|---|---|
| Cyd-Bwyllgor GwE | 22/05/2024 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 10/07/2024 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 02/10/2024 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 27/11/2024 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 19/02/2025 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 21/05/2025 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 09/07/2025 | 10.30 y.b | Rhithiol drwy Zoom |